

Papur Testun 2A: Strategaethau & Chynlluniau Perthnasol

2A




CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd & Môn

Chwefror 2016

**Cefndir**

Mae hwn yn un o gyfres o bapurau testun sydd wedi eu paratoi er mwyn darparu gwybodaeth fanylach ac i egluro'r modd y mae'r cynllun yn ymdrin â gwahanol bynciau a materion sy'n effeithio ar Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Bydd y papur hwn yn rhoi sylw penodol i Strategaethau a Chynlluniau Perthnasol. Bydd yn egluro'r wybodaeth gefndirol sydd o gymorth wrth adnabod materion, amcanion ac opsiynau y ddogfen Cynllun Adnau.

Y Cynllun Adnau yw'r ail gam statudol paratoi y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd). Mae'r CDLl ar y Cyd yn siapio twf cymunedau o fewn Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i'r dyfodol, a bydd yn nodi'r polisïau a'r dynodiadau tir fydd yn sail i asesu ceisiadau cynllunio.

Bydd y Cynllun Adnau'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a fydd yn penodi arolygydd annibynnol i asesu cadernid y Cynllun yn yr Archwiliad Cyhoeddus. Os bydd yr arolygydd yn ystyried bod y Cynllun yn un cadarn bydd yn argymell ei fabwysiadu. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd y CDLl ar y Cyd yn disodli Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2009) ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd a Chynllun Fframwaith Gwynedd (1993) a Chynllun Lleol Ynys Môn (1996) ar gyfer Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn.

Gellir darllen y papur testun hwn ar wahân neu ar y cyd â'r Papurau Testun a'r Papurau Cefndir eraill a baratowyd er mwyn rhoi darlun cyflawn o Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Hwn yw fersiwn 3 o'r papur testun ac mae'n diweddaru fersiwn 2 gafodd ei gyflwyno efo'r Cynllun Adnau. Mae'r tabl isod yn crynhoi y newidiadau sydd i'w gweld yn y fersiwn yma:

| **Crynodeb o Newidiadau i'r Papur Trafod** | |
|---|---|
| **Adran** | **Disgrifiad o'r Newidiadau** |
| 2.3 | Polisi Cynllunio Cymru - Argraffiad 8 yn awr (2016) |
| 2.4 | Ychwanegwyd Cynllun Gweithredu Cynllunio Cadarnhaol (2015) |
| 2.5 | Ychwanegwyd Trosolwg Prosbectws Cynllunio (2015) |
| 2.6 | Ychwanegwyd Prosbectws Polisi Cynllunio (2015) |
| 2.7 | Ychwanegwyd Prosbectws Cynllun Datblygu (2015) |
| 2.8 | Ychwanegwyd Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol - Argraffiad 2 (2015) |
| 3.2.1 | Diweddarwyd Polisi Cynllunio Cymru - Pennod 1: Cyflwyniad (2016) |
| 3.2.2 | Diweddarwyd Polisi Cynllunio Cymru - Pennod 2: Cynlluniau Datblygu Lleol (2016) |
| 3.2.3 | Diweddarwyd Polisi Cynllunio Cymru - Pennod 4: Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd (2016) |
| 3.2.4 | Diweddarwyd Polisi Cynllunio Cymru - Pennod 8: Trafnidiaeth (2016) |
| 3.2.15 | Ychwanegwyd Cynllun Trafnidiaeth Lleol Canolbarth Cymru (2015)<br>Dilëwyd Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru (2009) |
| 3.2.16 | Ychwanegwyd Cynllun Trafnidiaeth Lleol Gogledd Cymru (2015)<br>Dilëwyd Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (2009) |
| 3.2.17 | Ychwanegwyd Rhaglen Datblygu Gwledig (2014-2020)<br>Dilëwyd Cynllun Datblygu Gwledig Cymru (2007) |
| 3.2.19 | Ychwanegwyd Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol (2015) |

| Crynodeb o Newidiadau i'r Papur Trafod | |
|---|---|
| **Adran** | **Disgrifiad o'r Newidiadau** |
| 4.2.1 | Diweddarwyd Polisi Cynllunio Cymru - Pennod 7: Cefnogi'r Economi (2016) |
| 4.2.2 | Diweddarwyd Polisi Cynllunio Cymru - Pennod 10: Cynllunio ar gyfer Manwerthu a Chanol Trefi (2016) |
| 4.2.3 | Diweddarwyd Polisi Cynllunio Cymru - Pennod 11: Twristiaeth, Chwaraeon a Hamdden (2016) |
| 4.2.15 | Ychwanegwyd Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid - Fframwaith Adfywio Newydd (2013) |
| 4.2.16 | Ychwanegwyd Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Twristiaeth (2013-2020) |
| 4.2.17 | Ychwanegwyd Strategaeth Twristiaeth Arfordirol (2008) |
| 5.2.1 | Ychwanegwyd Polisi Cynllunio Cymru - Pennod 5: Gwarchod a Gwella'r Dreftadaeth Naturiol a'r Arfordir (2016) |
| 5.2.2 | Ychwanegwyd Polisi Cynllunio Cymru - Pennod 6: Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol (2016) |
| 5.2.4 | Diweddarwyd Polisi Cynllunio Cymru - Pennod 13: Cyfyngu ar Risgiau Amgylcheddol a Llygredd a'u Rheoli (2016) |
| 5.2.5 | Ychwanegwyd Polisi Cynllunio Cymru - Pennod 14: Mwynau (2016) |
| 5.2.10 | Ychwanegwyd Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff (2014)<br>Dilëwyd Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff (2001) |
| 5.2.11 | Ychwanegwyd Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer Cymru (2010) |
| 5.2.12 | Ychwanegwyd Tuag at Ddyfodol Diwastraff (2010) |
| 5.2.13 | Cynllun morol Cenedlaethol Cymru – Drafft Cychwynnol (2015) |
| 6.2.1 | Diweddarwyd Polisi Cynllunio Cymru - Pennod 9: Tai (2016) |
| 6.2.2 | Ychwanegwyd Nodyn Cyngor Technegol 1: Astudiaethau Argaeledd Tir Ar Gyfer Tai (2015)<br>Dilëwyd Nodyn Cyngor Technegol 1: Astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (2006) |
| 6.2.11 | Ychwanegwyd Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru (2013-2023)<br>Dilëwyd Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru (2008-2013) |
| 6.2.17 | Ychwanegwyd Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| 7.2.1 | Diweddarwyd Polisi Cynllunio Cymru - Pennod 3: Gwneud Penderfyniadau Cynllunio a'u Gorfodi (2016) |
| 7.2.2 | Diweddarwyd Polisi Cynllunio Cymru - Pennod 12: Seilwaith a Gwasanaethau (2016) |
| 7.2.7 | Dilëwyd Nodyn Cyngor Technegol 17: Cynllunio a Rheoli Datblygu (2007) |

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) / Joint Planning Policy Unit
Llawr 1af Swyddfa Cyngor Dinas Bangor / 1st Floor Bangor City Council Offices
Bangor
LL57 1DT

01286 685003 neu 01766 771000

polisicynllunio@gwynedd.gov.uk



| | |
|---|---|
| Cyhoeddiad: Fersiwn 3 | Chwefror 2016 |

1.0 RHAGYMADRODD .......... 4

2.0 CYD-DESTUN POLISI .......... 6

3.0 THEMÂU TROSFWAOL (GWELER ATODIAD 1) .......... 12

4.0 THEMÂU ECONOMAIDD (GWELER ATODIAD 2) .......... 18

5.0 THEMÂU AMGYLCHEDDOL (GWELER ATODIAD 3) .......... 24

6.0 THEMÂU CYMDEITHASOL (GWELER ATODIAD 4) .......... 28

7.0 THEMÂU CYFFREDINOL (GWELER ATODIAD 5) .......... 33

8.0 CYFEIRIADAU .......... 35

ATODIAD 1 – THEMÂU TROSFWAOL .......... 39

ATODIAD 2 – THEMÂU ECONOMAIDD .......... 59

ATODIAD 3 – THEMÂU AMGYLCHEDDOL .......... 74

ATODIAD 4 – THEMÂU CYMDEITHASOL .......... 857

ATODIAD 5 – THEMÂU CYFFREDINOL .......... 99

# 1.0 RHAGYMADRODD

## 1.1 TROSOLWG

**1.1.1 Pwrpas y papur pwnc hwn yw darparu trosolwg eang o'r strategaethau a'r cynlluniau presennol sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLIC).**

**1.1.2 Rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) i'w ardal. Y CDLl fydd y cynllun datblygu i bob sir neu gyngor bwrdeistref sirol a phob Parc Cenedlaethol, gan ddisodli'r Cynllun Datblygu Unedol (CDU) neu unrhyw gynllun datblygu arall sy'n bodoli ar hyn o bryd.**

**1.1.3 Mae'r ystod o ddogfennau polisi sydd wedi'u cynnwys yn y papur hwn yn arbennig o eang, yn amrywio o ddogfennau sy'n ymdrin yn benodol â chynllunio defnydd tir, megis dogfennau 'Polisi Cynllunio Cymru' a 'Nodiadau Cyngor Technegol' Llywodraeth Cymru, i ddogfennau sy'n ymdrin â materion nad oes a wnelont yn uniongyrchol â'r gyfundrefn gynllunio, megis yr iaith Gymraeg, ond sydd serch hynny yn ystyriaethau allweddol mewn cyd-destun cynllunio gofodol.**

**1.1.4 Rhoddir disgrifiad byr o'r strategaethau a'r cynlluniau hyn ym mhrif gorff y ddogfen, tra ymdrinnir yn fanylach â'u cynnwys yn yr atodiadau.**

## 1.2 DEDDF CYNLLUNIO A PHRYNU GORFODOL 2004

1.2.1 Mae gan y 'Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004)' oblygiadau enfawr i'r ffordd y dylai cynllunio weithio fel arf i'r gymuned.

1.2.2 Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi penderfynu paratoi 'Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLIC)', a fydd yn cwmpasu Ynys Môn yn ei chyfanrwydd ac ardal cynllunio lleol Gwynedd, nad yw'n cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri.

## 1.3 STRATEGAETHAU A CHYNLLUNIAU

1.3.1 Mae polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru wedi'u nodi ym 'Mholisi Cynllunio Cymru' ac ychwanegir atynt drwy Nodiadau Cyngor Technegol a Chylchlythyrau.

1.3.2 Rhaid i Awdurdodau Cynlluniau Lleol ystyried polisi cenedlaethol, sydd hefyd yn cynnwys 'Cynllun Gofodol Cymru', wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae 'Cynllun Gofodol Cymru' yn integreiddio agweddau gofodol strategaethau cenedlaethol, yn cynnwys cynhwysiant cymdeithasol a datblygu economaidd, iechyd, trafnidiaeth a pholisi amgylcheddol, a thrwy hynny mae'n troi dyletswydd datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn rhywbeth ymarferol.

1.3.3 O dan adran 62 o Ddeddf 2004, mae'n ofynnol hefyd i Gynlluniau Datblygu Lleol ystyried:

a) y Strategaeth Ofodol Ranbarthol i unrhyw ranbarth cyffiniol o Loegr;
b) Strategaeth neu Strategaethau Cymunedol i ardal y cynllun; ac

c) yr adnoddau sy'n debygol o fod ar gael i roi'r cynllun ar waith.

1.3.4 Mae'r 'Rheoliadau Datblygu Lleol' yn rhagnodi bod rhaid i CDLl ystyried yr isod (Rheoliad 13):

a) 'Strategaeth Wastraff Cymru' a Chynlluniau Gwastraff Rhanbarthol;
b) Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol a pholisïau eraill a baratowyd o dan adran 108 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000;
c) Strategaethau Tai Lleol; a
d) Cynlluniau i atal a chyfyngu ar ddamweiniau mawr.

1.3.5 Dylai awdurdodau hefyd ystyried y berthynas rhwng eu Cynlluniau Datblygu Lleol a strategaethau lleol eraill sydd wedi'u mabwysiadu, yn cynnwys:

a) Strategaethau datblygu economaidd ac adfywio;
b) 'Agenda 21' neu strategaethau amgylcheddol;
c) Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol;
d) Strategaethau Tai Lleol;
e) Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol.

## 2.0 CYD-DESTUN POLISI

## 2.1 TROSOLWG

**2.1.1 Mae hierarchaeth o ddogfennau gofodol a chynllunio defnydd tir strategol yn bodoli yn y gyfundrefn gynllunio yng Nghymru.**

**2.1.2 Ar frig yr hierarchaeth hon mae 'Cynllun Gofodol Cymru', sy'n nodi fframwaith strategol i arwain datblygu ac ymyriadau polisi yn y dyfodol. Mae'n integreiddio agweddau gofodol strategaethau cenedlaethol yn ymwneud â chynhwysiant cymdeithasol a datblygu economaidd, iechyd, trafnidiaeth a'r amgylchedd, gan roi dyletswydd datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar waith yn ymarferol.**

**2.1.3 Mae 'Polisi Cynllunio Cymru' yn nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Ychwanegir ato drwy gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN). Mae Polisi Cynllunio Cymru yn rhoi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy ar waith drwy'r gyfundrefn gynllunio.**

### 2.2 CYNLLUN GOFODOL CYMRU – DIWEDDARIAD 2008

#### 2.2.1 DIBEN

a) Diben 'Cynllun Gofodol Cymru' yw sicrhau bod yr hyn a wneir yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru yn integredig ac yn gynaliadwy, a bod y camau gweithredu o fewn ardal yn ategu ei gilydd ac yn symud ar y cyd at weledigaeth a rennir ar gyfer Cymru a gwahanol ardaloedd Cymru. Mae'n cyflawni hyn drwy weithio cydweithredol ac integreiddio polisïau yn fertigol a llorweddol, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.

b) Mae fframwaith 'Cynllun Gofodol Cymru' defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth i ddeall yr anghenion gwahanol sydd gan bobl a lleoedd gwahanol, ac i lywio polisi.

c) Dyma yw gweledigaeth gyffredinol y cynllun:
"Byddwn yn cynnal ein cymunedau drwy fynd i'r afael â'r sialensiau sy'n codi yn sgil newid yn y boblogaeth a newid economaidd. Byddwn yn tyfu mewn ffyrdd fydd yn cynyddu gallu cystadleuol Cymru ac ar yr un pryd yn cynorthwyo ardaloedd llai breintiedig i gau'r bwlch o ran lefelau ffyniant cyffredinol a lleihau effeithiau negyddol ar yr amgylchedd; byddwn yn gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig a byddwn yn cynnal ein hunaniaeth unigryw."

#### 2.2.2 EGWYDDORION

a) Sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud gan ystyried eu heffaith y tu hwnt i ffiniau uniongyrchol sectoraidd neu weinyddol a bod gwerthoedd craidd datblygu cynaliadwy yn llywio popeth a wnawn.

b) Gosod y cyd-destun ar gyfer cynllunio lleol a chymunedol.

c) Dylanwadu ar ble y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwario arian drwy ddealltwriaeth o rolau lleoedd a'r rhyngweithio rhyngddynt.

d) Darparu sail dystiolaeth glir ar gyfer y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i ddatblygu polisïau a chamau gweithredu.

2.2.3 THEMÂU

A) CREU CYMUNEDAU CYNALIADWY

"Mae ein dyfodol yn dibynnu ar fywiogrwydd ein cymunedau fel lleoedd deniadol i fyw a gweithio ynddynt. Mae angen i ni leihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau gan gadw eu cymeriad a'u natur unigryw."

i) Mae'r thema hon yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i greu cymunedau cynaliadwy drwy sicrhau eu bod yn lleoedd deniadol i fyw a gweithio ynddynt, gan leihau anghydraddoldebau a chynnal cymeriad arbennig yr un pryd.
ii) Mae llawer o'r Gymru wledig yn llai poblog nag unrhyw ardaloedd gwledig yn Lloegr ac yn debycach i Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban.
iii) ganlyniad, mae nifer o leoedd yn y Gymru wledig sydd â phoblogaeth o fwy na 15,000 yn ymgymryd â rolau sy'n nodweddiadol o drefi llawer mwy mewn ardaloedd eraill, sy'n creu heriau unigryw o ran cyflenwi gwasanaethau yn effeithiol.
iv) Yr her allweddol a wynebwn wrth greu cymunedau cynaliadwy yw mynd i'r afael ag amddifadedd a sicrhau gwelliannau yn iechyd y cyhoedd a gwaredu tlodi ymhlith plant.
v) Wrth i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf symud i'w cham nesaf, bydd gwell ymgysylltu rhwng 'Grwpiau Ardal y Cynllun Gofodol' a phartneriaethau lleol yn help i ddatblygu mentrau sy'n mynd i'r afael â thlodi ymhlith plant, cyflogadwyedd, diffygion o ran sgiliau ac anweithgarwch economaidd yn ogystal â'r amgylchedd, iechyd a lles a diogelwch cymunedol.
vi) Targedu adfywio i wella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig a chreu cymunedau cynaliadwy ac ansawdd bywyd uchel o fewn economi leol iach.
vii) Rhaid i adfywio fod yn ystyriol o gymeriad hanesyddol, diwylliannol ac ieithyddol y cymunedau gan ystyried yr heriau allweddol yn sgil newid yn yr hinsawdd.
viii) Drwy'r Grwpiau Ardal, sicrhau cydweithio a chydweithredu rhwng awdurdodau cynllunio lleol, y sector preifat a'r trydydd sector ar faterion tai rhanbarthol.
ix) Yr egwyddorion cyffredinol ar gyfer twf tai newydd yw:
- dylai fod yn gysylltiedig â nodau trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys rhwydweithiau cerdded a beicio;
- dylai ystyried cyfyngiadau amgylcheddol, gan gynnwys perygl o lifogydd;
- a dylai gyrraedd safonau uchel o ran effeithlonrwydd ynni.

B) HYBU ECONOMI GYNALIADWY

"Mae arnom angen economi arloesol sy'n ychwanegu gwerth uchel yng Nghymru, sy'n defnyddio ac yn datblygu sgiliau a gwybodaeth ein pobl; economi sy'n creu cyfoeth ac yn hyrwyddo lledaenu'r ffyniant hwnnw ledled Cymru; economi sy'n ychwanegu at ansawdd bywyd yn ogystal â safon yr amgylchedd byw a gweithio."

i) Mae'r thema hon yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o economi arloesol sy'n ychwanegu gwerth uchel yng Nghymru, sy'n defnyddio ac yn datblygu sgiliau a gwybodaeth pobl; economi sy'n creu cyfoeth ac yn hyrwyddo lledaenu'r ffyniant hwnnw ledled Cymru; economi sy'n ychwanegu at ansawdd bywyd.
ii) Mae i'r economi yng Nghymru ddimensiwn gofodol, gydag ardaloedd mwy gorllewinol fel Gwynedd ac Ynys Môn yn llusgo'r tu ôl i ardaloedd eraill.

iii) Mae cyflogau isel, gwaith tymhorol a diffyg cyfleoedd amrywiol yn broblem fawr yn y Gymru wledig, o gofio maint bach ei haneddiadau a'i phoblogaeth wasgaredig.

iv) Mae i Gymru gynnydd net mewn poblogaeth ym mhob grŵp oedran heblaw am y rhai yn eu 20au, sy'n adlewyrchu'r diffyg cyfleoedd gwaith a'r diffyg dinasoedd mawr.

v) Yn sgil poblogrwydd Cymru fel ardal ymddeol, mae gan Gymru gymhareb uwch o ddibyniaeth na Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon na Gweriniaeth Iwerddon.

vi) Mae Cymru'n Un yn cynnwys ymrwymiad y dylid mabwysiadu ymagwedd Cymru gyfan at ddatblygu economaidd, gan warantu buddsoddiad ym mhob rhanbarth o fewn fframwaith Cynllun Gofodol Cymru. Bydd hyn yn cynnwys datblygu aneddiadau allweddol sydd â rolau ategol i gefnogi economi ffyniannus mewn ardaloedd gwledig.

vii) Rhaid i awdurdodau lleol fynd ati ar y cyd â chonsortia trafnidiaeth ac eraill i fynd i'r afael â phroblemau seilwaith rhanbarthol ar faterion tai, trafnidiaeth, dŵr, carthffosiaeth, ynni, gwastraff a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

viii) Dylai datblygiadau eiddo ar gyfer cyflogaeth gael eu lleoli yn agos at drafnidiaeth gyhoeddus ac yn agos at ddatblygiadau tai a seilwaith.

ix) Lle bynnag y bo modd, dylid blaenoriaethu datblygu safleoedd tir llwyd dros safleoedd tir glas.

x) Gall datblygiadau manwerthu y tu allan i'r dref danseilio adfywiad a hyfywedd canol trefi, yn ogystal â chyfrannu at batrymau traffig anghynaliadwy ac, felly, mae angen cymhwyso profion cynllunio priodol.

C) <u>GWERTHFAWROGI EIN HAMGYLCHEDD</u>

"Mae i ansawdd ein hamgylchedd werth cynhenid fel ased sylfaenol a gwerth hefyd i'n heconomi ac ansawdd ein bywydau. Drwy ddiogelu a chyfoethogi'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, byddwn yn denu pobl i'n cymunedau ac yn eu cadw ynddynt, gan gynnal y sylfeini ar gyfer y dyfodol."

i) Mae'r thema hon yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i ddiogelu a chyfoethogi'r amgylchedd naturiol ac adeiledig.

ii) Mae amgylchedd tir a môr Cymru a'i hamgylchedd hanesyddol yn sylfaenol i'n treftadaeth ddiwylliannol, ein gwerthoedd a'n hansawdd bywyd.

iii) Mae'r rhan fwyaf o bobl Cymru yn byw yn agos at afonydd neu'r môr.

iv) Mae newidiadau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ym mhatrymau glawiad a lefelau'r môr yn golygu bod gofyn inni ymgysylltu â phobl am faterion sy'n ymwneud â pherygl llifogydd.

v) Bydd goblygiadau yn sgil y newid yn yr hinsawdd i ddefnydd tir, adnoddau dŵr, bioamrywiaeth a bywyd gwyllt.

vi) Dylid annog mwy o gerdded a beicio fel rhan o fywyd beunyddiol pobl.

vii) Dylid darparu mwy o fannau agored diogel a glân.

viii) Gwella ansawdd yr aer, er enghraifft drwy ddull integredig o reoli traffig.

ix) Rheoli gwastraff, dŵr a phriddoedd yn fwy cynaliadwy.

x) Galluogi datblygu gwell darpariaeth ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff.

xi) Nodi ardaloedd o gyfleoedd amgylcheddol yn 'Ardaloedd y Cynllun Gofodol' i wella lles ac ansawdd bywyd yn ardaloedd gwledig Cymru yn arbennig.

xii) Hyrwyddo bywyd gwyllt a bioamrywiaeth am resymau cynhenid ac er mwynhad pobl drwy gynyddu nifer ac ansawdd y safleoedd natur ym mhob rhan o Ardaloedd y Cynllun Gofodol ac yn arbennig mewn ardaloedd trefol.

D) SICRHAU HYGYRCHEDD CYNALIADWY

"Byddwn yn datblygu mynediad mewn ffyrdd sy'n diogelu'r amgylchedd, yn annog gweithgarwch economaidd, yn ehangu cyfleoedd cyflogaeth, yn sicrhau ansawdd gwasanaethau ac yn integreiddio'r manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y gellir eu cael drwy deithio."

i) Datblygu mynediad mewn ffyrdd sy'n annog gweithgarwch economaidd, yn ehangu cyfleoedd cyflogaeth, yn sicrhau gwasanaethau o safon ac yn integreiddio'r manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y gellir eu cael drwy deithio.
ii) Mae rhannau enfawr o'r ardaloedd gwledig yn cael eu hystyried fel yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran mynediad yng Nghymru.
iii) Yn ddealladwy, ardaloedd trefol at ei gilydd yw'r ardaloedd lleiaf difreintiedig o ran mynediad yng Nghymru.
iv) Dylai prif ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus, ar gam cynnar yn y broses o baratoi cynigion ailddatblygu neu ail-leoli, ymgysylltu â'r rhai sy'n gyfrifol am gynllunio trafnidiaeth.
v) Dylid ystyried goblygiadau trafnidiaeth cynigion yn llwyr cyn gwneud penderfyniadau pendant.
vi) Yng nghyd-destun ymateb i'r newid yn yr hinsawdd a'i liniaru, mae Cynllun Gofodol Cymru yn cefnogi datblygu ymatebion sydd wedi'u targedu'n ofodol.
vii) Mae'r rhain yn cynnwys lleihau'r angen i deithio, drwy gyd-leoli swyddi, tai a gwasanaethau, er enghraifft, a newid ymddygiad at ddulliau teithio 'gwyrddach', megis rhannu ceir, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio.
viii) Integreiddio atebion trafnidiaeth cynaliadwy gyda chynllunio cymunedol a datblygu i wella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, gan gydnabod rôl y trydydd sector mewn mannau sy'n anodd eu cyrraedd.

E) PARCHU NODWEDDION UNIGRYW

"Mae hunaniaeth gydlynol sy'n cynnal ac yn dathlu'r hyn sy'n unigryw am Gymru, mewn ffordd agored sy'n edrych allan, yn ganolog i hyrwyddo Cymru i'r Byd, yn ogystal ag i'n cystadleurwydd economaidd a'n lles cymdeithasol ac amgylcheddol yn y dyfodol."

i) Mae'r thema hon yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i barchu nodweddion unigryw, sy'n golygu hunaniaeth gydlynol sy'n cynnal ac yn dathlu'r hyn sy'n unigryw am Gymru, a hynny'n ganolog i gystadleurwydd economaidd a lles cymdeithasol ac amgylcheddol y wlad yn y dyfodol.
ii) Ledled Cymru mae nifer o enghreifftiau o'r ffordd y gall cymunedau ffynnu drwy greu hunaniaeth a chymeriad unigryw drwy arweiniad arloesol a gweithio mewn partneriaeth.
iii) Mae'n hanfodol inni ddysgu sut mae'r cymunedau hyn wedi llwyddo, monitro eu cynnydd a chefnogi'r broses o gyflwyno'r arfer da hwn i fwy o'n haneddiadau.
iv) Mae angen amgylchedd o safon dda ar aneddiadau allweddol, gydag adeiladau a mannau o safon, sy'n meithrin ymdeimlad o hunaniaeth a chymuned.
v) Mae cadw a dathlu treftadaeth unigryw pob 'Ardal o'r Cynllun Gofodol' yn bwysig.
vi) Mae gan y Gymraeg rôl sylweddol i'w chwarae yn ein cymunedau a dylid ei hyrwyddo fel nodwedd gadarnhaol i'r ardal.

vii) Bydd datblygu 'Ardal y Cynllun Gofodol' yn unol â gweledigaeth Iaith Pawb o greu cymdeithas ddwyieithog fodern yn flaenoriaeth allweddol.

viii) Mae i ddiwylliant, y celfyddydau a chwaraeon rhan allweddol i'w chwarae o ran creu cymunedau cydlynus ac ymdeimlad o hunaniaeth leol.

ix) Cydweithio â Croeso Cymru a'r partneriaethau twristiaeth rhanbarthol i ailddiffinio dimensiwn gofodol ardaloedd rheoli cyrchfannau twristiaeth ac ardaloedd marchnata twristiaeth yng Nghymru.

x) Sicrhau bod y Cynllun Gweithredu Twristiaeth Ddiwylliannol wedi'i gysoni'n ofodol ac y caiff ymdeimlad lleol o le a natur unigryw ei atgyfnerthu.

2.3 POLISI CYNLLUNIO CYMRU – ARGRAFFIAD 8 (2016)

2.3.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru'n darparu'r fframwaith polisi i awdurdodau cynllunio lleol i baratoi'u cynlluniau datblygu yn effeithiol, a gall fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio unigol.

2.3.2 Gall Polisi Cynllunio Cymru, ynghyd â'i Nodiadau Cyngor Technegol cysylltiol, fod yn berthnasol i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio unigol a bydd Gweinidogion Cymru ac Arolygwyr Cynllunio yn ei ystyried wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio sydd wedi'u galw i mewn ac apeliadau.

2.3.3 Mae thema cynaliadwyedd yn rhan annatod o bob agwedd o Bolisi Cynllunio Cymru ac mae Llywodraeth Cymru'n datgan yn benodol ei dyhead i leihau ôl troed carbon Cymru yn ddirfawr.

2.3.4 Dywed:

"4.5.11 Mae gwaith Llywodraeth Cymru i leihau ôl troed ecolegol Cymru yn cyd-fynd yn agos â'r ymrwymiadau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae'n Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn amlinellu uchelgais i Gymru ddefnyddio'i chyfran deg o adnoddau'r ddaear a lleihau'n hôl troed ecolegol o fewn cenhedlaeth i gyfartaledd adnoddau'r byd, sef 1.88 hectar byd-eang fesul person. Mae'r ôl troed presennol yn dangos, pe bai pawb yn y byd yn byw fel rydyn ni'n byw, byddem yn defnyddio adnoddau gwerth 2.7 planed. Er mwyn lleihau ôl troed ecolegol Cymru, bydd angen gostyngiad mawr yn nghyfanswm yr adnoddau rydyn ni'n eu defnyddio i gynnal ein ffordd o fyw. Bydd y polisi a'r canllawiau a welir yma yn gwneud cyfraniad pwysig i leihau'n hôl troed, gan sicrhau datblygu cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd."

2.4 CYNLLUN GWEITHREDU CYNLLUNIO CADARNHAOL (2015)

2.4.1 Mae'r ddogfen yn tynnu ynghyd: y gwahanol eitemau o is-ddeddfwriaeth gefnogol, prosiectau a rhaglenni gwella a gyflenwir gan Lywodraeth Cymru wrth ddilyn ei hagenda cynllunio cadarnhaol; mae'n pennu blaenoriaethau ac amserlenni Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflenwi ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad, ac yn rhoi awgrym o'r amserlen ar ôl mis Mai 2016, a fydd yn amodol ar gadarnhad gan Lywodraeth nesaf Cymru.

2.5 TROSOLWG PROSBECTWS CYNLLUNIO (2015)

2.5.1 Dogfen grynodeb sy'n amlinellu aliniad y system gynllunio gyda'r Bil Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ar y pryd.

2.6 PROSBECTWS POLISI CYNLLUNIO (2015)

2.6.1 Yn amlinellu sut y bydd polisi cenedlaethol fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) yn cael ei ddiwygio i gyd-fynd â'r cynigion a amlinellir ym Mil Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ar y pryd.

2.7 PROSBECTWS CYNLLUN DATBLYGU (2015)

2.7.1 Yn amlinellu sut y mae'r cynigion cynllun datblygu ym Mil Cynllunio (Cymru) ar y pryd yn alinio gyda'r broses cynllun datblygu gyfredol a'r Bil Mesur Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ar y pryd.

2.8 LLAWLYFR CYNLLUN DATBLYGU LLEOL - ARGRAFFIAD 2 (2015)

2.8.1 Dogfen gyfeirio yw'r llawlyfr hwn, yn bennaf ar gyfer ymarferwyr sy'n ymwneud â Chynlluniau Datblygu Lleol.

2.8.2 Nid yw'n bolisi cenedlaethol.

## 3.0 THEMÂU TROSFWAOL (GWELER ATODIAD 1)

### 3.1 TROSOLWG

**3.1.1 Yn yr is-adran isod ceir trosolwg byr o'r strategaethau a'r cynlluniau cenedlaethol a lleol sy'n berthnasol i fwy nag un thema neilltuol yng Ngwynedd ac Ynys Môn.**

### 3.2 STRATEGAETHAU A CHYNLLUNIAU

3.2.1 POLISI CYNLLUNIO CYMRU – PENNOD 1: RHAGARWEINIAD (2016) (GWELER ATODIAD 1 – TABL 3.2.1)

a) Mae'r bennod yn rhoi pwyslais cryf ar y ffaith y dylai'r gyfundrefn gynllunio fod yn effeithlon, yn effeithiol ac yn syml o ran ei gweithrediad.
b) Elfennau hanfodol eraill o'r gyfundrefn gynllunio yw bod y cyhoedd yn cyfrannu tuag at baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol a chadw at y targedau o ran penderfynu ar geisiadau cynllunio o fewn cyfnod penodedig o amser.
c) Diwygiwyd yn Argraffiad 8 i gynnwys cyfeiriad at Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
d) Diweddarwyd y testun ar gyd-destun yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer cynllunio yng Nghymru.

3.2.2 POLISI CYNLLUNIO CYMRU – PENNOD 2: CYNLLUNIAU DATBLYGU (2016) (GWELER ATODIAD 1 – TABL 3.2.2)

a) Nid yw'n dilyn o reidrwydd y bydd angen polisi penodol ar bob pwnc.
b) Mae modd ymdrin yn briodol mewn rhai achosion â rhoi canllawiau ar reoli datblygu mewn dull generig yn hytrach na thrwy bolisïau pwnc ar wahân.
c) Diwygiwyd yn Argraffiad 8 i gynnwys mwy o fanylion ynglŷn â pharatoi Cynlluniau Datblygu Lleol, gan gynnwys eu ffurf a chyd-destun, ar y broses o baratoi'r cynllun, y broses adolygu a diwygio, ac ar rôl Llywodraeth Cymru yn y broses.
d) Hefyd cynhwysir paratoad y canllawiau cynllunio atodol.

3.2.3 POLISI CYNLLUNIO CYMRU – PENNOD 4: CYNLLUNIO AR GYFER CYNALIADWYEDD (2016) (GWELER ATODIAD 1 – TABL 3.2.3)

a) Dylid annog ceisiadau sy'n adlewyrchu egwyddorion allweddol datblygu sy'n ymateb i'r hinsawdd ac sy'n cyrraedd neu'n rhagori ar y safonau sydd wedi'u nodi ym 'Mholisi Cynllunio Cymru'.
b) Gwnaed y newidiadau canlynol yn Argraffiad 8:

- Datblygu cynaliadwy

- Diweddarwyd yn ffeithiol i gynnwys gwybodaeth am Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys y camau gweithredu y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu cymryd mewn ymateb iddi.
- Amlinellu saith nod lles y Ddeddf.
- Diweddarwyd y diffiniad o ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru yn unol â Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd

- Diweddarwyd yn ffeithiol i gyfeirio at Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a diweddaru gwybodaeth am y gofynion deddfwriaethol ar gyfer datblygu cynaliadwy yn y system gynllunio.

- Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

- Diweddarwyd yn ffeithiol i gynnwys gwybodaeth am yr Egwyddor Datblygiad Cynaliadwy a gynhwysir yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- Yn cyfeirio at gyngor pellach ar weithredu Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd i fod i gael ei chyhoeddi maes o law.

- Amcanion

- Mae amcanion polisi cynllunio presennol wedi cael eu hailalinio o dan y nodau lles a geir yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac i adlewyrchu cynnwys pennod newydd ym Mholisi Cynllunio Cymru ar gynllunio mwynau, yn cynnwys amcan ychwanegol ar y pwnc hwn.

- Cefnogi'r Iaith Gymraeg

- Diwygio i gyfeirio at ac ystyried:

    - Nod amcanion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn â'r iaith Gymraeg; a
    - Darpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 sy'n ymwneud ag ystyriaeth o'r iaith Gymraeg.

3.2.4 POLISI CYNLLUNIO CYMRU – PENNOD 8: TRAFNIDIAETH (2016) (GWELER ATODIAD 1 – TABL 3.2.4)

a) Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol sefydlu fframwaith ar gyfer cynllunio trafnidiaeth gynaliadwy ac integredig yng Nghymru.

b) Diwygiwyd yn Argraffiad 8 i gymryd i ystyriaeth Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2015.

3.2.5 NODYN CYNGOR TECHNEGOL 6: CYMUNEDAU GWLEDIG CYNALIADWY (2010) (GWELER ATODIAD 1 – TABL 3.2.5)

a) Mae'r TAN yn cefnogi datblygu cymunedau gwledig cynaliadwy, gan helpu i sicrhau bod datblygu'n digwydd yn y lle iawn i ddarparu cartrefi a chyfleoedd gwaith i bobl leol, gan helpu i gynnal gwasanaethau gwledig.

b) Ar yr un pryd, rhaid i'r gyfundrefn gynllunio ymateb i'r heriau y mae newid yn yr hinsawdd yn eu creu, er enghraifft drwy ganiatáu ar gyfer yr angen i gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

3.2.6 NODYN CYNGOR TECHNEGOL 8: CYNLLUNIO AR GYFER YNNI ADNEWYDDADWY (2005) (GWELER ATODIAD 1 – TABL 3.2.6)

a) Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 yn ymdrin yn bennaf â goblygiadau defnydd tir annog defnyddio ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

b) Mae darparu trydan o ffynonellau adnewyddadwy yn elfen bwysig o bolisi ynni'r Deyrnas Unedig, sydd wedi sefydlu targed o gynhyrchu 10% o'i thrydan o ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2010.

c) Mae gan Lywodraeth Cymru darged y dylai 4TWh o drydan y flwyddyn gael ei gynhyrchu drwy ynni adnewyddadwy erbyn 2010 a 7TWh erbyn 2020.

d) Er mwyn cyrraedd y targedau hyn mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad fod angen 800MW o gapasiti ychwanegol wedi'i osod o ffynonellau gwynt ar y tir erbyn 2010.

e) Datblygu dealltwriaeth o dechnoleg ynni adnewyddadwy.

f) Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol hyrwyddo defnyddio ynni adnewyddadwy.

g) Nodwyd nifer o safleoedd trefol/diwydiannol fel rhai sydd â rhywfaint o botensial i'w defnyddio ar gyfer ynni adnewyddadwy.

3.2.7 <u>NODYN CYNGOR TECHNEGOL 12: DYLUNIO (2014) (GWLER ATODIAD 1 – TABL 3.2.7)</u>

a) Mae'r TAN diwygiedig yn rhoi cyngor ar hyrwyddo cynaladwyedd drwy ddylunio da, cynllunio ac adeiladau cynaliadwy a pharatoi Datganiadau Dylunio a Mynediad.

b) Rhaid i ddyluniad cychwynnol adeilad yn y broses gynllunio ystyried gallu'r adeilad i fodloni gofynion Rheolaeth Adeiladu. Felly, dylai dylunio fod yn ystyriaeth sylfaenol o'r cychwyn cyntaf ac ni ddylid ei drin na'i ddatblygu ar wahân.

c) Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol ffurfio polisïau dylunio sy'n annog safonau dylunio uchel sy'n parchu cyd-destun a hynodrwydd lleol.

3.2.8 <u>NODYN CYNGOR TECHNEGOL 18: TRAFNIDIAETH (2007) (GWELER ATODIAD 1 – TABL 3.2.8)</u>

a) Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull o ymdrin â materion trafnidiaeth sydd wedi'i seilio ar ddatblygu cynaliadwy.

b) Nod Polisi Cynllunio Cymru a 'Strategaeth Drafnidiaeth Cymru' y naill a'r llall yw sicrhau y darperir seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth sy'n gwella hygyrchedd, yn adeiladu economi gref, yn gwella diogelwch ar y ffyrdd ac yn meithrin cymunedau mwy cynaliadwy.

3.2.9 <u>YNNI CYMRU: NEWID I ECONOMI CARBON ISEL (2012) (GWELER ATODIAD 1 – TABL 3.2.9)</u>

a) Drwy ddarparu arweinyddiaeth a fframwaith sefydlog; drwy wneud yn fawr o fuddion pob math o ddatblygiadau ynni ac effeithlonrwydd ynni; a thrwy sicrhau bod Cymru ar flaen y gad yn harneisio ynni o'r môr a'r symud tuag at fyw'n gall, mae modd gwireddu'r weledigaeth o ddyfodol carbon niwtral.

3.2.10 <u>CYMRU'N UN: CENEDL UN BLANED – CYNLLUN DATBLYGU CYNALIADWY LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2009) (GWELER ATODIAD 1 – TABL 3.2.10)</u>

a) Mae'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn rhoi cyfle i Gymru ddangos arweinyddiaeth ac uchelgais, a dysgu o'r gorffennol.

b) Mae'n rhoi'r cyfle i Lywodraeth Cymru ddangos sut yr ydym yn chwarae ein rhan yn llawn fel dinesydd byd-eang, yn y cyd-destun a osodwyd gan Amcanion Datblygu'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer y Mileniwm.

c) Mae amcan cynaliadwyedd yn golygu bod gofyn i bawb gymryd rhan, a bydd Llywodraeth Cymru'n darparu, mewn dwy ddogfen ategol, arweiniad a chyngor ar y rôl y gall eraill ei chwarae yn hyn o beth.

3.2.11 <u>CYMRU'N UN: CYSYLLTU'R GENEDL – STRATEGAETH DRAFNIDIAETH CYMRU (2008) (GWELER ATODIAD 1 – TABL 3.2.11)</u>

a) Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn benderfynol y caiff pobl sy'n byw ledled Cymru y seilwaith a'r gwasanaethau trafnidiaeth y mae eu hangen arnynt i fyw'n gynaliadwy.
b) Mae Cysylltu'r Genedl yn nodi ein strategaeth a'n blaenoriaethau allweddol. Drwy weithio gyda'n partneriaid, byddwn yn awr yn datblygu cynlluniau manwl ac yn buddsoddi i ddarparu system drafnidiaeth sy'n gweddu i'r 21ain ganrif.

3.2.12 <u>CYMRU'N UN: CYSYLLTU'R GENEDL – STRATEGAETH CLUDO NWYDDAU CYMRU (2008) (GWELER ATODIAD 1 – TABL 3.2.12)</u>

a) Cynlluniwyd Strategaeth Cludo Nwyddau Cymru i helpu i ddatblygu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, hyrwyddo ffactorau sy'n hybu systemau dosbarthu cynaliadwy, cynorthwyo diwydiant Cymru, rhagweld ac ymateb i newidiadau sylfaenol mewn marchnadoedd, nodi gwendidau yn y rhwydweithiau cludo nwyddau presennol a gwneud y defnydd gorau posibl o'r seilwaith sydd ar gael.

3.2.13 <u>CYNLLUN TRAFNIDIAETH CENEDLAETHOL (2010) (GWELER ATODIAD 1 – TABL 3.2.13)</u>

a) Mae'r cynllun yn cyflwyno'r nodau a'r amcanion y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu'u gwireddu dros y pum mlynedd nesaf, yng nghyd-destun ei weledigaeth tymor hir.
b) Mae Llywodraeth Cymru am weld gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus cyflym, dibynadwy a fforddiadwy yn cysylltu aneddiadau mawr, ac am weld safleoedd cyfnewid modd strategol yn datblygu o amgylch trefi a dinasoedd, gyda chysylltiadau da â'r rhwydweithiau trafnidiaeth lleol.

3.2.14 <u>CYNLLUN GWEITHREDU CYMRU AR GERDDED A BEICIO (2009-2013) (GWELER ATODIAD 1 – TABL 3.2.14)</u>

a) Dylai'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd roi sylw i deithio cynaliadwy fel rhan o'r broses ffurfio polisi, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ddarparu rhagor o gyfleoedd cerdded a beicio.

3.2.15 <u>CYNLLUN TRAFNIDIAETH LLEOL CANOLBARTH CYMRU (2015) (GWELER ATODIAD 1 – TABL 3.2.15)</u>

a) Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol wedi cael ei baratoi ar y cyd gan Awdurdodau Lleol Canolbarth Cymru, sef Powys, Ceredigion a Gwynedd (ar gyfer Meirionnydd) mewn ymateb i ofyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno CTLlau erbyn diwedd mis Ionawr 2015.
b) Goruchwyliwyd paratoad y cynllun gan TraCC fel Cyd-bwyllgor yr awdurdodau lleol ar gyfer trafnidiaeth. Mae'r Cynllun yn ddogfen statudol i drafnidiaeth yn y rhanbarth.

3.2.16 CYNLLUN TRAFNIDIAETH LLEOL GOGLEDD CYMRU (2015) (GWELER ATODIAD 1 – TABL 3.2.16)

a) Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol wedi cael ei baratoi ar y cyd gan Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru mewn ymateb i ofyniad Llywodraeth Cymru am Gynlluniau Trafnidiaeth Lleol.
b) Goruchwyliwyd paratoad y cynllun gan Taith fel Cyd-bwyllgor yr awdurdodau lleol ar gyfer trafnidiaeth
c) Mae'r cynllun yn ddogfen statudol i drafnidiaeth yn y rhanbarth.

3.2.17 RHAGLEN DATBLYGU GWLEDIG (2014-2020) (GWELER ATODIAD 1 – TABL 3.2.17)

a) Mae'r rhaglen hon yn cael ei ariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Llywodraeth Cymru.

b) Mabwysiadwyd Cymunedau Gwledig - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 26 Mai 2015.

3.2.18 CRYFHAU CYMUNEDAU YN YNYS MÔN A GWYNEDD (2014) (GWELER ATODIAD 1 – TABL 3.2.18)

a) Mae'r cynllun yn gwasanaethau Ynys Môn a Gwynedd ac yn ymgorffori gweledigaeth a chynllun gweithredu Bwrdd Gwasanaethau Lleol y ddwy sir.
b) Mae'n mynd i'r afael â materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn y rhanbarth dros y ddeuddeg mlynedd nesaf ac yn gosod y weledigaeth a'r gweithredoedd sydd â blaenoriaeth ar gyfer y pedair blynedd nesaf.
c) Mae'r cynllun wedi'i greu mewn partneriaeth, gan gymryd mewnbwn gan bartneriaid, defnyddwyr gwasanaeth, cymunedau a thrigolion ac mae'n disodli nifer o wahanol ddogfennau gan y ddau awdurdod lleol, yn benodol y Strategaeth Gymunedol, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Strategaeth Iechyd, Gofal a Lles a'r Cynllun Diogelwch Cymunedol.

3.2.19 CYNLLUN CYLLID TRAFNIDIAETH CENEDLAETHOL (2015) (GWELER ATODIAD 1 - TABL 3.2.19)

A) Mae'r ddogfen hon yn nodi cynlluniau buddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth.

**3.3 NEGESEUON ALLWEDDOL**

**3.3.1 AMAETHYDDIAETH**

**a) Mae'r diwydiant amaethyddiaeth yng ngogledd-orllewin Cymru yn wynebu heriau economaidd sylweddol a rhaid ymchwilio i'r potensial i arallgyfeirio i fusnesau fel twristiaeth yng nghefn gwlad.**

**3.3.2 CEFN GWLAD**

**a) Mae ardaloedd gwledig yn cael eu hymyleiddio a'u hynysu'n ddifrifol mewn rhai achosion.**
**b) Er mwyn cynyddu mynediad at wasanaethau a chyfleoedd gwaith, mae angen darparu gwell cysylltedd drwy nifer o fesurau megis gwell**

**cysylltiadau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, arallgyfeirio economaidd yng nghefn gwlad a thrafnidiaeth gyhoeddus.**

**3.3.3 DATBLYGU CYNALIADWY**

**a) Mae gofyniad cynyddol i gyrraedd y targedau lleihau carbon a osodir gan Lywodraeth Cymru, ac mae hynny wedi arwain at fwy o ffocws ar ddatblygu cynaliadwy ym mhob agwedd o'r gyfundrefn gynllunio yng Nghymru.**

**3.3.4 TRAFNIDIAETH**

**a) Mae gofyniad i newid patrymau trafnidiaeth yn radical, yn bennaf drwy leihau'r angen i deithio mewn ceir preifat, er mwyn lleihau allyriadau carbon.**

**3.3.5 CYMUNEDAU**

**a) Mae'r holl gymunedau yn Ynys Môn a Gwynedd yn wynebu heriau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sylweddol.**
**b) Mae economi'r ardal yn fregus, gyda chyfartaledd incwm cymharol isel.**
**c) Fodd bynnag, gyda datblygiadau newydd, megis Atomfa Wylfa Newydd, mae'r potensial sylweddol ar gyfer twf economaidd arwyddocaol, gyda buddion posib yn sgil hynny i gymunedau lleol yn nhermau cyflogaeth.**

## 4.0 THEMÂU ECONOMAIDD (GWELER ATODIAD 2)

### 4.1 TROSOLWG

**4.1.1 At ddibenion cynllunio, mae Llywodraeth Cymru'n diffinio datblygu economaidd fel datblygu tir ac adeiladau ar gyfer gweithgareddau sy'n cynhyrchu cyfoeth, swyddi ac incwm. Mae defnyddio tir i ddibenion economaidd yn cynnwys defnyddiau tir cyflogaeth traddodiadol (swyddfeydd, ymchwil a datblygu, diwydiant a warysau), yn ogystal â defnyddiau fel manwerthu, twristiaeth a gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r sectorau adeiladu ac ynni hefyd yn bwysig i'r economi ac yn sensitif i bolisïau cynllunio.**

**4.1.2 Yng Ngwynedd, mae rhanbarth Arfon yn cynnwys Bangor a Chaernarfon, sy'n ganolfannau manwerthu a gweinyddu allweddol. Mae rhanbarth Dwyfor yn adnabyddus am ei ddiwydiant twristiaeth, ac mae camau'n cael eu cymryd ym Meirionnydd i ddenu datblygu economaidd drwy ffurfio 'Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd'.**

**4.1.3 Mae twristiaeth yn ddiwydiant allweddol ar Ynys Môn. Mae datblygiadau pwysig hefyd yn gysylltiedig â'r sectorau ynni adnewyddadwy a charbon isel, sy'n cael eu hwyluso gan y Rhaglen Ynys Ynni ar Ynys Môn ac yng ngogledd-orllewin Cymru.**

**4.1.4 Yn yr is-adran isod ceir trosolwg byr o'r strategaethau a'r cynlluniau cenedlaethol a lleol sy'n berthnasol i ddatblygu economaidd yng Ngwynedd ac Ynys Môn.**

### 4.2 STRATEGAETHAU A CHYNLLUNIAU

#### 4.2.1 POLISI CYNLLUNIO CYMRU – PENNOD 7: CEFNOGI'R ECONOMI (2016) (GWELER ATODIAD 2 – TABL 4.2.1)

a) Dylai'r gyfundrefn gynllunio gefnogi twf economaidd a thwf o ran cyflogaeth ochr yn ochr ag ystyriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol, yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy.

b) I'r perwyl hwn, dylai'r gyfundrefn gynllunio, yn cynnwys polisïau cynllunio, geisio sicrhau nad yw prinder tir at ddefnydd economaidd yn cyfyngu ar dwf cyflogaeth a chynnyrch yng Nghymru drwyddi draw.

c) Ni wnaed unrhyw newidiadau i Bennod 7 yn Argraffiad 8.

#### 4.2.2 POLISI CYNLLUNIO CYMRU – PENNOD 10: CYNLLUNIO AR GYFER MANWERTHU A CHANOL TREFI (2016) (GWELER ATODIAD 2 – TABL 4.2.2)

a) Ni ddylai ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau manwerthu gael eu caniatáu fel arfer ar dir sydd wedi'i ddynodi ar gyfer defnyddiau eraill.

b) Mae'r cyngor hwn yn ymdrin yn arbennig â thir sydd wedi'i ddynodi ar gyfer diwydiant, cyflogaeth a thai, lle gellir dangos y byddai datblygiad manwerthu yn cael yr effaith o gyfyngu ar ystod ac ansawdd y safleoedd a fyddai ar gael ar gyfer defnyddiau o'r fath.

c) Ni wnaed unrhyw newidiadau i Bennod 10 yn Argraffiad 8.

4.2.3 POLISI CYNLLUNIO CYMRU – PENNOD 11: TWRISTIAETH, CHWARAEON A HAMDDEN (2016) (GWELER ATODIAD 2 – TABL 4.2.3)

a) Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol ddarparu fframwaith ar gyfer cyfleusterau twristiaeth, chwaraeon a hamdden, gan nodi dull strategol o ymdrin â datblygiadau o'r fath mewn ardal.
b) Ni wnaed unrhyw newidiadau i Bennod 11 yn Argraffiad 8.

4.2.4 NODYN CYNGOR TECHNEGOL 3: PARTHAU CYNLLUNIO SYML (1996) (GWELER ATODIAD 2 – TABL 4.2.4)

a) Mae gan awdurdodau cynllunio lleol ddyletswydd statudol i adolygu'n gyson a yw cynlluniau 'Parthau Cynllunio Syml' yn ddymunol yn eu hardal.
b) Mae Parth Cynllunio Syml yn un ffordd y gall awdurdod helpu i sicrhau datblygu neu ailddatblygu ar ran o'i ardal.
.
4.2.5 NODYN CYNGOR TECHNEGOL 4: MANWERTHU A CHANOL TREFI (1996) (GWELER ATODIAD 2 – TABL 4.2.5)

a) Bydd gwybodaeth am y diwydiant manwerthu yn ardal awdurdod cynllunio lleol ynghyd â gwybodaeth am y ffordd y mae'r canol trefi yn ei ardal yn gweithio yn help wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol ac ystyried ceisiadau cynllunio.
b) Gall gwybodaeth llinell sylfaen a data cyfres themâu ddarparu darlun o newid, a chynnig arweiniad o ran tueddiadau i'r dyfodol.
c) Mae sicrhau cydweithrediad busnesau lleol a'u cymdeithasau i gasglu gwybodaeth a rhannu'u barn yn rhan bwysig o'r broses hon.

4.2.6 NODYN CYNGOR TECHNEGOL 13: TWRISTIAETH (1997) (GWELER ATODIAD 2 – TABL 4.2.6)

a) Mae'n darparu arweiniad ar dwristiaeth a'i chyfraniad i economi Cymru a'r cyfleoedd ar gyfer datblygiadau ar raddfa fawr a chyfleusterau priodol.
b) Mae gan 'Fwrdd Croeso Cymru' gyfrifoldeb i hyrwyddo a datblygu twristiaeth yng Nghymru.
c) Mae twristiaeth yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau a gweithrediadau gwahanol, ond cyd-ddibynnol, sy'n gorgyffwrdd â chwaraeon, adloniant, y celfyddydau a gweithgareddau hamdden eraill.

4.2.7 ADNEWYDDU'R ECONOMI: CYFEIRIAD NEWYDD (2010) (GWELER ATODIAD 2 – TABL 4.2.7)

a) Mae'r ddogfen yn nodi dull cynhwysfawr o ymdrin ag adnewyddu'r economi yng Nghymru, a hwnnw'n pennu cyfeiriad newydd sy'n adeiladu ar gryfderau'r wlad, yn cydnabod yr heriau a'r cyfleoedd sy'n bodoli, ac yn nodi'n glir y rôl y dylai Llywodraeth Cymru ymgymryd â hi.

4.2.8 STRATEGAETH ADNEWYDDU GWYNEDD (2007) (GWELER ATODIAD 2 – TABL 4.2.8)

a) Caiff trefniadau monitro a gwerthuso cadarn eu sefydlu ar gyfer y Fframwaith Adnewyddu cyfan (y Strategaeth a'r Cynlluniau Ardal) er mwyn nodi'r effaith a gaiff gwaith adnewyddu yng Ngwynedd mewn gwirionedd a'r hyn y mae'n ei gyflawni.

b) Bydd y trefniadau hefyd yn fodd i nodi arferion da, ac i nodi gweithgareddau a mesuriadau llai llwyddiannus fel bod y partneriaid yn gallu dysgu o gamgymeriadau, a darparu gwasanaeth mwy effeithiol yn y dyfodol.

4.2.9 STRATEGAETH ADFYWIO ECONOMAIDD YNYS MÔN (2004) (GWELER ATODIAD 2 – TABL 4.2.9)

a) Mae Partneriaeth Adfywio Ynys Môn wedi ymrwymo i nodi a gweithredu mesurau i oresyn nifer o heriau economaidd tymor hir sy'n wynebu'r ynys.
b) Bydd angen i Gyngor Sir Ynys Môn, Prifysgol Cymru Bangor a Chanolfan Byd Gwaith i gyd wneud ymrwymiad tymor hir i weithio tuag at wireddu'r Strategaeth.
c) Hefyd, mae nifer o sefydliadau sector preifat a chymunedol ar yr ynys ac mae'r Bartneriaeth yn awyddus i weithio gyda'r sefydliadau hyn i sicrhau gweithredu o'r gwaelod i fyny i ganfod a datblygu atebion i anghenion amrywiol.

4.2.10 PARTH MENTER YR YNYS YNNI (2012) (GWELER ATODIAD 2 – TABL 4.2.10)

a) Mae Llywodraeth Cymru'n dynodi ardaloedd yn Barthau Menter, a chaiff cymhellion penodol eu cynnig i ddenu busnesau a diwydiant newydd i'r lleoliadau hynny.
b) Pwrpas Parthau Menter yw gwneud economi Cymru yn fwy cystadleuol a dangos bod Llywodraeth Cymru'n dal i ymrwymo i greu swyddi a thwf cynaliadwy.
c) Dylai dynodiad fel Parth Menter olygu ein bod yn gwneud yn fawr o'r cyfleoedd a'r buddsoddiad drwy sicrhau datblygiadau ynni ar raddfa fwy, hyrwyddo prosiectau Ymchwil a Datblygu, a chreu gwaddol gynaliadwy, dymor hir.
d) Mae angen cyflawni hyn drwy gydweithio, defnyddio'r adnoddau sydd ar gael a manteisio ar asedau a buddsoddiadau sy'n bodoli'n barod.
e) Mae Rhaglen Ynys Ynni Môn, rhan o Fframwaith yr Ynys Fenter, yn sbardun allweddol i sefydlu cyfleoedd cyffrous i'r sector ynni.
f) Safle hen Orsaf Bŵer Trawsfynydd yw canolbwynt Parth Menter Eryri ac mae'n ffocws i dechnolegau gwyrdd y dyfodol a mentrau yn gysylltiedig ag ynni yn ogystal â bod yn ganolfan i ehangu'r economi hamdden ac ymwelwyr.

4.2.11 CYNLLUN CYFLOGAETH MEIRIONNYDD (2010) (GWELER ATODIAD 2 – TABL 4.2.11)

a) Bydd ardal Meirionnydd o Wynedd yn wynebu heriau sylweddol, yn economaidd a chymdeithasol, hyd y gellir rhagweld i'r dyfodol oherwydd ei lleoliad ymylol.
b) Bydd gan y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ran hollbwysig i'w chwarae yn sicrhau bod cyfleoedd gwaith priodol yn dod ar gael i bobl leol, yn ogystal â sicrhau bod cyflenwad digonol o dai a bod cyfleusterau hamdden yn cael eu darparu.

4.2.12 STRATEGAETH DWRISTIAETH GOGLEDD CYMRU (2010-2015) (GWELER ATODIAD 2 – TABL 4.2.12)

a) Mae'r strategaeth yn amlygu'r heriau a'r cyfleoedd y mae'r rhanbarth yn eu hwynebu o ran datblygu'r economi dwristiaeth.

b) Hefyd, mae'n amlygu mor bwysig yw hi fod cynlluniau datblygu yn gefnogol o gynigion twristiaeth a fydd yn cyfoethogi nid dim ond economi'r rhanbarth, ond hefyd yr amgylchedd.

4.2.13 <u>CYNLLUN RHEOLI CYRCHFAN YNYS MÔN (2012-2016) (GWELER ATODIAD 2 – TABL 4.2.13)</u>

a) Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan hwn yn nodi'r paramedrau i ddatblygiadau twristiaeth ar Ynys Môn am y pedair blynedd nesaf (2012-2016).
b) Nid yw'r cynllun yn nod ynddo'i hun, mae'n fwy o bwynt cyfeirio hyblyg y bydd angen ei adolygu a'i ddiweddaru gydol cyfnod y Cynllun a'r tu hwnt.
c) ran adfywio canol trefi, mae dogfen Strategaeth Caergybi Ymlaen yn darparu gweledigaeth gyffredinol ac yn gosod y themâu a'r blaenoriaethau adfywio.
d) Hefyd, mae Rhaglen Tair Tref Ynys Môn yn elfen sy'n targedu trefi Caergybi, Llangefni ac Amlwch. Ei nod yw gwella rhai adeiladau gwael, nad oes llawer o ddefnydd yn cael ei wneud ohonynt, yn ogystal â gwella gwedd y strydoedd mewn ymgais i ddenu rhagor o bobl i siopa yno a chynyddu'r niferoedd sy'n dod i ganol y trefi hyn.
e) Nodir hefyd fod Cyngor Gwynedd yntau yn y broses o baratoi Cynllun Rheoli Cyrchfan i ymdrin â chyfnod 2013-2017.

4.2.14 <u>NODYN CYNGOR TECHNEGOL 23: DATBLYGIAD ECONOMAIDD (2014) (GWELER TABL 4.2.14)</u>

a) Mae'r TAN yn ymdrin yn bennaf â dosbarthiadau defnydd tir traddodiadol B1-B8, gan y bydd y rhain yn ffurfio sail polisïau cyflogaeth a dynodiadau safle y cynllun datblygu.
b) Dylai awdurdodau cynllunio lleol lywio datblygiad economaidd i'r lleoliadau mwyaf priodol.
c) Dylai datblygiadau gael eu cyfeirio i'r lleoliadau mwyaf effeithlon a chynaliadwy.
d) Dylid gofyn tri chwestiwn allweddol os yw awdurdod cynllunio lleol yn ystyried datblygiad a allai ddifrodi'r amgylchedd neu gydlyniad cymdeithasol:

- Dewisiadau Gwahanol: os nad yw'r tir ar gael (nid yw'r safle wedi'i ddynodi, neu os yw'r cais wedi'i wrthod), a yw'n debygol y gellid bodloni'r galw ar safle ble byddai datblygiad yn achosi llai o niwed, ac os felly, ymhle?
- Swyddi a ddarperir ar eu cyfer: sawl swydd uniongyrchol fydd wedi'i lleoli ar y safle?
- Haeddiant arbennig: a fyddai'r datblygiad yn cyfrannu mewn modd arbennig i amcanion polisi?

e) Rhaid i weledigaeth economaidd Cynllun Datblygu Lleol fod yn gyson ag agweddau eraill, megis tai a thrafnidiaeth. Mae gweledigaeth economaidd yn rhan o weledigaeth y Cynllun, nid ar wahân.

4.2.15 <u>LLEOEDD LLEWYRCHUS LLAWN ADDEWID - FFRAMWAITH ADFYWIO NEWYDD (2013) (GWELER TABL 4.2.17)</u>

a) Mae Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid_yn ganlyniad i adolygiad o ddulliau adfywio yng Nghymru a thu hwnt ac ymgynghori helaeth â phartneriaid.

4.2.16 PARTNERIAETH AR GYFER TWF: STRATEGAETH TWRISTIAETH 2013-2020 (2013) (GWELER TABL 4.2.18)

a) Mae'r strategaeth hon yn gosod y weledigaeth i Lywodraeth Cymru a'r diwydiant ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i gynyddu gwariant ymwelwyr yng Nghymru

4.2.17 STRATEGAETH TWRISTIAETH ARFORDIROL (2008) (GWELER TABL 4.2.20)

a) Mae'r ddogfen hon yn nodi strategaeth gyffredin ar gyfer datblygu potensial twristiaeth yr arfordir mewn modd cynaliadwy tra'n ymateb i anghenion marchnadoedd twf.

**4.3 NEGESEUON ALLWEDDOL**

**4.3.1 CYFLOGAETH**

**a) Mae yna gynlluniau yn Ynys Môn a Gwynedd i adfywio economi'r naill ardal a'r llall a chynyddu'r cyfleoedd cyflogaeth, yn fwyaf arbennig drwy gynlluniau Parth Menter Llywodraeth Cymru.**
**b) Bwriadwyd y rhaglen Ynys Ynni i ysgogi twf economaidd ar Ynys Môn ac ar yr un pryd i alluogi pobl leol i gael hyfforddiant a chystadlu am swyddi sy'n gofyn am lefel uchel o sgiliau, a fydd yn cynnig cyflogau cymesur â'u gofynion.**
**c) Yng Ngwynedd, bydd Parth Menter Eryri yn Nhrawsfynydd hefyd yn help i ysgogi twf mewn diwydiannau gwyrdd ac yn dod a chyfleoedd cyflogaeth pellach.**
**d) Mae Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd hefyd yn dyngedfennol i fynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau rhag creu swyddi, pethau fel lleoliad ymylol y rhanbarth.**
**e) Yn Ynys Môn a Gwynedd mae angen clir i newid proffil y gweithlu o weithwyr llaw ar gyflogau isel i bobl gymwysedig, a lefel uchel o sgiliau, sydd â'r gallu i gystadlu am swyddi sy'n talu cyflogau uwch.**

**4.3.2 ECONOMI WERDD**

**a) Mae'r sector ynni adnewyddadwy yn ddiwydiant twf y mae modd ei ddefnyddio fel catalydd i adfywiad economaidd yng ngogledd-orllewin Cymru.**
**b) Mae potensial i'r Parth Menter Ynys Ynni ar Ynys Môn a Pharth Menter Eryri yng Ngwynedd gael sgil effeithiau cadarnhaol ar yr economi ranbarthol drwy gyfleoedd buddsoddi a cyflogaeth.**

**4.3.3 ADFYWIO**

**a) Bydd angen swyddi sy'n talu cyflogau uwch ar weithlu â lefel uwch o sgiliau ac er mwyn ateb y galw hwn, rhaid adfywio meysydd cyflogaeth allweddol er mwyn denu busnesau newydd a chyfleoedd cyflogaeth.**
**b) Mae'r naill gyngor a'r llall wedi sefydlu strategaethau adfywio sy'n darparu fframweithiau i wella'r canolfannau cyflogaeth allweddol.**

**4.3.4 TWRISTIAETH**

**a) Mae gan y gyfundrefn gynllunio rôl bwysig i'w chwarae yn hwyluso datblygu safleoedd yn y mannau mwyaf priodol i ddefnyddiau twristiaeth, megis gwestyau a pharciau gwyliau o safon uchel.**

**b) Dylid ymchwilio i gyfleoedd i greu gwelliannau amgylcheddol mewn datblygiadau twristiaeth.**

## 5.0 THEMÂU AMGYLCHEDDOL (GWELER ATODIAD 3)

### 5.1 TROSOLWG

**5.1.1 Mae'r term 'amgylcheddol' yn un generig ac mae'n cwmpasu amrywiaeth eang o faterion, yn amrywio o dreftadaeth naturiol i newid hinsawdd.**

**5.1.2 Yn yr is-adran isod ceir trosolwg byr o'r strategaethau a'r cynlluniau cenedlaethol a lleol sy'n berthnasol i faterion amgylcheddol yng Ngwynedd ac Ynys Môn.**

### 5.2 STRATEGAETHAU A CHYNLLUNIAU

5.2.1 POLISI CYNLLUNIO CYMRU - PENNOD 5: GWARCHOD A GWELLA'R DREFTADAETH NATURIOL A'R ARFORDIR (2016) (GWELER ATODIAD 3 – TABL 5.2.1)

a) Rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol sefydlu fframwaith polisi lleoliadol i warchod a chyfoethogi'r dreftadaeth naturiol.
b) Dylid datblygu polisïau penodol ar gyfer ardaloedd arfordirol.
c) Diwygiwyd yn Argraffiad 8 i gynnwys cyfeiriad at waith datblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru.

5.2.2 POLISI CYNLLUNIO CYMRU - PENNOD 6: GWARCHOD YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (2016) (GWELER ATODIAD 3 – TABL 5.2.2)

a) Er nad oes angen ailadrodd polisïau cenedlaethol i warchod yr amgylchedd hanesyddol mewn Cynlluniau Datblygu Lleol, mae lle i gynnwys polisïau yn ymwneud ag ardaloedd sy'n arbennig yn lleol.
b) Ni wnaed unrhyw newidiadau i Bennod 6 yn Argraffiad 8.

5.2.3 STRATEGAETH AMGYLCHEDD HANESYDDOL CYMRU (2013) (GWELER ATODIAD 3 – TABL 5.2.3)

a) Mae dangosyddion perthnasol o'r Rhaglen Lywodraethu wedi'u sefydlu ar gyfer y rhan fwyaf o weithgareddau allweddol Cadw ac mae cerrig milltir i'r Bil Treftadaeth.
b) Bydd i bob fframwaith a menter sy'n deillio o'r strategaeth hon ei gynllun gweithredu ei hun, gyda mesurau llwyddiant a cherrig milltir ychwanegol.

5.2.4 POLISI CYNLLUNIO CYMRU - PENNOD 13: CYFYNGU AR RISGIAU AMGYLCHEDDOL A LLYGREDD A'U RHEOLI (2016) (GWELER ATODIAD 3 – TABL 5.2.4)

a) Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol sefydlu polisïau cynllunio defnydd tir sy'n helpu i gyfyngu ar risgiau amgylcheddol a llygredd a'u rheoli.
b) Yn rhan o hynny dylid llunio polisïau yn ymwneud â pherygl llifogydd a newid hinsawdd, tir ansad a thir halogedig, ansawdd aer a dŵr, a llygredd sŵn a golau.
c) Ni wnaed unrhyw newidiadau i Bennod 13 yn Argraffiad 8.

5.2.5 POLISI CYNLLUNIO CYMRU - PENNOD 14: MWYNAU (2016) (ATODIAD 3 - TABL 5.2.5)

a) Pennod newydd sy'n ymdrin â pholisïau cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu mwynau.
b) Yn unol â'r penodau pwnc eraill, mae Pennod 14 yn cynnwys amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu mwynau, sut y dylai datblygiad o'r fath gael ei drin mewn cynlluniau datblygu ac i ddibenion rheoli datblygu.
c) Pynciau eraill a gynhwysir yw:

i. Egwyddorion allweddol ar gyfer datblygu mwynau;
ii. Diogelu adnoddau mwynau i ddiwallu anghenion cymdeithas;
iii. Delio ag effeithiau echdynnu mwynau;
iv. Adfer ac ôl-ofal pan fo gwaith mwynau wedi dod i ben;
v. Annog defnydd effeithlon o fwynau.

5.2.6 NODYN CYNGOR TECHNEGOL 5: CADWRAETH NATUR A CHYNLLUNIO (2009) (GWELER ATODIAD 3 – TABL 5.2.6)

a) Dylai cadwraeth natur gael ei integreiddio i bob penderfyniad cynllunio er mwyn cyflawni amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
b) Mae’n hanfodol fod yr amrywiaeth o rywogaethau gwarchodedig ar draws Cymru, a’r boblogaeth ohonynt, yn cael ei chynnal.

5.2.7 NODYN CYNGOR TECHNEGOL 10: GORCHMYNION CADW COED (1997) (GWELER ATODIAD 3 – TABL 5.2.7)

a) Mae’n darparu arweiniad ynglŷn â gwarchod coed a choetiroedd drwy ddefnyddio ‘Gorchmynion Cadw Coed’, eu cwmpas a’r defnydd o amodau.
b) Prif effaith Gorchymyn Cadw Coed yw gwahardd cwympo, dadwreiddio, topio, tocio, difrodi’n fwriadol neu ddinistrio’n fwriadol goeden neu goed heb ganiatâd yr awdurdod cynllunio lleol.

5.2.8 NODYN CYNGOR TECHNEGOL 14: CYNLLUNIO’R ARFORDIR (1998) (GWELER ATODIAD 3 – TABL 5.2.8)

a) Mae’n darparu arweiniad ar faterion cynllunio yn y parth arfordirol ac asesiadau o gyflwr ffisegol a biolegol yr arfordir.
b) Ardal o dir a môr cyffiniol, sy’n gyd-ddibynnol ar ei gilydd, yw’r parth arfordirol.

5.2.9 NODYN CYNGOR TECHNEGOL 15: DATBLYGU A PHERYGL O LIFOGYDD (2004) (GWELER ATODIAD 3 – TABL 5.2.9)

a) Mae’r Nodyn Cyngor Technegol yn argymell bod yn ofalus o ran datblygu mewn ardaloedd sydd â risg uchel o lifogydd drwy osod fframwaith o ragofalon a fydd yn cynnig arweiniad wrth wneud penderfyniadau. Nod trosfwaol y fframwaith rhagofalon yw:-
   - Cyfeirio datblygu oddi wrth ardaloedd sydd â risg uchel o lifogydd;
   - Dim ond datblygiadau y mae modd eu cyfiawnhau ddylai gael eu lleoli mewn ardaloedd sydd â risg uchel o lifogydd.

5.2.10 NODYN CYNGOR TECHNEGOL 21: GWASTRAFF (2014) (GWELER ATODIAD 3 - TABL 5.2.10)

a) Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn rhoi cyngor ar rôl cynllunio defnydd tir o ran rheoli a rheoli gwastraff.

b) Mae'r ddogfen hon yn egluro'r rhyngweithio rhwng:

- Y strategaeth wastraff genedlaethol, yn enwedig Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (CIM);
- Polisi cynllunio cenedlaethol.

c) Darperir cyngor ar y canlynol:

- Fframweithiau cynllunio yng Nghymru;
- Egwyddorion cynllunio;
- Cynllunio strategol ar gyfer gwastraff;
- Rheoli datblygu;
- Asesiadau cynllunio gwastraff;
- Ystyriaethau cynllunio manwl.

5.2.11 STRATEGAETH AR Y NEWID YN YR HINSAWDD AR GYFER CYMRU (2010) (GWELER ATODIAD 3 - TABL 5.2.15)

a) Mae'r strategaeth yn ymdrin â thystiolaeth gyfredol ar newid yn yr hinsawdd a'r effeithiau y gallem eu gweld yng Nghymru, yr angen i leihau allyriadau carbon a rôl Llywodraeth Cymru o ran ymdrin â newid yn yr hinsawdd.

5.2.12 TUAG AT DDYFODOL DIWASTRAFF (2010) (GWELER ATODIAD 3 - TABL 5.2.16)

a) Mae'r ddogfen hon yn nodi ar lefel uchel sut rydym yn rheoli gwastraff yng Nghymru i gynhyrchu buddion nid yn unig i'r amgylchedd, ond hefyd i'n heconomi a lles cymdeithasol.

5.2.13 CYNLLUN MOROL CENEDLAETHOL CYMRU - DRAFFT CYCHWYNNOL (2015)

- Diben y cynllun yw arwain datblygiad cynaliadwy'r ardal forol drwy reoli adnoddau naturiol morol yn gynaliadwy.
- Mae'n ymdrin â dyfroedd glannau (hyd at 12 milltir forol) a dyfroedd môr mawr (y tu hwnt i 12 milltir forol) Cymru mewn un ddogfen.
- O ran y tir, mae'r cynllun hwn yn cwmpasu hyd at benllanw.

## 5.3 NEGESEUON ALLWEDDOL

### 5.3.1 Y DREFTADAETH NATURIOL

**a) Mae ystyriaethau bioamrywiaeth o'r pwys pennaf mewn cynigion datblygu a lle mae cyfleoedd yn bodoli i gyfoethogi neu gadw cynefinoedd, dylid gwneud pob ymdrech i'w rhoi ar waith.**

**b) Lle mae'n bosibl dylid ymdrechu i ymgorffori coed presennol mewn cynigion datblygu newydd.**

### 5.3.2 YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL

**a) Dylai'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ganolbwyntio ar nodweddion lleol arbennig amgylchedd hanesyddol y rhanbarth.**

**b) Bydd y Bil Treftadaeth arfaethedig, os daw'n ddeddfwriaeth, yn gwneud newidiadau arwyddocaol i agweddau gwarchod treftadaeth y gyfundrefn gynllunio yng Nghymru.**

**5.3.3 <u>RISG AMGYLCHEDDOL</u>**

**a) Mae'r agenda newid hinsawdd wedi codi ymwybyddiaeth o lifogydd, yn enwedig mewn ardaloedd arfordirol.**
**b) Mae'r ffaith fod perygl o lifogydd yn golygu na ellir caniatáu rhai mathau o ddatblygu ac mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd rôl bwysig i sefydlu pa ddyraniadau safle posibl sy'n addas i ddatblygiadau penodol.**

**5.3.4 <u>GWASTRAFF</u>**

**a) Mae rheoli gwastraff yn elfen allweddol yn ymgyrch Llywodraeth Cymru i sicrhau datblygu cynaliadwy.**
**b) Mae gan y gyfundrefn gynllunio rôl ganolog er sicrhau bod datblygiadau newydd yn gynaliadwy a'u bod yn cynhyrchu cyn lleied â phosibl o wastraff**

## 6.0 THEMÂU CYMDEITHASOL (GWELER ATODIAD 4)

### 6.1 TROSOLWG

**6.1.1 Mae'r thema hon yn cwmpasu ystod eang ac amrywiol o faterion megis tai'r farchnad agored a thai cymdeithasol, y Gymraeg, iechyd a chymunedau ymysg eraill.**

**6.1.2 Yn yr is-adran isod ceir trosolwg byr o'r strategaethau a'r cynlluniau cenedlaethol a lleol sy'n berthnasol i faterion cymdeithasol yng Ngwynedd ac Ynys Môn.**

### 6.2 STRATEGAETHAU A CHYNLLUNIAU

#### 6.2.1 POLISI CYNLLUNIO CYMRU - PENNOD 9: TAI (2016) (GWELER ATODIAD 4 – TABL 6.2.1)

a) Yn achos y naill awdurdod lleol a'r llall, dylai ystod o dystiolaeth, yn cynnwys amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru o aelwydydd a chanlyniadau'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, lywio'r gwaith o fesur y gofynion o ran tai (yn dai fforddiadwy a thai ar y farchnad agored).

b) Dylai polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol adlewyrchu canfyddiadau tystiolaeth o'r fath.

c) Diwygiwyd yn Argraffiad 8 i bwysleisio yn fwy penodol pan fo awdurdodau cynllunio lleol yn asesu eu gofynion tai a chynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer tai newydd, y dylid ystyried tystiolaeth leol a materion allweddol eraill megis yr hyn y mae'r cynllun yn ceisio'i gyflawni, ochr yn ochr ag Amcanestyniadau Aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru. Hefyd ceir canllawiau pellach ar asesu elfennau amrywiol yr Amcanestyniadau, ac ystyried p'un a ydynt yn briodol ar gyfer eu hardal.

#### 6.2.2 NODYN CYNGOR TECHNEGOL 1: CYD-ASTUDIAETHAU ARGAELEDD TIR AR GYFER TAI (2015) (GWELER ATODIAD 4 – TABL 6.2.2)

a) Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn darparu canllawiau ar baratoi Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai.

b) Diben yr astudiaethau hyn yw darparu datganiad cytunedig o argaeledd tir preswyl ar gyfer cynllunio datblygiadau a rheoli datblygiadau.

c) Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol sicrhau bod digon o dir ar gael mewn gwirionedd i ddarparu cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai.

d) Rhaid i'r cyflenwad tir hwn hysbysu'r strategaeth a nodir yn y cynllun datblygu, a'i monitro dilynol drwy Adroddiadau Monitro Blynyddol

#### 6.2.3 NODYN CYNGOR TECHNEGOL 2: CYNLLUNIO A THAI FFORDDIADWY (2006) (GWELER ATODIAD 4 – TABL 6.2.3)

a) Bydd angen i Gynlluniau Datblygu Lleol ymdrin â'r cyflenwad o dir ar gyfer tai marchnad agored a thai fforddiadwy.

b) Mae cynllunio defnydd tir yn un o'r mecanweithiau y mae modd ei ddefnyddio i ddarparu tai fforddiadwy.

c) Mae'r canllawiau'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol:

i. cynnwys targed tai fforddiadwy yn y Cynllun Datblygu Lleol sydd wedi'i seilio ar yr angen am dai a nodwyd yn yr asesiad o'r farchnad dai leol;

ii. dangos sut y cyrhaeddir y targed drwy ddefnyddio dulliau polisi sydd wedi'u nodi;
iii. monitro'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn erbyn y targed a, lle mae rhaid, gweithredu i sicrhau bod y targed yn cael ei gyrraedd.

6.2.4 <u>NODYN CYNGOR TECHNEGOL 20 DRAFFT: CYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG (2013) (GWELER ATODIAD 4 – TABL 6.2.4)</u>

a) Mae'r gyfradd o siaradwyr Cymraeg yn amrywio'n fawr rhwng ardaloedd.
b) Mewn rhai cymunedau mae'r defnydd o'r Gymraeg ar gynnydd, ond mewn eraill mae'n dirywio.
c) Mae'n hanfodol fod y gyfundrefn cynllunio defnydd tir yn ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg.

6.2.5 <u>CARTREFI GWELL I BOBL CYMRU – STRATEGAETH DAI GENEDLAETHOL CYMRU (2001) (GWELER ATODIAD 4 – TABL 6.2.5)</u>

a) Mae'r ddogfen hon yn nodi'r heriau o ran diwallu anghenion tai Cymru, y blaenoriaethau, a'r camau a gaiff eu cymryd.

6.2.6 <u>DRINGO'N UWCH – STRATEGAETH AR GYFER CHWARAEON A GWEITHGARWCH CORFFOROL (2005) (GWELER ATODIAD 4 – TABL 6.2.6)</u>

a) Bydd Llywodraeth Cymru'n sefydlu grŵp gwerthuso a monitro i ddatblygu'r fframwaith gwerthuso a fydd yn darparu'r sylfaen tystiolaeth fel bod modd hybu cynnydd tuag at y weledigaeth tymor hir.
b) Bydd y grŵp hwn yn nodi meincnodau priodol, yn adolygu'r ymarfer gorau ac yn cyd-drefnu'r adroddiad gwerthuso canol tymor, gan sicrhau bod partneriaid strategol Llywodraeth Cymru'n cael eu cynnwys.

6.2.7 <u>POLISI CHWARAE LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2002) (GWELER ATODIAD 4 – TABL 6.2.7)</u>

a) Mae chwarae yn rhan hanfodol o ddatblygiad plentyn ac mae hyn yn rhoi cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymateb yn gadarnhaol drwy ehangu'r ystod o amgylcheddau a chyfleoedd i blant chwarae.
b) Mae'r rhwymedigaeth hon yn rhoi cyfrifoldeb ar y gyfundrefn gynllunio i helpu i ddarparu safleoedd addas ar gyfer y gofynion hyn.

6.2.8 <u>TEITHIO AT DDYFODOL GWELL – FFRAMWAITH GWEITHREDU A CHYNLLUN CYFLAWNI YN YMWNEUD Â SIPSIWN A THEITHWYR (2012) (GWELER ATODIAD 4 – TABL 6.2.8)</u>

a) Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod angen newidiadau sylweddol yn y dull o ymdrin â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr, y camau gweithredu a roddir ar waith ac agweddau tuag at y gymuned.
b) Mae i'r diwylliant Sipsiwn a Theithwyr nodweddion unigryw nad ydynt yn aml yn cael eu deall yn iawn gan lywodraeth leol, ymarferwyr neu'r gymuned sefydlog, a gall hyn arwain at lefel uchel o allgáu o gymdeithas, yn enwedig wrth geisio manteisio ar wasanaethau.

6.2.9 ADRODDIAD GWEINIDOGION CYMRU: CYDRADDOLDEB I BOBL ANABL (2009) (GWELER ATODIAD 4 – TABL 6.2.9)

a) Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o bolisïau a chynlluniau sy'n ceisio dileu gwahaniaethu sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.
b) Y mater allweddol i'r dyfodol fydd gwerthuso'r cynlluniau gweithredu, y polisïau a'r cynlluniau ac asesu'u heffeithiolrwydd.

6.2.10 YR AMCANION CYDRADDOLDEB A'R CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL (2012) (GWELER ATODIAD 4 – TABL 6.2.10)

a) Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'i seilio ar wyth Amcan Cydraddoldeb a ddatblygwyd ar ôl ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd.
b) Mae'r dystiolaeth a'r data sydd ar gael ar hyn o bryd hefyd yn sail i'r amcanion.

6.2.11 Y STRATEGAETH AR GYFER POBL HŶN YNG NGHYMRU (2013-2023) (GWELER ATODIAD 4 – TABL 6.2.11)

a) Mae trydydd cam y strategaeth yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan bobl hŷn yng Nghymru yr adnoddau sydd eu hangen i ddelio â'r heriau a'r cyfleoedd y maent yn eu hwynebu.

6.2.12 IAITH FYW: IAITH BYW – STRATEGAETH AR GYFER Y GYMRAEG (2012–2017) (GWELER ATODIAD 4 – TABL 6.2.12)

a) Strategaeth yw hon sy'n cwmpasu pum mlynedd, o 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2017.
b) Bydd Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi cynllun gweithredu blynyddol yn unol ag Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a fydd yn egluro sut y byddant yn gweithredu'r cynigion a amlinellir yn y strategaeth hon yn ystod pob blwyddyn ariannol.

6.2.13 STRATEGAETH ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG (2010) (GWELER ATODIAD 4 – TABL 6.2.13)

a) Mae'r ddogfen yn nodi Strategaeth a Rhaglen Weithredu Llywodraeth Cymru i addysg cyfrwng Cymraeg.
b) Mae'r weledigaeth o barhau â'r twf mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ym mhob sector ac ystod oedran yn agenda tymor hir.

6.2.14 GWEITHIO GYDA'N GILYDD DROS GYMRU: FFRAMWAITH STRATEGOL I'R GWEITHLU GWASANAETHAU CYHOEDDUS YNG NGHYMRU (2012) (GWELER ATODIAD 4 – TABL 6.2.14)

a) Mae'r fframwaith hwn yn ymdrin â'r angen am newid diwylliannol, o ran arweinyddiaeth a chysylltiadau â gweithwyr.
b) Mae llawer o'r amcanion allweddol yn rhai tymor hir, ond o safbwynt canlyniadau byddant yn cael eu mesur ar gamau interim.

6.2.15 <u>CYNLLUN IECHYD GWLEDIG (2009) (GWELER ATODIAD 4 – TABL 6.2.15)</u>

a) Ni ellir ystyried iechyd gwledig ar wahân i faterion cymdeithasol, economaidd, trafnidiaeth, tai a gofal cymdeithasol, sy'n atgyfnerthu'r angen i brawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad, a chynllunio a chyflenwi gwasanaethau mewn modd integredig.

b) Nid yw'r ddogfen hon yn strategaeth iechyd amgen – yn hytrach mae'n dempled er mwyn trosi strategaethau Cymru gyfan yn fecanweithiau ystyrlon o ran cyflenwi gwasanaethau, a'r rheini wedi'u teilwrio'n fwy penodol ar gyfer anghenion cymunedau gwledig.

6.2.16 <u>CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER TRECHU TLODI (2012-2016) (GWELER ATODIAD 4 – TABL 6.2.16)</u>

a) Mae'r cynllun yn nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud eisoes i fynd i'r afael â thlodi a beth y bydd yn ei wneud yn y dyfodol i sicrhau bod modd darparu cyfiawnder cymdeithasol i'r bobl fwyaf bregus a'r rhai sydd dan fwyaf o anfantais.

6.2.17 <u>DEDDF LLES CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015 - YR HANFODION (2015) (GWELER ATODIAD 4 - TABL 6.2.17)</u>

a) Golwg gyffredinol ar y Ddeddf newydd a'r hyn a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol.

## 6.3 <u>NEGESEUON ALLWEDDOL</u>

### 6.3.1 <u>PLANT A PHOBL IFANC</u>

**a) Mae cyfleoedd chwarae a'r rhyngweithio cymdeithasol sy'n gysylltiedig â hynny yn rhan hanfodol o ddatblygiad plentyn, ond cyfyngir ar y cyfleoedd hyn mewn cymdeithas fodern.**

**b). Felly, mae cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i gynnig darpariaeth chwarae saff, o fewn cyrraedd hwylus mewn aneddiadau, i 'wneud iawn' am hynny.**

### 6.3.2 <u>Y GYMUNED</u>

**a) Dylai Strategaethau Cymunedol gael eu hystyried fel y strategaeth gyffredinol, drosfwaol i ardal awdurdod lleol, a'i bod yn cael ei hadlewyrchu ym mhob strategaeth a chynllun sy'n dod oddi tani.**

**b) Rhaid hefyd i Strategaethau Cymunedol ddylanwadu ar y broses o lunio Cynlluniau Datblygu Lleol.**

### 6.3.3 <u>ANABLEDD</u>

**a) Mae'n hanfodol cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd mewn datblygiadau newydd.**

**b) Rhaid gwneud pob ymdrech mewn Cynlluniau Datblygu Lleol i sicrhau nad yw pobl anabl yn wynebu rhwystrau rhag cyfleoedd cyflogaeth a rhyngweithio cymdeithasol llawn.**

### 6.3.4 <u>ADDYSG</u>

a) **Rhaid i'r cyfleoedd ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg gael eu cefnogi gan y gyfundrefn gynllunio lle mae hynny'n bosibl.**

**6.3.5 <u>YR HENOED</u>**

a) **Dylai'r gyfundrefn gynllunio sicrhau bod cartrefi a chyfleusterau newydd yn cael eu lleoli gyda mynediad hawdd i aneddiadau lleol.**

**6.3.6 <u>CYDRADDOLDEB</u>**

a) **Dylid defnyddio Cynlluniau Datblygu Lleol fel cyfrwng i helpu i ddileu anghydraddoldeb yn y rhanbarth.**
b) **Mewn cyd-destun cynllunio, gallai hyn gynnwys materion iaith neu fynediad.**

**6.3.7 <u>SIPSIWN A THEITHWYR</u>**

a) **Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol wneud darpariaeth ddigonol ar gyfer lle byw i sipsiwn a theithwyr.**

**6.3.8 <u>IECHYD</u>**

a) **Tra mae pobl sy'n byw mewn mannau gwledig yn gyffredinol â ffordd o fyw iachach na'r rhai mewn mannau trefol, mae'n bwysig gwneud darpariaeth i sicrhau bod cyfleusterau gofal iechyd yn cael eu darparu yn yr ardaloedd hyn.**

**6.3.9 <u>TAI</u>**

a) **Dylai cyfleoedd fod ar gael i bobl fyw yn y lleoliad, a'r deiliadaeth a math o eiddo, o'u dewis nhw.**
b) **Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol wneud darpariaeth ddigonol ar gyfer tai fforddiadwy mewn ardaloedd lle mae angen wedi cael ei nodi.**

c) **Dylai tai fforddiadwy gael eu hintegreiddio'n llwyr mewn datblygiadau newydd sy'n cynnwys cymysgedd o dai fforddiadwy a thai marchnad agored.**
d) **Sicrhau bod unrhyw dai newydd yn cyrraedd y gofynion cyfredol o ran effeithlonrwydd ynni.**

**6.3.10 <u>TLODI</u>**

a) **Mae'n hanfodol fod gan blant o gefndiroedd difreintiedig fynediad at gyfleusterau chwarae, a fydd yn ei dro yn helpu'u datblygiad cymdeithasol a chorfforol.**

**6.3.11 <u>GWASANAETHAU CYHOEDDUS</u>**

a) **Mae angen sicrhau y gwneir yn fawr o gapasiti a gallu gwasanaethau cyhoeddus i wneud yn siŵr fod y safon orau bosibl o wasanaeth yn cael ei darparu.**
b) **Dylai pob gwasanaeth cyhoeddus gynnwys pob aelod o gymdeithas, ond gan barchu nodweddion lleol yr un pryd.**

## 7.0 THEMÂU CYFFREDINOL (GWELER ATODIAD 5)

### 7.1 TROSOLWG

**7.1.1 Yn yr is-adran isod ceir trosolwg byr o'r strategaethau a'r cynlluniau cenedlaethol a lleol sy'n berthnasol i Wynedd ac Ynys Môn, ond nad oes a wnelont yn uniongyrchol â'r prif themâu sydd wedi'u nodi yn y papur pwnc.**

7.2.1 POLISI CYNLLUNIO CYMRU - PENNOD 3: GWNEUD PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO A'U GORFODI (2016) (GWELER ATODIAD 5 – TABL 7.2.1)

a) Yn gyffredinol mae'n well fod awdurdodau cynllunio sy'n adnabod eu hardal, ei hanghenion ac elfennau sensitif ynddi yn penderfynu'n leol ar gynigion datblygu.
b) Nid yw Gweinidogion Cymru'n ymyrryd ag awdurdodaeth awdurdod cynllunio lleol oni bai fod rhaid gwneud hynny.
c) Diweddarwyd yn ffeithiol i gynnwys cyfeiriad at Gyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiad) (Olew a Nwy Anghonfensiynol) (Cymru) 2015.

7.2.2 POLISI CYNLLUNIO CYMRU - PENNOD 12: SEILWAITH A GWASANAETHAU (2016) (GWELER ATODIAD 5 – TABL 7.2.2)

a) Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu dull strategol a thymor hir o ymdrin â darparu seilwaith wrth baratoi cynlluniau datblygu.
b) Diwygiwyd yn Argraffiad 8 i gynnwys cyfeiriad at gyfarpar microgynhyrchu annomestig ar raddfa fach

7.2.3 NODYN CYNGOR TECHNEGOL 7: RHEOLI HYSBYSEBION AWYR AGORED (1996) (GWELER ATODIAD 5 – TABL 7.2.3)

a) Mae'r gyfundrefn reoli a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i reoli unrhyw hysbysebion fwy neu lai yn yr awyr agored er lles amwynder a diogelwch y cyhoedd.
b) Gall awdurdodau cynllunio lleol gynhyrchu canllawiau dylunio ar gyfer hysbysebion awyr agored a blaenau siopau, yn enwedig mewn ardaloedd cadwraeth neu lle mae adeiladau cynhenid yn chwarae rhan bwysig yn ymddangosiad cymdogaeth.

7.2.4 NODYN CYNGOR TECHNEGOL 9: GORFODI RHEOLAETH GYNLLUNIO (1997) (GWELER ATODIAD 5 – TABL 7.2.4)

a) Mae'n darparu arweiniad ar faterion gorfodi cyffredinol a sut i'w rhoi ar waith.
b) Mae'r cyfrifoldeb i benderfynu a ddylid rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygiad arfaethedig yn gorffwys yn y lle cyntaf gyda'r awdurdod cynllunio lleol, fel y gwna'r penderfyniad pa un y dylid gadael i ddatblygiad heb ganiatâd barhau ynteu a ddylid gorfodi yn ei erbyn.

7.2.5 NODYN CYNGOR TECHNEGOL 11: SŴN (1997) (GWELER ATODIAD 5 – TABL 7.2.5)

a) Mae'n darparu arweiniad ar:
i) sut y gellir defnyddio'r gyfundrefn gynllunio i leihau effeithiau andwyol sŵn i'r eithaf;

ii) sut y dylai Cynlluniau Datblygu Lleol ymdrin â chynhyrchu sŵn;
iii) sut i fabwysiadu safbwynt corfforaethol a sicrhau cydweithredu rhwng yr adrannau cynllunio ac iechyd yr amgylchedd;
iv) sut y dylid nodi polisïau sŵn penodol.

7.2.6 <u>NODYN CYNGOR TECHNEGOL 16: CHWARAEON, HAMDDEN A MANNAU AGORED (2009) (GWELER ATODIAD 5 – TABL 7.2.6)</u>

a) Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyngor ynglŷn â rôl y gyfundrefn gynllunio yn darparu ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden a mannau agored anffurfiol, yn ogystal â gwarchod cyfleusterau a mannau agored sy'n bodoli eisoes mewn ardaloedd trefol a gwledig yng Nghymru.
b) Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ddarparu fframwaith ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden sy'n ddiogel, yn cael eu cynnal yn dda, yn hygyrch ac yn gynhwysol.

7.2.7 <u>NODYN CYNGOR TECHNEGOL 19: TELATHREBU (2002) (GWELER ATODIAD 5 – TABL 7.2.7)</u>

a) Mae'n darparu arweiniad ynglŷn â gofynion Deddf Telathrebu 1984 a'u goblygiadau i'r gyfundrefn gynllunio.
b) Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol ystyried:
i) y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n ymdrin â thelathrebu;
ii) gofynion Deddf Telathrebu 1984;
iii) yr angen i leihau effaith datblygu i'r eithaf;
iv) y cyfyngiadau y mae'r rhwydweithiau a'r dechnoleg bresennol yn eu gorfodi arnom;
v) y gofynion telathrebu.

7.2.8 <u>NODYN CYNGOR TECHNEGOL MWYNAU 1: AGREGAU (2004) (GWELER ATODIAD 5 – TABL 7.2.8)</u>

a) Mae'r Nodyn Cyngor Technegol Mwynau hwn yn darparu cyngor manwl ynglŷn â'r mecanweithiau er mwyn i awdurdodau cynllunio mwynau a'r diwydiant agregau wireddu'r polisi echdynnu mwynau.

b) Prif amcan y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yw sicrhau bod cyflenwadau'n cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy i wneud yn siŵr fod cydbwysedd yn cael ei gadw rhwng ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

**7.3 <u>NEGESEUON ALLWEDDOL</u>**

**7.3.1 <u>POLISI CYNLLUNIO CYMRU</u>**

**a) Mae rôl datblygu cynaliadwy yn elfen annatod ym mhob thema sydd wedi'i chynnwys yn y cynllun, ac ar y sail hon y paratoir Cynlluniau Datblygu Lleol.**

**7.3.2 <u>NODIADAU CYNGOR TECHNEGOL</u>**

**a) Mae'r nodiadau'n cwmpasu ystod eang o bynciau, gan ddarparu cyngor ynglŷn ag ymarfer da a sut i lunio polisïau'r cynllun datblygu.**

## 8.0 CYFEIRIADAU


CYNGOR GWYNEDD (2010) Cau'r Bwlch – Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd. Cyngor Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD (2007) Strategaeth Adfywio Gwynedd (2007-2013). Cyngor Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD (2008) Gwynedd ar y Cyd (2008-2012). Cyngor Gwynedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN (2004) Strategaeth Adfywio Economaidd Ynys Môn (2004-2015). Cyngor Sir Ynys Môn

CYNGOR SIR YNYS MÔN (2012) Ein Hynys – Ein Dyfodol: Llunio'r Strategaeth Gymunedol ar gyfer Ynys Môn. Cyngor Sir Ynys Môn

CYNGOR SIR YNYS MÔN a THE TOURISM COMPANY (2012) Cynllun Rheoli Cyrchfan (2012-2016) – Y Strategaeth. Cyngor Sir Ynys Môn a The Tourism Company

CYNGOR SIR YNYS MÔN, YNYS YNNI MÔN a LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2012) Parth Menter yr Ynys Ynni – Prosbectws Drafft. Cyngor Sir Ynys Môn, Ynys Ynni Môn a Llywodraeth Cynulliad Cymru

AWDURDODAU LLEOL CANOLBARTH CYMRU (2015) *Cynllun Trafnidiaeth Lleol Canolbarth Cymru.* Awdurdodau Lleol Canolbarth Cymru

AWDURDODAU LLEOL GOGLEDD CYMRU (2015) *Cynllun Trafnidiaeth Lleol Gogledd Cymru.* Awdurdodau lleol

PARTNERIAETH TWRISTIAETH GOGLEDD CYMRU ET AL (2010) Strategaeth Dwristiaeth Gogledd Cymru (2010-2015). Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2012) Iaith Fyw: Iaith Byw – Strategaeth ar gyfer y Gymraeg (2012 – 2017). Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2010) *Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer Cymru.* Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2015) *Prosbectws Cynllun Datblygu.* Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2012) Ynni Cymru: Newid Carbon Isel. Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2012) Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru. Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2015) *Cynllun Datblygu Lleol - Llawlyfr Argraffiad 2.* Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2015) *Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol.* Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2013) *Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth ar gyfer Twristiaeth (2013-2020).*Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2016) *Polisi Cynllunio Cymru - Argraffiad 8.* Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2015) *Prosbectws Polisi Cynllunio.* Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2015) *Trosolwg Prosbectws Cynllunio.* Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2015) *Cynllun Gweithredu Cynllunio Cadarnhaol.* Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2014) *Rhaglen Datblygu Gwledig (2014-2020).* Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2012) Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (2012-2016). Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2014) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21: Gwastraff. Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2013) Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru (2013). Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2012) Teithio at Ddyfodol Gwell – Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflawni yn ymwneud â Sipsiwn a Theithwyr. Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2010) *Tuag at Ddyfodol Diwastraff.* Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2013) *Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid - Fframwaith Adfywio Newydd.* Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2015) *Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.* Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2012) Gweithio Gyda'n Gilydd dros Gymru: Fframwaith Strategol i'r Gweithlu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru. Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2003) Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2009) Cynllun Gweithredu Cymru ar Gerdded a Beicio (2009-2013). Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2006) Cartrefi Gwell i Bobl Cymru: Strategaeth Dai Genedlaethol Cymru. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2005) Dringo'n Uwch – Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2008) *Strategaeth Twristiaeth Arfordirol.* Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2010) Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2004) Nodyn Cyngor Technegol Mwynau MTAN (Cymru) 1: Agregau. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2010) Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2008) Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl – Strategaeth Cludo Nwyddau Cymru. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2008) Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2002) Polisi Chwarae. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2009) Cynllun Iechyd Gwledig. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2015) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2006) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (1996) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 3: Parthau Cynllunio Syml. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (1996) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 4: Manwerthu a Chanol Trefi. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2009) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2010) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6: Cymunedau Gwledig Cynaliadwy. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (1996) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2005) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8: Ynni Adnewyddadwy. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (1997) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 9: Gorfodi Rheolaeth Gynllunio. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (1997) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 10: Gorchmynion Cadw Coed. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (1997) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 11: Sŵn. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2014) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Dylunio. Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (1997) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 13: Twristiaeth. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2006) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 13: Twristiaeth – Adolygiad Drafft. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (1998) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 14: Cynllunio'r Arfordir. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2004) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2009) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2007) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 18: Trafnidiaeth. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2002) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 19: Telathrebu. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYMRU (2013) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Drafft). Llywodraeth Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2010) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 22: Adeiladau Cynaliadwy. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2010) Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2009) Adroddiad Gweinidogion Cymru: Cydraddoldeb i Bobl Anabl. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2008) Cynllun Gofodol Cymru – Diweddariad 2008. Llywodraeth Cynulliad Cymru

PARTNERIAETH GWYNEDD AC YNYS MÔN (2014) Cryfhau Cymunedau yng Ngwynedd ac Ynys Môn – Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd (2013-2017) Partneriaeth Gwynedd ac Ynys Môn

## ATODIAD 1 – THEMÂU TROSFWAOL

| Tabl 3.2.1 | Polisi Cynllunio Cymru – Pennod 1: Rhagarweiniad (2016) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Ym Mhennod 1 ceir trosolwg o'r ddogfen, gan ddweud ei bod yn nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru.<br>• Mae'r bennod yn rhoi pwyslais cryf ar y ffaith y dylai'r gyfundrefn gynllunio fod yn effeithlon, yn effeithiol ac yn syml o ran ei gweithrediad.<br>• Diwygiwyd yn Argraffiad 8 i gynnwys cyfeiriad at Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br>• Diweddarwyd y testun ar gyd-destun yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer cynllunio yng Nghymru. |
| Materion Allweddol | 1. <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Mae'r brif ddeddfwriaeth yn ymwneud â chynllunio defnydd tir wedi'i chynnwys yn y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (1990), y Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (1990), Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990, y Ddeddf Cynllunio a Digolledu (1991), y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (1991), y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) a'r Ddeddf Cynllunio (2008).<br>• Y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) a gyflwynodd y system o Gynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru, dyletswydd statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru baratoi Cynllun Gofodol Cymru.<br>• Mae Cynllun Gofodol Cymru'n gosod fframwaith strategol i arwain datblygu ac ymyriadau polisi yn y dyfodol. |
| | 2. <u>Papurau Pwnc</u><br>• Mae'n hanfodol fod y cyhoedd yn cymryd rhan yn y broses o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol.<br>• Elfennau hanfodol eraill o'r gyfundrefn gynllunio yw bod y cyhoedd yn cymryd rhan yn y gwaith o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol a chyrraedd y targedau o ran penderfynu ar geisiadau cynllunio o fewn cyfnod penodedig o amser. |
| | 3. <u>Polisïau</u><br>• Dylid ystyried polisi cynllunio cenedlaethol a Chynllun Gofodol Cymru wrth baratoi cynlluniau datblygu. |
| | 4. <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Rhaid i'r gyfundrefn gynllunio ddarparu cyflenwad parhaus o dir datblygu i ddiwallu anghenion cymdeithasol gan ystyried egwyddorion cynaliadwyedd. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd<br>• Papur pwnc posibl ar y ffordd y mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi ymdrin â chyfranogiad cyhoeddus wrth lunio'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. |

| Tabl 3.2.2 | Polisi Cynllunio Cymru – Pennod 2: Cynlluniau Datblygu Lleol (2016) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Mae Pennod 2 yn darparu cyngor i awdurdodau cynllunio lleol wrth iddynt baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol, a'r rhain fydd y cynllun datblygu statudol i'r ardal gynllunio leol.<br>• Diwygiwyd yn Argraffiad 8 i gynnwys mwy o fanylion ynglŷn â pharatoi Cynlluniau Datblygu Lleol, gan gynnwys eu ffurf a chyd-destun, ar y broses o baratoi'r cynllun, y broses adolygu a diwygio, ac ar rôl Llywodraeth Cymru yn y broses.<br>• Hefyd cynhwysir paratoad canllawiau cynllunio atodol. |
| Materion Allweddol | 1. <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Mae'n ofynnol yn ôl Deddf Llywodraeth Leol 200 i bob awdurdod lleol baratoi Strategaeth Gymunedol sy'n nodi sut mae'n bwriadu hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ei ardal.<br>• Mae'r Strategaethau Cymunedol yn sail i'r broses o lunio Cynllun Datblygu Lleol. |
| | 2. <u>Papurau Pwnc</u><br>• Bydd adroddiadau ar y cyd, strategol eu natur, yn gyfraniad pwysig i sylfaen tystiolaeth y Cynllun Datblygu Lleol. |
| | 3. <u>Polisïau</u><br>• Bydd Cynlluniau Datblygu Lleol yn ddarostyngedig i Arfarniad Cynaliadwyedd sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd.<br>• Ni fydd angen polisi pwrpasol o reidrwydd ar bob pwnc.<br>• Mewn rhai achosion efallai y bydd modd delio â chanllawiau rheoli datblygu yn briodol mewn modd generig yn hytrach na thrwy bolisïau pwnc ar wahân. |
| | 4. <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Efallai y bydd gofyn datblygu safleoedd unigol yn raddol fesul cam dros gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar y cysylltiadau rhwng Strategaethau Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn a'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, a chydweithredu â rhanddeiliaid allweddol. |

| Tabl 3.2.3 | Polisi Cynllunio Cymru – Pennod 4: Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd (2016) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Mae Pennod 4 yn nodi dyheadau Llywodraeth Cymru i gynyddu cynaliadwyedd o safbwynt materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.<br>• Gwnaed y newidiadau canlynol yn Argraffiad 8:<br><br><u>Datblygu cynaliadwy</u><br><br>• Diweddarwyd yn ffeithiol i gynnwys gwybodaeth am Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys y camau gweithredu y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu cymryd mewn ymateb iddi.<br>• Amlinellu saith nod lles y Ddeddf.<br>• Diweddarwyd y diffiniad o ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru yn unol â Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br><br><u>Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd</u><br><br>• Diweddarwyd yn ffeithiol i gyfeirio at Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a diweddaru gwybodaeth am y gofynion deddfwriaethol ar gyfer datblygu cynaliadwy yn y system gynllunio.<br><br><u>Egwyddor Datblygu Cynaliadwy</u><br><br>• Diweddarwyd yn ffeithiol i gynnwys gwybodaeth am yr Egwyddor Datblygiad Cynaliadwy a gynhwysir yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br><br>• Yn cyfeirio at gyngor pellach ar weithredu Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd i fod i gael ei chyhoeddi maes o law.<br><br><u>Amcanion</u><br><br>• Mae amcanion polisi cynllunio presennol wedi cael eu hailalinio o dan y nodau lles a geir yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac i adlewyrchu cynnwys pennod newydd ym Mholisi Cynllunio Cymru ar gynllunio mwynau, yn cynnwys amcan ychwanegol ar y pwnc hwn.<br><br><u>Cefnogi'r Iaith Gymraeg</u><br><br>• Diwygio i gyfeirio at ac ystyried:<br><br>• Nod amcanion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)2015 ynglŷn â'r iaith Gymraeg; a<br><br>• Darpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 sy'n ymwneud |

| | | |
|---|---|---|
| | | ag ystyriaeth o'r iaith Gymraeg. |
| **Materion Allweddol** | 1. | <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Mae ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn nodi'r uchelgais i Gymru ddefnyddio ei chyfran deg o adnoddau'r Ddaear, lle, mewn cenhedlaeth, mae ein hôl troed ecolegol yn cael ei leihau i'r adnoddau sydd ar gael ar gyfartaledd byd-eang - 1.88 hectar byd-eang y pen. |
| | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Mae ein dull yn gyson ag egwyddorion a rennir â'r DU, ac yn adeiladu arnynt:<br>○ Byw o fewn terfynau amgylcheddol;<br>○ Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn;<br>○ Sicrhau economi gynaliadwy;<br>○ Hyrwyddo llywodraethu da;<br>○ Defnyddio gwyddoniaeth gadarn yn gyfrifol. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Mae'r system gynllunio yn darparu ar gyfer rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy er mwyn sicrhau bod materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu cydbwyso a'i hintegreiddio, ar yr un pryd, gan y sawl sy'n cymryd penderfyniadau pan:<br>○ Yn paratoi cynllun datblygu;<br>○ Wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio unigol. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Mae angen i gynlluniau datblygu ddarparu fframwaith i ysgogi, arwain a rheoli newid tuag at gynaliadwyedd.<br>• Dylent sicrhau patrwm anheddu cynaliadwy sy'n diwallu anghenion yr economi, yr amgylchedd ac iechyd, tra'n parchu amrywiaeth leol a diogelu cymeriad a hunaniaeth diwylliannol cymunedau. |
| **Papurau Presennol ac Arfaethedig** | | • <u>CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd</u><br>(td.19- 20 – Newid Hinsawdd)<br>(<u>http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf</u>) |

| **Tabl 3.2.4** | | **Polisi Cynllunio Cymru – Pennod 8: Trafnidiaeth (2016)** |
|---|---|---|
| **Cyhoeddwr** | | • Llywodraeth Cymru |
| **Diben** | | • Mae Pennod 8 yn cyflwyno nod Llywodraeth Cymru o ymestyn y dewis o foddau trafnidiaeth cynaliadwy ledled Cymru, a lleihau'r angen i deithio.<br>• Diwygiwyd yn Argraffiad 8 i gymryd i ystyriaeth Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2015 |
| **Materion Allweddol** | 1. | <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, Adroddiadau Lleihau Traffig ar y Ffyrdd, Cynlluniau Rheoli Ansawdd Aer a Mapiau Sŵn Strategol. |

| | | |
|---|---|---|
| | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Hierarchaeth drafnidiaeth i ddatblygiadau newydd sy'n hygyrch yn gyntaf drwy gerdded a beicio, yna drwy drafnidiaeth gyhoeddus ac yna drwy gerbydau preifat.<br>• Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn anelu at wneud cerdded a beicio yr opsiwn mwyaf deniadol ar gyfer teithiau byrrach. Yn benodol, teithiau bob dydd, megis i'r gweithle neu sefydliad addysg ac ohono, neu er mwyn cael mynediad at iechyd, hamdden neu wasanaethau neu gyfleusterau eraill. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Dylai polisïau trafnidiaeth sicrhau bod tai, swyddi, manwerthu a gwasanaethau hamdden i gyd o fewn cyrraedd hwylus ar drafnidiaeth gyhoeddus.<br>• Mae angen i strategaethau a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol fod yn gyson â'r strategaethau a'r polisïau sydd wedi'u cynnwys yn y *'Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol'*, *'Adroddiadau Lleihau Traffig ar y Ffyrdd'*, a *'Chynlluniau Rheoli Ansawdd Aer'* a'r wybodaeth ar y *'Mapiau Sŵn Strategol',* a'u bod wedi'u hintegreiddio â nhw.<br>• Cynnwys mesurau penodol i hyrwyddo cerdded a beicio.<br>• Nodi polisïau i hyrwyddo defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn cynnwys cyfleusterau cyfnewidfa newydd, a chyfleusterau wedi'u gwella, ynghyd â, lle mae hynny'n briodol, gynlluniau parcio a theithio.<br>• Cynnwys polisïau rheoli traffig priodol.<br>• Cynnwys polisïau a chynigion yn ymwneud â datblygu seilwaith trafnidiaeth ar wahân i ffyrdd. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Lle mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi nodi gofyniad am gyfleusterau parcio a theithio, dylai awdurdodau cynllunio bennu safleoedd addas yn y cynllun datblygu.<br>• Fel arfer dylai parcio a theithio gael ei ystyried yn un elfen o strategaeth gynllunio a thrafnidiaeth gynhwysfawr |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • <u>CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd</u><br>(td.34- 35 –Trafnidiaeth (<u>http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf</u>) | |

| Tabl 3.2.5 | Nodyn Cyngor Technegol 6: Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn rhoi arweiniad ynglŷn â rôl y gyfundrefn gynllunio yn helpu i sicrhau cymunedau |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwledig cynaliadwy. |
| **Materion Allweddol** | 1. | <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Dylai awdurdodau cynllunio lleol geisio gwybodaeth am y gwasanaethau lleol sydd ar gael gan y bydd hyn yn help i nodi'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy i'w datblygu.<br>• Dylai awdurdodau cynllunio lleol asesu anghenion a blaenoriaethau cymunedau gwledig, gan ddefnyddio ffynonellau fel *'Arsyllfa Wledig Cymru'* ac *'Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol'*. |
| | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol nodi'r weledigaeth ofodol er mwyn cryfhau cymunedau gwledig. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol ymateb i'r heriau a grëir gan newid hinsawdd, er enghraifft drwy ddarparu ar gyfer ynni adnewyddadwy.<br>• Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gefnogi:<br>  • arallgyfeirio'r economi wledig fel ffordd o ddarparu cyflogaeth leol a lleihau'r angen i deithio;<br>  • gallai ehangu technoleg gwybodaeth i ardaloedd gwledig helpu i oresgyn y rhwystrau sy'n gysylltiedig â phellter o'r farchnad<br>  • ceisiadau a fydd yn gwella'r seilwaith mewn ardaloedd gwledig;<br>  • twf hunangyflogaeth a micro-fusnesau.<br>• Mewn ardaloedd gwledig efallai y bydd awdurdodau cynllunio lleol am roi blaenoriaeth i dai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol.<br>• Mae'r ddogfen yn cefnogi datblygu cymunedau gwledig cynaliadwy, gan helpu i sicrhau bod datblygu'n digwydd yn y lle iawn i ddarparu cartrefi a chyfleoedd cyflogaeth i bobl leol, a helpu i gynnal gwasanaethau gwledig. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gynnwys digon o dir i ddiwallu'r angen am dai ar gyfer y farchnad agored a thai fforddiadwy ar draws ardal yr awdurdod cynllunio. |
| **Papurau Presennol ac Arfaethedig** | | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar faterion cynaliadwyedd wledig. |

| | | |
|---|---|---|
| **Tabl 3.2.6** | | **Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (2005)** |
| **Cyhoeddwr** | | • Llywodraeth Cymru |
| **Diben** | | • Mae a wnelo Nodyn Cyngor Technegol 8 yn bennaf â goblygiadau defnydd tir annog defnyddio ynni adnewyddadwy yng Nghymru. |
| **Materion Allweddol** | 1. | <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Mae darparu trydan o ffynonellau adnewyddadwy yn elfen bwysig o bolisi ynni'r DU, sydd â tharged clir i gynhyrchu 10% o'i thrydan o ffynonellau ynni |

| | | |
|---|---|---|
| | | adnewyddadwy erbyn 2010.<br>• Mae gan Lywodraeth Cymru darged o 4TWh o drydan y flwyddyn i gael ei gynhyrchu drwy ynni adnewyddadwy erbyn 2010 a 7TWh erbyn 2020.<br>• Er mwyn cyrraedd y targedau hyn mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad fod angen 800MW o gapasiti ychwanegol wedi'i osod o ffynonellau gwynt ar y tir erbyn 2010. |
| | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Datblygu dealltwriaeth o dechnoleg ynni adnewyddadwy. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol hyrwyddo defnyddio ynni adnewyddadwy. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Mae nifer o safleoedd trefol/diwydiannol wedi cael eu nodi fel rhai sydd â photensial i'w defnyddio ar gyfer ynni adnewyddadwy. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Astudiaeth o'r Capasiti ar gyfer Ynni Adnewyddadwy. | |

| Tabl 3.2.7 | Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2014) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru | |
| Diben | • Diben y ddogfen yw darparu cyngor ar hyrwyddo cynaliadwyedd drwy ddylunio da a pharatoi *'Datganiadau Dylunio a Mynediad'*. | |
| Materion Allweddol | 1. | <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Cafodd Datganiadau Dylunio a Mynediad eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru i helpu i godi safon dylunio.<br>• Mae'r broses ddylunio yn cynnwys mynediad, cymeriad, diogelwch cymunedol, cynaliadwyedd amgylcheddol a symud. |
| | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Mynediad – mabwysiadu egwyddorion dylunio cynhwysol sy'n sicrhau darpariaeth ddigonol i bawb.<br>• Cymeriad – gellir cynnal a gwella cymeriad lleol drwy hyrwyddo datblygu darllenadwy; perthynas lwyddiannus rhwng gofod cyhoeddus a phreifat; ansawdd, dewis ac amrywiaeth; a dylunio arloesol.<br>• Diogelwch cymunedol – sicrhau mannau cyhoeddus deniadol, diogel; a diogelwch drwy wyliadwriaeth naturiol.<br>• Cynaliadwyedd amgylcheddol – sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau naturiol a'u gwarchod.<br>• Symud – hyrwyddo ffyrdd cynaliadwy o deithio. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Dylai Cynllunio Datblygu Lleol lunio polisïau dylunio sy'n annog safonau dylunio uchel sy'n parchu'r cyd-destun lleol a'r cymeriad lleol arbennig.<br>• Ni ddylai materion dylunio, fel y dylanwadir arnynt |

| | | |
|---|---|---|
| | | drwy'r system gynllunio, ddyblygu rôl Rheolaeth Adeiladu.<br>• Rhaid i ddyluniad cychwynnol adeilad yn y broses gynllunio ystyried gallu'r adeilad i fodloni gofynion Rheolaeth Adeiladu.<br>• Felly, dylai dylunio fod yn ystyriaeth sylfaenol o'r cychwyn cyntaf ac ni ddylid ei drin na'i ddatblygu ar wahân. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Deall y safle a'r cyd-destun yw'r sylfaen i ddylunio cynaliadwy. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar faterion dylunio yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. | |

| Tabl 3.2.8 | Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (2007) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru | |
| Diben | • Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull o ymdrin â materion trafnidiaeth sy'n seiliedig ar ddatblygu cynaliadwy. | |
| Materion Allweddol | 1. | <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Mae Deddf Trafnidiaeth 2000 yn cynnwys pwerau sy'n caniatáu i awdurdodau lleol fynd i'r afael â llygredd a thagfeydd yn eu hardaloedd.<br>• Mae Deddf Lleihau Traffig Ffyrdd 1997 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu'r lefelau traffig ar ffyrdd lleol ar hyn o bryd, rhagamcanu'r twf disgwyliedig mewn lefelau traffig a phennu unrhyw dargedau i leihau'r lefelau traffig ar y ffyrdd neu dwf yn y lefelau traffig. |
| | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Integreiddio trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir.<br>• Integreiddio rhwng gwahanol fathau o drafnidiaeth.<br>• Integreiddio polisi trafnidiaeth gyda pholisïau ar gyfer yr amgylchedd, addysg, cyfiawnder cymdeithasol, iechyd, datblygu economaidd a chreu cyfoeth.<br>• Gall integreiddio'r gwaith o gynllunio defnydd tir a'r gwaith o ddatblygu seilwaith trafnidiaeth helpu i wireddu system drafnidiaeth gwbl gynaliadwy. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Dylai Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol fod yn rhan annatod o'r broses o lunio polisïau trafnidiaeth mewn Cynlluniau Datblygu Lleol.<br>• Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'u pwerau cynllunio a thrafnidiaeth mewn cydweithrediad â darparwyr a gweithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus i wella'r ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Lle mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi nodi gofyniad am gyfleusterau parcio a theithio, dylai awdurdodau lleol gynnwys cynigion ar eu cyfer yn y Cynllun Datblygu Lleol. |

| | |
|---|---|
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd (td.34- 35 –Trafnidiaeth) (http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf)<br>• Papur pwnc ar faterion trafnidiaeth yng Ngwynedd a Môn ar y gweill. |

| Tabl 3.2.9 | Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru | |
| Diben | • Mae'r ddogfen yn cyflwyno nod Llywodraeth Cymru o wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau Cymru a sicrhau gwella ansawdd bywyd i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol. | |
| Materion Allweddol | 1. | Sylfaen Tystiolaeth<br>• O ran cynhyrchu trydan, roedd Cymru'n gyfrifol am 9% o'r trydan a gynhyrchwyd yn y DU rhwng 2004 a 2010.<br>• Mae cyfanswm y trydan a gynhyrchwyd yng Nghymru wedi gostwng 10% dros y cyfnod hwn a hynny'n cael ei yrru'n bennaf gan ostyngiad yn y trydan a gynhyrchir o orsafoedd glo a niwclear.<br>• Mae'r gyfradd o drydan a gynhyrchir o ffynonellau carbon isel, yn cynnwys niwclear, wedi aros yn gyson ar oddeutu un rhan o bump o'r cyfanswm a gynhyrchir.<br>• Mae'r twf mewn trydan a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy, o 2.9% yn 2004 i 5.1% yn 2010, wedi gael ei negyddu i ryw raddau gan y gostyngiad mewn trydan a gynhyrchir o niwclear dros yr un cyfnod.<br>• Mae'r cyfnod hwn hefyd wedi gweld buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru i ymdrin ag effeithlonrwydd ynni domestig mewn cymunedau ac ar aelwydydd incwm isel. |
| | 2. | Papurau Pwnc<br>• Bydd y dynodiad fel Parth Menter yn help pellach i wireddu budd economaidd ehangach i'r rhanbarth drwy fframwaith trosfwaol yr Ynys Ynni. |
| | 3. | Polisïau<br>• Gwneud yn fawr o fuddion rhaglen Ynys Ynni Môn o fewn y Fframwaith Ynys Menter. |
| | 4. | Dyraniadau Safle<br>• Cyfleoedd posibl i ddatblygu safleoedd mentrau diwydiannol yn gysylltiedig â'r rhaglen Ynys Ynni. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd (td.19- 20 – Newid Hinsawdd) (http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf)<br>• Papur pwnc posibl ar Barth Menter yr Ynys Ynni. | |

| Tabl 3.2.10 | Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned – Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru | |
| Diben | • Mae'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn nodi nifer cyfyngedig o gamau gweithredu lefel uchel sy'n dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy. | |
| Materion Allweddol | 1. | Sylfaen Tystiolaeth<br>• Mae Ôl Troed Ecolegol Cymru, sy'n un o'n prif ddangosyddion datblygu cynaliadwy, yn dangos inni, pe bai pawb ar y ddaear yn byw fel ni, y byddem yn defnyddio gwerth 2.7 planed o adnoddau.<br>• Heb ei ffrwyno, gallai hyn gynyddu i werth 3.3 planed erbyn 2020. |
| | 2. | Papurau Pwnc<br>• Ôl Troed Ecolegol Cymru. |
| | 3. | Polisïau<br>• Byw o fewn ein terfynau amgylcheddol.<br>• Rheoli ecosystemau amrywiol a chynhyrchiol yn gynaliadwy.<br>• Datblygu economi wydn a chynaliadwy.<br>• Datblygu cymunedau sy'n saff, cynaliadwy a deniadol. |
| | 4. | Dyraniadau Safle<br>• Bydd tai yn sbardun allweddol i ysgogi buddsoddi preifat a fydd yn cyfrannu at adfywio cymunedau'n gynaliadwy. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd (td.19- 20 – Newid Hinsawdd) (http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf) | |

| Tabl 3.2.11 | Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2008) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru | |
| Diben | • Nod 'Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl' yw hyrwyddo rhwydweithiau trafnidiaeth cynaliadwy sy'n diogelu'r amgylchedd ac yn cryfhau bywyd economaidd a chymdeithasol ein gwlad yr un pryd. | |
| Materion Allweddol | 1. | Sylfaen Tystiolaeth<br>• Mae trafnidiaeth i gyfrif am oddeutu 16% o'r allyriadau $CO^2$ yng Nghymru.<br>• Mae'r rhan fwyaf o gerbydau ffordd yng Nghymru yn rhedeg ar betrol, er bod y nifer o gerbydau sy'n defnyddio tanwydd arall wedi cynyddu er 1998. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Defnyddiwyd cyfanswm o 1.96 miliwn tunnell o'r prif fathau o danwydd (petrol a diesel) yn 2004, gyda cherbydau nwyddau a faniau ysgafn yn defnyddio mwy o danwydd yn ôl y cyfaint o draffig na bysiau, ceir a beiciau modur.<br>• Roedd y pellter a deithiwyd ar gyfartaledd y person yn 2004/05 yn agos at 12,231 km, o'i gymharu ag ychydig dros 11,265 km yn 1995/97. |
| | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Gwell cysylltedd.<br>• Symud nwyddau drwy ddulliau cynaliadwy yn well.<br>• Lleihau cyfraniad trafnidiaeth i allyriadau carbon. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Sicrhau bod cysylltiadau trafnidiaeth yn cyfrannu at ddiwylliant Cymru, gan helpu i greu cymunedau cryf a chynyddu hygyrchedd i'r eithaf.<br>• Creu rhwydweithiau trafnidiaeth cynaliadwy o ansawdd uchel ar draws Cymru. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Rhaid datblygu dulliau amgen i oresgyn rhwystrau rhag cyflogaeth a sicrhau teithio mwy cynaliadwy.<br>• Mae'r rhain yn cynnwys integreiddio ffyrdd a rheilffyrdd yn well, gwell defnydd o gynlluniau Parcio a Theithio, llwybrau bws pwrpasol, gwell llwybrau i gerddwyr a lonydd beicio. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • <u>CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd</u><br>(td.34- 35 –Trafnidiaeth)<br>(http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf)<br>• Papur pwnc ar faterion trafnidiaeth yng Ngwynedd a Môn ar y gweill. | |

| Tabl 3.2.12 | Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl – Strategaeth Cludo Nwyddau Cymru (2008) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru | |
| Diben | • Mae 'Strategaeth Cludo Nwyddau Cymru' yn cyflwyno nodau a pholisïau lefel uchel o ran cludo nwyddau'n gynaliadwy, ac mae'n nodi cyfres o 'gamau' tuag at eu gwireddu. | |
| Materion Allweddol | 1. | <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Mae cludo nwyddau yn dyngedfennol i lawer o agweddau o fywyd bob dydd, ac mae'n cyfrannu tua £2.5 biliwn y flwyddyn i economi Cymru.<br>• Amcangyfrifir bod pobl sy'n cael eu cyflogi mewn gweithgareddau logisteg i gyfrif am hyd at 7% o gyflogaeth yng Nghymru (caiff tua 61,000 o bobl eu cyflogi mewn cwmnïau logisteg, a 30,000 arall mewn swyddogaethau logisteg i sefydliadau eraill) ac mae rhyw 7,400 o weithleoedd logisteg mewn 2,400 o |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwmnïau logisteg. |
| | 2. | **Papurau Pwnc**<br>• Gellid ystyried cynlluniau cludo nwyddau ar gyfer safleoedd diwydiannol a safleoedd eraill yn ystod y cyfnod adeiladu ac fel rhan o'r defnydd terfynol, yn enwedig wrth ddewis lleoliadau safle newydd. |
| | 3. | **Polisïau**<br>• Lleihau'r galw ar y system drafnidiaeth.<br>• Hyrwyddo mathau mwy cynaliadwy ac iachach o deithio.<br>• Gwneud y defnydd mwyaf posibl o'r seilwaith presennol. |
| | 4. | **Dyraniadau Safle**<br>• Lleihau'r galw ar y system drafnidiaeth.<br>• Er enghraifft, polisïau defnydd tir yn ystyried effaith y galw ar drafnidiaeth, gyda mynediad da ar drafnidiaeth gyhoeddus i gyrchfannau mawr. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | | • CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd<br>(td.34- 35 –Trafnidiaeth)<br>(http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf)<br>• Papur pwnc ar faterion trafnidiaeth yng Ngwynedd a Môn ar y gweill. |

| Tabl 3.2.13 | | Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol (2010) |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | | • Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Diben | | • Bydd y Cynllun hwn yn bwrw ymlaen â'r broses o ddarparu trafnidiaeth integredig a chynaliadwy, gan ddefnyddio moddau amrywiol ar wahân i'r car preifat megis trafnidiaeth gymunedol a chyhoeddus, beicio a cherdded. |
| Materion Allweddol | 1. | **Sylfaen Tystiolaeth**<br>• Mae'r teithio rhwng y dwyrain a'r gorllewin yng ngogledd Cymru yn bennaf rhwng safleoedd ac aneddiadau allweddol, un ai ar y ffyrdd neu'r rheilffordd.<br>• Ar hyn o bryd, yr A55 ar Bont Britannia, sy'n cysylltu Ynys Môn a'r tir mawr, yw'r unig ddarn o ffordd unffrwd ar lwybr Ewropeaidd E22, a cheir tagfeydd arni ar gyfnodau brig. |
| | 2. | **Papurau Pwnc**<br>• Mae lleoliadau safleoedd a gwasanaethau allweddol yn dylanwadu'n uniongyrchol ar yr angen i deithio, a chaiff hynny ei ddwysáu yn aml gan y pwysau ar y rhwydwaith trafnidiaeth ar gyfnodau brig.<br>• Mae cyfle i adeiladu ar waith prosesau cynllunio allweddol, yn cynnwys y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynlluniau Datblygu Lleol, i barhau i wella mynediad a lleihau'r galw ar y system |

| | | |
|---|---|---|
| | | drafnidiaeth. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Parhau i sefydlu canolfannau teithio cynaliadwy ar draws Cymru.<br>• Gwella'r prosesau cynllunio a datblygu polisi i sicrhau integreiddio cryfach rhwng trafnidiaeth a gwasanaethau/cyfleusterau allweddol. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Datblygu nifer o ganolfannau teithio cynaliadwy, gan adeiladu ar brofiad canolfan teithio cynaliadwy Caerdydd.<br>• Cysylltu â'r cyfnewidfeydd aml-foddol, strategol sy'n cael eu datblygu, sydd hefyd yn cynnal parcio a theithio, parcio a rhannu a beicio. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | | • <u>CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd</u><br>(td.34- 35 –Trafnidiaeth)<br>(http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf)<br>• Papur pwnc ar faterion trafnidiaeth yng Ngwynedd a Môn ar y gweill. |

| Tabl 3.2.14 | | Cynllun Gweithredu Cymru ar Gerdded a Beicio (2009-2013) |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | | • Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn dwyn ynghyd yr holl gynlluniau allweddol y mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid allweddol yn ymgymryd â nhw neu'n bwriadu ymgymryd â nhw i gefnogi cerdded a beicio yng Nghymru. |
| Materion Allweddol | 1. | <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Dengys tystiolaeth y byddai modd cerdded, beicio neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn lle bron i hanner yr holl deithiau car.<br>• Un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at newid hinsawdd yw ein dibyniaeth drom ar y car, hyd yn oed i siwrneiau byr.<br>• Gan fod allyriadau $CO^2$ o geir yn cynrychioli 13% o gyfanswm y DU, gall gwneud mwy o siwrneiau ar droed neu ar feic helpu i wneud y newidiadau ffordd o fyw sy'n ofynnol i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd. |
| | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Annog peirianwyr priffyrdd a chynllunwyr i weithredu canllawiau dylunio a chanllawiau technegol yn ymwneud â seilwaith beicio. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Gwella iechyd a lles y boblogaeth drwy gynyddu gweithgarwch corfforol;<br>• Gwella'r amgylchedd lleol i gerddwyr a beicwyr;<br>• Annog teithio cynaliadwy fel cam ymarferol i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd; |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Cynyddu'r lefelau cerdded a beicio drwy hyrwyddo cyfleusterau. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Pob awdurdod lleol i fabwysiadu safonau ar gyfer darpariaeth barcio ddiogel i feiciau sy'n cadw at yr ymarfer gorau (er enghraifft mewn canllawiau dylunio a chynllunio lleol). |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc ar faterion trafnidiaeth yng Ngwynedd a Môn ar y gweill. | |

| Tabl 3.2.15 | Cynllun Trafnidiaeth Lleol Canolbarth Cymru (2015) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Awdurdodau Lleol Canolbarth Cymru | |
| Diben | • Mae'r tri awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd i hwyluso datblygiad economaidd, sicrhau mynediad i bawb at wasanaethau a chyfleoedd, cynnal a gwella ansawdd bywyd y gymuned, a gwneud cyfraniad gweithredol at reoli carbon ac ansawdd yr amgylchedd drwy gyflenwi mewn partneriaeth system drafnidiaeth integredig a fforddiadwy yn y rhanbarth. | |
| Materion Allweddol | 1. | <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Mae Canolbarth Cymru yn rhanbarth mawr ac amrywiol, yn ymestyn o Flaenau Ffestiniog yn y gogledd i Ystradgynlais yn y de ac o Fae Ceredigion yn y gorllewin i'r ffin â Lloegr yn y dwyrain.<br>• Mae poblogaeth y Canolbarth a gymerwyd o Gyfrifiad 2011 yn 242,452, sy'n cynrychioli 8% o boblogaeth Cymru. |
| | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Datblygu Trafnidiaeth Integredig.<br>• Hygyrchedd Datblygiadau. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Cyflogaeth a Mynediad i Dwristiaeth;<br>• Mynediad Cynhwysol i Wasanaethau;<br>• Integreiddio Trafnidiaeth Gyhoeddus;<br>• Potensial Teithio Llesol;<br>• Dibynadwyedd Amser Teithio a Chysylltiadau Strategol;<br>• Cysylltiadau cludo nwyddau;<br>• Cyflwr Priffyrdd a Diogelwch ar y Ffyrdd;<br>• Gallu i Wrthsefyll Newid yn yr Hinsawdd. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Dyraniadau llwybrau beicio |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • <u>CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd</u> (td.34- 35 –Trafnidiaeth) (http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf)<br>• Papur pwnc ar faterion trafnidiaeth yng Ngwynedd a Môn ar | |

| | |
|---|---|
| | y gweill. |

| Tabl 3.2.16 | Cynllun Trafnidiaeth Lleol Gogledd Cymru (2015) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru |
| Diben | • Mae'r chwe awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd i geisio sicrhau ffyniant economaidd, twf a lles yng Ngogledd Cymru a gweledigaeth y Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd yw *"dileu rhwystrau trwy gyflwyno rhwydweithiau trafnidiaeth diogel, cynaliadwy, fforddiadwy ac effeithiol".*<br>• Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn ategu gwaith Tasglu Gweinidogol Gogledd Cymru a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd, ynghyd â chynlluniau a pholisïau yr awdurdodau statudol. |
| Materion Allweddol | 1. Sylfaen Tystiolaeth<br>• Mae'r cynllun yn amcanu at ymdrin â'r materion allweddol ar gyfer Gogledd Cymru:<br>○ Gallu'r coridorau ffyrdd a rheilffyrdd strategol i ddarparu'r cysylltedd da angenrheidiol, i bobl a nwyddau, o fewn Gogledd Cymru, i'r porthladdoedd ac i weddill y DU i gefnogi'r economi a swyddi, gan gynnwys twristiaeth;<br>○ Diffyg gwydnwch y rhwydweithiau ffyrdd a rheilffyrdd i ddigwyddiadau cynlluniedig a rhai a heb eu cynllunio, gan gynnwys tywydd eithafol;<br>○ Yr angen am fynediad da at y tair Ardal Fenter yng Ngogledd Cymru, a rhyngddynt;<br>○ Diffyg dewisiadau amgen hyfyw a fforddiadwy i'r car i gael mynediad i safleoedd cyflogaeth allweddol a gwasanaethau eraill; ac<br>○ Angen am gysylltiadau ffordd da i/o'r rhwydwaith cefnffyrdd i'r ardaloedd gwledig i helpu cadw hyfywedd busnesau lleol a chefnogi'r iaith a diwylliant Cymraeg |
| | 2. Papurau Pwnc<br>• Canolfannau teithio cynaliadwy.<br>• Dewisiadau teithio iach a chynaliadwy, yn cynnwys cerdded a beicio. |
| | 3. Polisïau<br>• Diwallu anghenion cludiant amrywiol Gogledd Cymru yn effeithlon.<br>• Proffil cludiant teithwyr a pherfformiad.<br>• Lleihau tagfeydd ac amseroedd teithio.<br>• Cefnogi datblygiad.<br>• Rhwydweithiau trafnidiaeth cynaliadwy, effeithlon, diogel<br>• Gwella gwasanaethau rheilffyrdd ar gyfer Gogledd Cymru.<br>• Symud nwyddau yn ecogyfeillgar ac effeithlon;<br>• Cynllunio trafnidiaeth a rheoli clyfar; |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Trafnidiaeth gynaliadwy. |
| | 4. | Dyraniadau Safle<br>• Datblygu nifer o ganolfannau teithio cynaliadwy.<br>• Potensial ar gyfer datblygu hybiau trafnidiaeth i wella cysylltedd aml-foddol. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | | • CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd (td.34- 35 –Trafnidiaeth) (http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf)<br>• Papur pwnc ar faterion trafnidiaeth yng Ngwynedd a Môn ar y gweill. |

| Tabl 3.2.17 | | Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | | • Mae'n rhaglen fuddsoddi 7 mlynedd yn cefnogi ystod eang o weithgareddau sy'n cyfrannu at yr amcanion canlynol:<br>○ meithrin cystadleurwydd amaethyddiaeth;<br>○ sicrhau rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol, a gweithredu ar yr hinsawdd.<br>○ cyflawni datblygiad tiriogaethol cytbwys o economïau a chymunedau gwledig, gan gynnwys creu a chynnal cyflogaeth. |
| Materion Allweddol | 1. | Sylfaen Tystiolaeth<br>• Mae'r cynlluniau sy'n agor ar gyfer y cylch cyntaf o Ddatganiadau o Ddiddordeb yn cynnwys:<br>○ Cynllun Buddsoddi Busnesau Bwyd<br>○ Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy<br>○ Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig<br>○ Cydweithredu (M16.4) |
| | 2. | Papurau Pwnc<br>• Gwella cynaliadwyedd a chysylltedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol mewn ardaloedd gwledig. |
| | 3. | Polisïau<br>• Rhaid i bob prosiect a ariennir gan y Rhaglen alinio gydag un neu fwy o'r 6 Blaenoriaeth Datblygu Gwledig Ewropeaidd canlynol:<br>○ Meithrin trosglwyddo gwybodaeth ac arloesi mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth, ac ardaloedd gwledig;<br>○ Gwella hyfywedd ffermydd a chystadleurwydd o bob math o amaethyddiaeth ym mhob rhanbarth a hyrwyddo technolegau fferm arloesol a rheolaeth gynaliadwy ar goedwigoedd, hyrwyddo sefydliad y gadwyn fwyd, gan gynnwys prosesu a marchnata cynnyrch amaethyddol, lles anifeiliaid a rheoli |

| | | |
|---|---|---|
| | | risg mewn amaethyddiaeth adfer, diogelu a gwella ecosystemau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth a choedwigaeth.<br>○ Hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau a chefnogi'r symudiad tuag at economi carbon isel a hinsawdd-wydn mewn sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth.<br>○ Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Blaenoriaeth allweddol yw sicrhau datblygiad tiriogaethol cytbwys o economïau a chymunedau gwledig, gan gynnwys creu a chynnal cyflogaeth. Efallai y bydd angen i safleoedd cyflogaeth gwledig wireddu'r dyhead hwn. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar arallgyfeirio gwledig yng Ngwynedd a Môn. | |

| Tabl 3.2.18 | Cryfhau Cymunedau yn Ynys Môn a Gwynedd (2014) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Partneriaeth Ynys Môn a Gwynedd | |
| Pwrpas | • Dyma'r Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd, sy'n ymgorffori gweledigaeth a chynllun gweithredu Bwrdd Gwasanaethau Lleol y siroedd.<br>• Pwrpas y cynllun yw cydweithio er mwyn gwella ein lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol dros y 12 mlynedd nesaf. | |
| Materion Allweddol | 1. | <u>Sail Tystiolaeth</u><br>• Mae'r boblogaeth yn byw'n hirach, yn unol â chyfartaledd disgwyliad oes Cymru.<br>• Cafwyd gostyngiad o 19% mewn troseddau oedd wedi'u hadrodd yn Ynys Môn a Gwynedd yn 2012/13 o gymharu â 2011/12.<br>• O'r boblogaeth 16-64 oed yng Ngwynedd, rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2012, roedd 21,401 yn economaidd anweithredol (29.1%), ac yn Ynys Môn yn yr un cyfnod, roedd 10,000 yn economaidd anweithredol (24.4%).<br>• Mae canran y boblogaeth yng Ngwynedd rhwng 16 a 64 oed sydd heb gymwysterau wedi gostwng o 15.7% i 13.4% rhwng 2004 a 2010, ac yn Ynys Môn mae wedi gostwng o 16.8% i 12.2%.<br>• Mae lefel y cyflogau llawn amser yng Ngwynedd yn 9.49% yn is na'r ffigwr ar gyfer y Deyrnas Unedig ac yn 1.48% yn is na Chymru gyfan, ac yn Ynys Môn mae'n 13.37% yn is na'r ffigwr ar gyfer y Deyrnas Unedig, a 5.14% yn is na'r ffigwr i Gymru.<br>• Y ward oedd â'r canolrif incwm uchaf yng Ngwynedd yn 2012 oedd Bethel, ar £30,761, 82.9% yn uwch na'r isaf, sef Marchog ar £16,817. Yn Ynys Môn, y ward uchaf oedd Cwm Cadnant ar £33,543, 100.4% yn uwch |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | na'r ward isaf, sef Morawelon ar £16,739.<br>• Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 65.4% (77,000) o'r boblogaeth yng Ngwynedd a 57.2% (38,000) o'r boblogaeth yn Ynys Môn yn medru'r Gymraeg. |
| | | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Cryfhau Cymunedau yng Ngwynedd ac Ynys Môn<br>a) Cymunedau Ffyniannus<br>b) Cymunedau Iach<br>c) Cymunedau Diogel |
| | | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Gwella ansawdd bywyd a lefelau iechyd ym mhob cymuned yn y rhanbarth.<br>• Cymunedau diogel yn rhydd rhag trosedd.<br>• Economi lleol bywiog a chyfleoedd i bobl sicrhau cyflogaeth hir-dymor â chyflogau da.<br>• Gostyngiad mewn allyriadau carbon.<br>• Yr iaith Gymraeg yn ffynnu. |
| | | 4. | <u>Dynodiadau Safle</u><br>• Amherthnasol |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papur pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posib ar gymunedau lleol cynaliadwy. | | |

| Tabl 3.2.19 | Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol (2015) |
|---|---|
| | Llywodraeth Cymru |
| Pwrpas | Y pwrpas yw darparu'r amserlen ar gyfer cyllido cynlluniau yr ymgymerir â hwy gan Lywodraeth Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| **Materion Allweddol** | **1.** | **<u>Sylfaen dystiolaeth</u>**<br><br>**<u>Ffyrdd</u>**<br><br>**Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer cefnffyrdd yng Nghymru, sydd yn ased gwerth £13.5bn. Mae 75 milltir o draffordd a thros 1000 o filltiroedd o gefnffyrdd.**<br><br>**<u>Cludo Nwyddau</u>**<br><br>**Yn aml mae cludo nwyddau yn dibynnu ar y seilwaith a ddarperir, a reolir ac a gynhelir gan y sector cyhoeddus, boed ar lefel genedlaethol neu leol.**<br><br>**<u>Teithio Llesol</u>**<br><br>**Mae teithio llesol yn cwmpasu dulliau allweddol o gerdded a beicio.**<br><br>**<u>Seilwaith a Gwasanaethau Rheilffordd</u>**<br><br>**Mae Llwybrau Cymru, uned reoli Network Rail sy'n ymestyn ar draws Cymru ond nid yn gyfan gwbl gyson â'r Gymru ddaearyddol, yn cynnwys ychydig o dan 1500 o filltiroedd o drac, bron i 2000 o bontydd a 244 o orsafoedd.**<br><br>**<u>Bysiau a Trafnidiaeth Cymunedol</u>**<br><br>**Bob dydd, mae 62,000 o bobl yn dibynnu ar y bws i fynd i'r gwaith, ac mae tua chwarter miliwn o bobl yn defnyddio gwasanaethau bysiau bob dydd i fynd i apwyntiadau ysbyty, ayb.**<br><br>**<u>Porthladdoedd</u>**<br><br>**Mae porthladdoedd Cymru yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru, gyda nifer ohonynt yn ffurfio rhan o'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd (TEN-T), polisi seilwaith trafnidiaeth strategol yr UE.**<br><br>**<u>Trafnidiaeth awyr</u>**<br><br>**Caerdydd yw maes awyr rhyngwladol mwyaf blaenllaw Cymru ac mae'n rhan o'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T).**<br><br>**<u>Cynllun Bathodyn Glas</u>**<br><br>**Mae'r Cynllun Bathodyn Glas yn galluogi pobl anabl i deithio'n annibynnol, naill ai fel gyrwyr neu deithwyr, trwy ddarparu ar gyfer parcio yn agos i ble y maent angen mynd.** |

| | | |
|---|---|---|
| | **2.** | **<u>Papurau Pwnc</u>**<br>**Papur Pwnc Trafnidiaeth presennol** |
| | **3.** | **<u>Polisïau</u>**<br>**Strategaeth Trafnidiaeth Cymru sy'n nodi'r fframwaith polisi gyda'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol.** |
| | **4.** | **<u>Dyraniadau Safle</u>**<br>**Amherthnasol** |
| **Papurau Presennol ac Arfaethedig** | **Dim papur pwnc ar hyn o bryd** | |

## ATODIAD 2 – THEMÂU ECONOMAIDD

| Tabl 4.2.1 | Polisi Cynllunio Cymru – Pennod 7: Cefnogi'r Economi (2016) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Mae Pennod 7 yn nodi amcanion Llywodraeth Cymru o ran datblygu economaidd cynaliadwy mewn ardaloedd trefol a gwledig ynghyd â rôl y gyfundrefn gynllunio er mwyn eu gwireddu.<br>• Ni wnaed unrhyw ddiwygiadau i Bennod 7 yn Argraffiad 8. |
| Materion Allweddol | 1. <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Dylai sylfaen tystiolaeth cadarn helpu i lunio gweledigaeth a pholisïau seiliedig ar feini prawf, a dyrannu lleoliadau penodol.<br>• Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gynnal *'Adolygiad Tir Cyflogaeth'*. |
| | 2. <u>Papurau Pwnc</u><br>• Darparu targedau o ran darparu tir ar gyfer defnydd cyflogaeth.<br>• Nodi gweledigaeth economaidd i'r ardal. |
| | 3. <u>Polisïau</u><br>• Canoli datblygu sy'n denu nifer fawr o bobl, yn cynnwys manwerthu a swyddfeydd, yng nghanol dinasoedd, trefi a phentrefi.<br>• Dylai'r gyfundrefn gynllunio, yn cynnwys polisïau cynllunio, geisio sicrhau na chyfyngir ar dwf cynnyrch a chyflogaeth yng Nghymru drwyddi draw gan ddiffyg tir at ddefnydd economaidd.<br>• Cynnwys polisïau yn ymwneud â datblygu yn y dyfodol ar safleoedd cyflogaeth presennol, i'w gwarchod rhag datblygu amhriodol. |
| | 4. <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Diogelu safleoedd presennol a darparu safleoedd newydd.<br>• Cynllunio'n strategol i ddarparu tir cyflogaeth. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • <u>CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd</u><br>(td.23-25 – Yr Economi)<br>(http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf) |

| Tabl 4.2.2 | Polisi Cynllunio Cymru – Pennod 10: Cynllunio ar gyfer Manwerthu a Chanol Trefi (2016) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Mae Pennod 10 yn amlinellu'r angen i hyrwyddo rôl unedau manwerthu yng nghanol trefi a'r angen am gynyddu hygyrchedd cynaliadwy i ganolfannau manwerthu drwy foddau trafnidiaeth cynaliadwy megis cerdded, bysiau a beicio.<br>• Ni wnaed unrhyw ddiwygiadau i Bennod 10 yn Argraffiad 8. |
| Materion Allweddol | 1. <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol sefydlu'r hierarchaeth bresennol o ganolfannau, nodi'r rhai sy'n cyflawni swyddogaethau arbenigol a bod yn glir ynglŷn â'u rôl i'r dyfodol. |
| | 2. <u>Papurau Pwnc</u><br>• Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol hefyd nodi pwysau a chyfleoedd sy'n newid a dyfeisio ymateb priodol iddynt.<br>• Wrth benderfynu pa un i ddynodi safleoedd ar gyfer datblygiadau manwerthu a hamdden, dylai awdurdodau cynllunio lleol yn y lle cyntaf ystyried a oes angen am ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer y defnyddiau hyn. |
| | 3. <u>Polisïau</u><br>• Wrth ddatblygu polisïau i adfywio canol aneddiadau sydd yno'n barod a'u gwneud yn fwy deniadol, dylai awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori â'r sector preifat a chymunedau lleol a dylent dalu sylw neilltuol i gymeriad trefi hanesyddol ac ardaloedd cadwraeth.<br>• Dylai polisïau annog amrywiaeth defnyddiau yng nghanol aneddiadau.<br>• Gall defnyddiau hamdden fod o fudd i ganolfannau tref a dosbarth a, chyda sylw digonol i ddiogelu mwynderau, gallant gyfrannu at economi fin nos lwyddiannus. |
| | 4. <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Ni ddylai ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau manwerthu gael eu caniatáu fel arfer ar dir sydd wedi'i ddynodi ar gyfer defnyddiau eraill. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • <u>Astudiaeth o Anghenion Manwerthu</u><br>Mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi comisiynu astudiaeth sy'n golygu adolygu'r angen am ddyraniadau manwerthu ar sail asesiad o berfformiad manwerthu, rhagolygon manwerthu ac asesiad o ganol trefi presennol. |

| Tabl 4.2.3 | Polisi Cynllunio Cymru – Pennod 11: Twristiaeth, Chwaraeon a Hamdden (2016) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Mae Pennod 11 yn tanlinellu'r angen i annog twristiaeth gynaliadwy.<br>• Ni wnaed unrhyw ddiwyigiadau i Bennod 11 yn Argraffiad 8. |
| Materion Allweddol | 1. <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol ystyried graddfa a dosbarthiad bras cyfleusterau a gweithgareddau presennol a darparu ar gyfer anghenion y dyfodol a sut y cânt eu rheoli mewn ffyrdd sy'n cyfyngu ar effeithiau amgylcheddol negyddol. |
| | 2. <u>Papurau Pwnc</u><br>• Ystyried goblygiadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol newidiadau tebygol yn y ddarpariaeth cyfleusterau.<br>• Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol ddarparu fframwaith ar gyfer cyfleusterau twristiaeth, chwaraeon a hamdden, gan nodi sut yr ymdrinnir yn strategol â datblygiadau o'r fath mewn ardal. |
| | 3. <u>Polisïau</u><br>• Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gynnwys polisïau clir i ddarparu, gwarchod a gwella cyfleusterau twristiaeth, chwaraeon a hamdden |
| | 4. <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Lleoli cyfleusterau sy'n creu lefelau uchel o alw teithio yng nghanol trefi.<br>• Ystyried faint o gyfle sydd i ddefnyddio tir a llwybrau segur fel parciau, parciau stribed neu lwybrau gleision mewn ardaloedd trefol.<br>• Annog defnydd amlbwrpas o fannau agored a chyfleusterau, pan fo hynny'n briodol, er mwyn eu defnyddio'n fwy effeithiol a lleihau'r angen i ddarparu cyfleusterau ychwanegol. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Môn a Gwynedd – Papur Pwnc ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd: Twristiaeth |

| Tabl 4.2.4 | Nodyn Cyngor Technegol 3: Parthau Cynllunio Syml (1996) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Mae gan awdurdodau cynllunio lleol ddyletswydd statudol i adolygu'n gyson a yw cynlluniau *'Parthau Cynllunio Syml'* yn beth dymunol yn eu hardaloedd. |
| Materion Allweddol | 1. <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Mae Parth Cynllunio Syml yn caniatáu i'r datblygwr neu'r tirfeddiannwr osgoi'r oedi a achosir wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer camau dilynol datblygiad.<br>• Nid oes cyfyngiadau ar faint Parthau Cynllunio Syml. |
| | 2. <u>Papurau Pwnc</u> |

| | |
|---|---|
| | • Gallant fod ar safle unigol neu gyfres o safleoedd sydd â nodweddion tebyg. |
| | 3. Polisïau<br>• Mae Parth Cynllunio Syml yn un ffordd y gall awdurdod helpu i sicrhau bod rhan o'i ardal yn cael ei datblygu neu'i hailddatblygu. |
| | 4. Dyraniadau Safle<br>• Gall safleoedd diwydiannol hŷn neu safleoedd eraill y mae angen eu hadfywio a safleoedd ag un perchennog fod yn arbennig o addas.<br>• Ni cheir sefydlu Parthau Cynllunio Syml mewn Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu ardaloedd cadwraeth. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar Barthau Cynllunio Syml yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. |

| Tabl 4.2.5 | Nodyn Cyngor Technegol 4: Manwerthu a Chanol Trefi (1996) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Bydd gwybodaeth am y diwydiant manwerthu yn ardal awdurdod cynllunio lleol ynghyd â gwybodaeth am sut mae'r canol trefi yn ei ardal yn gweithio yn help wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol ac ystyried ceisiadau cynllunio. |
| Materion Allweddol | 1. Sylfaen Tystiolaeth<br>• Gall gwybodaeth llinell sylfaen a data cyfres themâu ddarparu darlun o newid, a chynnig arweiniad o ran tueddiadau i'r dyfodol.<br>• Mae sicrhau cydweithrediad busnesau lleol a'u cymdeithasau i gasglu gwybodaeth a rhannu'u barn yn rhan bwysig o'r broses hon. |
| | 2. Papurau Pwnc<br>• Mae dalgylchoedd siopa'n ymestyn y tu hwnt i ffiniau awdurdodau lleol a bydd cyfnewid gwybodaeth am y ffordd y mae eu canol trefi'n gweithio yn help wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol ac ystyried ceisiadau cynllunio. |
| | 3. Polisïau<br>• Dylid cyflwyno asesiad o'r effaith gyda phob cais am ddatblygiad manwerthu sydd ag arwynebedd llawr crynswth o fwy na 2,500 $m^2$. |
| | 4. Dyraniadau Safle<br>• Wrth ddyrannu safleoedd ar gyfer manwerthu, dylid ystyried y canlynol – trosiant o ran arwynebedd llawr; arenillion masnachol; rhenti, y manwerthwyr sy'n cael eu cynrychioli, amrywiaeth defnyddiau; hygyrchedd; llif cerddwyr; ac ansawdd amgylcheddol. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Astudiaeth o Anghenion Manwerthu<br>Mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi comisiynu astudiaeth sy'n golygu adolygu'r angen am ddyraniadau manwerthu ar sail asesiad o berfformiad manwerthu, rhagolygon manwerthu ac asesiad o ganol trefi presennol. |

| Tabl 4.2.6 | Nodyn Cyngor Technegol 13: Twristiaeth (1997 ac Adolygiad Drafft 2006) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Mae'n darparu arweiniad ynglŷn â thwristiaeth a chyfraniad twristiaeth i economi Cymru a'r cyfleoedd i ddatblygiadau ar raddfa fawr a chyfleusterau priodol. |
| Materion Allweddol | 1. Sylfaen Tystiolaeth<br>• Mae twristiaeth yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau a gweithrediadau gwahanol, ond cyd-ddibynnol, sy'n gorgyffwrdd â chwaraeon, adloniant, y celfyddydau a gweithgareddau hamdden eraill.<br>• Mae'n gwneud cyfraniad mawr i economi Cymru, yn darparu cyflogaeth i amrywiaeth eang o alwedigaethau a gall ddod â buddion i economïau a chymunedau lleol. |
| | 2. Papurau Pwnc<br>• Wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol, dylai awdurdodau cynllunio lleol ymchwilio i ba mor ddigonol yw'r cyfleusterau ar gyfer carafanwyr sefydlog a theithiol a chysoni'r anghenion hyn â diogelu'r amgylchedd. |
| | 3. Polisïau<br>• Gall Cynlluniau Datblygu Lleol ddarparu canllawiau ar gyfleoedd ar gyfer prosiectau ar raddfa fawr neu brosiectau arloesol, cyfleusterau priodol i gefn gwlad neu ardaloedd dynoedig a darparu cyfleusterau mewn trefi hanesyddol a threfi glan môr.<br>• Caiff llawer o adeiladau hanesyddol eu defnyddio fel gwestai ac mae modd codi ychwanegiadau sydd wedi'u dylunio'n ofalus heb niweidio'r ffabrig hanesyddol na'r cymeriad a chadw adeilad hanesyddol mewn defnydd hyfyw.<br>• Gall datblygu gwestyau ddod â buddion i'r gymuned leol a chynnal mwynderau a gweithgareddau i drigolion a thwristiaid.<br>• Mae addasu gwestyau ar gyfer defnyddiau amgen yn gallu gwanhau gallu tref glan môr i gadw'i statws fel tref glan môr, a dylid ymdrin â'r mater hwn mewn Cynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer ardaloedd o'r fath. |
| | 4. Dyraniadau Safle<br>• Mae angen rhoi ystyriaeth arbennig i gynigion am safleoedd newydd, yn enwedig mewn Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Arfordir Treftadaeth a safleoedd o bwys cenedlaethol a rhyngwladol sydd wedi'u dynodi oherwydd eu nodweddion naturiol. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Môn a Gwynedd – Papur Pwnc ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd: Twristiaeth |

| Tabl 4.2.7 | Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd (2010) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru | |
| Diben | • Mae'r strategaeth yn nodi'r weledigaeth o ran adnewyddu'r economi yng Nghymru, ar sail cryfderau a sgiliau'i phobl a'r amgylchedd naturiol. | |
| Materion Allweddol | 1. | <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Nid yw perffomiad economi Cymru wedi cyrraedd y disgwyliadau.<br>• Y ddau ffactor sydd i gyfrif yn uniongyrchol am sefyllfa Cymru yw cyfradd gyflogaeth isel a chyflogau cyfartalog isel (sy'n adlewyrchu cynhyrchiant cyfartalog isel).<br>• Mae cysylltiad cryf rhwng cymysgedd sgiliau niweidiol, yn arbennig fod cymaint o unigolion â lefel isel o gymwysterau neu ddim cymwysterau o gwbl, a lefel isel o sgiliau neu ddim sgiliau o gwbl, a chyfradd gyflogaeth isel a chyflogau a chynhyrchiant cyfartalog isel. |
| | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Rhaid i'r gyfundrefn gynllunio gydbwyso amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo datblygu cynaliadwy. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Buddsoddi mewn seilwaith o ansawdd uchel, sy'n gynaliadwy.<br>• Sicrhau bod gan bobl, busnesau a chymunedau gysylltiadau da a mynediad at y cyfleusterau a'r gwasanaethau priodol. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Bydd Cronfa Fuddsoddi JESSICA (Cyd-gymorth Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddi Cynaliadwy mewn Ardaloedd Dinesig) yn cynorthwyo gydag adfywio ffisegol. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • <u>CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd</u><br>(td.23-25 – Yr Economi)<br>(http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf) | |

| Tabl 4.2.8 | Strategaeth Adfywio Gwynedd (2007) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Cyngor Gwynedd |
| Diben | • Nod y strategaeth hon yw gosod cyd-destun clir i ymdrechion adfywio yng Ngwynedd.<br>• Mae'r fframwaith Adfywio mewn dwy ran:<br>• <u>Rhan 1</u><br>(a) – *Strategaeth Adfywio Gwynedd* sef y ddogfen sy'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | gosod y cefndir strategol ar gyfer adfywio yng Ngwynedd;<br>(b) – *Dogfen Ategol* sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Adfywio ac sy'n cynnwys ystadegau, mapiau blaenoriaeth ac enghreifftiau o ymarfer da (sydd wrthi'n cael ei datblygu).<br>• Rhan 2<br>*Cynlluniau Ardal* sy'n rhoi cyfeiriad lleol i'r adfywio ac sydd wedi'u seilio ar wyth ardal yn y Sir (ardaloedd a fabwysiadwyd drwy'r Cynllun Datblygu Unedol) (sydd wrthi'n cael eu datblygu). |
| Materion Allweddol | 1. | Sylfaen Tystiolaeth<br>• Mae'r strategaeth hon yn cydnabod bod adfywio yn llawer mwy na datblygu'r economi lleol, ei fod yn cwmpasu ffactorau cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yn ogystal â ffactorau economaidd. |
| | 2. | Papurau Pwnc<br>• Gwasgaru ffyniant a sicrhau twf economaidd cyfartal.<br>• Ymateb i'r dirywiad yng nghanol trefi a phentrefi.<br>• Diwallu'r angen lleol am dai. |
| | 3. | Polisïau<br>• Gwasgaru ffyniant a sicrhau twf economaidd ledled Gwynedd.<br>• Datblygu gweithlu hyderus, mentrus, iach a hyblyg sydd â sgiliau o safon uchel.<br>• Diwallu'r angen lleol am dai, gan ystyried y nifer uchel o anheddau gwag yn y sir, a sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael. |
| | 4. | Dyraniadau Safle<br>• Bydd yr wyth Cynllun Ardal yn ddogfennau a fydd yn gosod y blaenoriaethau lleol a'r cyd-destun gweithredu er mwyn adfywio ardaloedd Gwynedd. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd<br>(td.23-25 – Yr Economi)<br>(http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf) | |

| Tabl 4.2.9 | Strategaeth Adfywio Economaidd Ynys Môn (2004) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Cyngor Sir Ynys Môn | |
| Diben | • Mae'r strategath hon yn darparu glasbrint i gamau gweithredu dros y deng mlynedd nesaf a fydd yn help i hybu twf economaidd ar Ynys Môn. | |
| Materion Allweddol | 1. | Sylfaen Tystiolaeth<br>• Lefelau uwch na'r cyfartaledd o anweithgarwch economaidd.<br>• Cynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen sydd ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar 64%.<br>• Mae'r rhagolygon twf economaidd i Ynys Môn yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | awgrymu y disgwylir i'r bwlch ffyniant hwn â gweddill Cymru/y DU ddirywio'n sylweddol dros y 10 mlynedd nesaf yn fras.<br>• Mae'r rhagolygon twf cyflogaeth hyd at 2010 yn dangos diffyg tyfiant o'i gymharu â thwf sylweddol yng Nghymru drwyddi draw – mae hynny'n cyfnerthu'r sylwadau a wnaed eisoes yn tynnu sylw at y strwythur diwydiannol.<br>• Poblogaeth sy'n heneiddio – mae'r mewnlif o bobl hŷn i'r ynys, sy'n dewis 'ffordd o fyw', yn dwysáu'r duedd naturiol tuag at boblogaeth sy'n heneiddio. |
| | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Economi sy'n seiliedig ar wybodaeth a defnyddio band eang.<br>• Manteisio ar y traffig sy'n teithio drwodd o Borthladd Caergybi.<br>• Datblygu ardaloedd sydd â photensial twf uchel ar hyd coridor yr A55.<br>• Cyfleoedd i wella delwedd Ynys Môn. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Darparu seilwaith, trafnidiaeth a chyfathrebu o ansawdd uchel.<br>• Cefnogi twf busnes.<br>• Creu cymunedau cryf ac arloesol.<br>• Creu marchnad lafur gystadleuol yn cael ei chynnal gan sylfaen sgiliau gref. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Datblygu safleoedd ac adeiladau i ddarparu ar gyfer anghenion busnes a'r sector cyhoeddus. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • <u>CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd</u><br>(td.23-25 – Yr Economi)<br>(http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf) | |

| Tabl 4.2.10 | Parth Menter yr Ynys Ynni (2012) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Cyngor Sir Ynys Môn, Ynys Ynni Môn, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac URS | |
| Diben | • Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r dystiolaeth i gefnogi dogfen brosbectws Parth Menter yr Ynys Ynni. | |
| Materion Allweddol | 1. | <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Mae i Ynys Môn strwythur diwydiannol bregus, gyda dibyniaeth gref ar weithgareddau cynhyrchu a thrafnidiaeth.<br>• Mae graddfa fach y sylfaen gyflogaeth ar yr Ynys yn golygu bod colli cyflogwyr mawr yn cael effaith fawr ar iechyd economaidd a chymdeithasol yr ardal.<br>• Cyfres o weithfeydd yn cau, yn bennaf Alwminiwm Môn |

| | | |
|---|---|---|
| | | a arweiniodd at golli dros 500 o swyddi, ynghyd ag eraill yn cynnwys Eaton Electrical. |
| | 2. | Papurau Pwnc<br>• Goresgyn y rhwystrau economaidd sy'n gysylltiedig â lleoliad Môn ar y cyrion. |
| | 3. | Polisïau<br>• Gweledigaeth y Rhaglen Ynys Ynni yw creu canolfan ragoriaeth a fydd yn adnabyddus drwy'r byd am gynhyrchu ynni ar sail carbon isel.<br>• Mae'r Ynys Ynni'n adeiladu ar y buddsoddiad preifat mewn gorsaf bŵer niwclear newydd arfaethedig sy'n cael ei chynllunio gan Horizon Nuclear Power, gyda chyfleoedd ynni gwynt, biomas, microgynhyrchu a defnyddiau adnewyddadwy morol ochr yn ochr â hynny. |
| | 4. | Dyraniadau Safle<br>• Gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa.<br>• Parc Biomas / Eco newydd ar hen safle Alwminiwm Môn yng Nghaergybi. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Astudiaeth i Gapasiti Ynni Adnewyddadwy Gwynedd a Môn. | |

| Tabl 4.2.11 | Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd (2010) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Cyngor Gwynedd | |
| Diben | • Diben y Cynllun hwn yw nodi'r sefyllfa ym Meirionnydd o ran cyflogaeth, yn cynnwys maint y gweithlu posibl a'r nifer o swyddi sydd ar gael, strwythur yr economi a ffyniant yr ardal – yn ogystal â nodi rhaglen waith bosibl i ymateb i'r sefyllfa. | |
| Materion Allweddol | 1. | Sylfaen Tystiolaeth<br>• Yr ardal hon sydd â'r incwm isaf yng Ngwynedd.<br>• Nid yw incwm canolrif unrhyw ward ym Meirionnydd yn ddigon i gwrdd â phrisiau tai lleol.<br>• Mae llai o swyddi ar gael nag mewn rhannau eraill o'r sir.<br>• Mae 32% o'r gyflogaeth yn y sector cyhoeddus, gyda 32% arall mewn llety ac arlwyo, a'r sectorau cyfanwerthu a manwerthu. |
| | 2. | Papurau Pwnc<br>• Amrywio a chynyddu'r nifer o swyddi sydd ar gael ym Meirionnydd.<br>• Sicrhau bod economi Meirionnydd ar hyn o bryd yn gweithio i'w llawn botensial drwy wneud y mwyaf o allu cynnyrch a busnesau'r ardal i gystadlu'n fasnachol yn y farchnad.<br>• Datblygu mathau gwahanol o safleoedd ar draws yr ardal, ynghyd â'r seilwaith cyflogaeth, gan ganolbwyntio ar adfer safleoedd tir llwyd ac adeiladau segur i ddefnydd economaidd. |
| | 3. | Polisïau |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Cau'r bwlch cyfle drwy fanteisio ar gryfderau ac adnoddau Meirionnydd i sicrhau economi arloesol, fywiog a chynaliadwy gydag amrywiaeth o gyfleoedd gwaith o ansawdd uchel. |
| | 4. | Dyraniadau Safle<br>• Datblygu safleoedd ar draws yr ardal, yn canolbwyntio ar adfer safleoedd tir llwyd ac adeiladau segur. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd<br>(td.23-25 – Yr Economi)<br>(http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf) | |

| Tabl 4.2.12 | Strategaeth Twristiaeth Gogledd Cymru (2010-2015) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru | |
| Diben | • Mae'r strategaeth yn nodi'r camau gweithredu sy'n angenrheidiol er mwyn i Ogledd Cymru wireddu'i botensial economaidd ac amgylcheddol dros y pum mlynedd nesaf. | |
| Materion Allweddol | 1. | Sylfaen Tystiolaeth<br>• Mae twristiaeth yn creu £1.8bn i economi'r Gogledd bob blwyddyn, ac amcangyfrifir ei bod yn cynnal 37,500 o swyddi a'i bod yn dyngedfennol i oroesiad llawer o fusnesau bach.<br>• Mae'r Gogledd i gyfrif am draean o dwristiaeth Cymru, gan ddenu 8m o ymwelwyr sy'n aros ac 17m amcangyfrifedig o dripiau diwrnod yn 2007.<br>• Mae'n bur dymhorol gyda 70% o'r tripiau yn digwydd yn ystod 6 mis yr haf. |
| | 2. | Papurau Pwnc<br>• Yr argyfwng economaidd presennol – Gallai weithio er lles twristiaeth ddomestig ond caiff effaith andwyol ar fuddsoddi yn y sector preifat ac ar wariant sector cyhoeddus.<br>• Efallai y bydd costau trafnidiaeth cynyddol ac ymwybyddiaeth gynyddol o effaith teithio ar newid hinsawdd yn annog pobl i aros yn agosach gartref. |
| | 3. | Polisïau<br>• Cyfleu cryfderau arbennig – diwylliant, treftadaeth, tirwedd.<br>• Buddsoddi mewn cynnyrch rhagorol – llety o safon. |
| | 4. | Dyraniadau Safle<br>• Un neu ragor o westyau brand 4 seren yn gysylltiedig â golff neu'n cael eu gyrru gan ofynion busnes.<br>• Pentref gwyliau hunanarlwyol newydd mawr gyda chyfleusterau hamdden. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Môn a Gwynedd – Papur Pwnc ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd: Twristiaeth | |

| Tabl 4.2.13 | Cynllun Rheoli Cyrchfan (2012-2016) – Y Strategaeth | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • The Tourism Company a Chyngor Sir Ynys Môn | |
| Diben | • Datganiad ar y cyd o fwriad i reoli cyrchfan dros gyfnod penodedig o amser yw Cynllun Rheoli Cyrchfan, yn diffinio rôl gwahanol randdeiliaid ac yn nodi'r camau clir y byddant yn eu cymryd. | |
| Materion Allweddol | 1. | <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Mae twristiaeth eisoes yn chwistrellu refeniw y mae mawr ei angen i'r economi leol (£233m) ac yn cynnal dros 4,000 o swyddi ar yr Ynys.<br>• Mae poblogaeth dalgylch lleol Ynys Môn yn gymharol fach gyda dim ond ychydig dros hanner miliwn o bobl yn byw o fewn awr o daith car i Borthaethwy.<br>• Mae 42% o'r holl ymwelwyr gwyliau sy'n aros ar wyliau byr, 31% ar wyliau hirach a 26% ar ail wyliau. |
| | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Ymysg y ffactorau sbarduno newid cydnabyddedig yn gysylltiedig â thwristiaeth mae:<br>• Y newid yn strwythur a ffyrdd o fyw'r boblogaeth.<br>• Pryder amgylcheddol.<br>• Newid technolegol. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Mae amcanion strategol y Cynllun Rheoli Cyrchfan fel a ganlyn:<br>  • Hyrwyddo delwedd a chryfderau arbennig Ynys Môn;<br>  • Buddsoddi mewn cynnyrch rhagorol;<br>  • Darparu profiad neilltuol i ymwelwyr;<br>  • Gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid lleol. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Datblygu llety â gwasanaeth o ansawdd uchel<br>• Datblygu pentref gwyliau / cyrchfan newydd.<br>• Atyniadau arfordirol newydd. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Môn a Gwynedd – Papur Pwnc ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd: Twristiaeth | |

| Tabl 4.2.14 | Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygiad Economaidd (2014) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru | |
| Pwrpas | • Mae'r TAN yn ymdrin yn bennaf â dosbarthiadau B1-B8 ar gyfer dibenion datblygu'r economi. | |
| Materion Allweddol | 1. | <u>Sail Tystiolaeth</u><br>• Gan fod materion economaidd yn gyffredinol ehangach na lefel awdurdod lleol, mae'n fwyaf priodol casglu tystiolaeth ar raddfa ranbarthol a lleol.<br>• Ar raddfa ranbarthol, nod yr astudiaeth yw datblygu |

<table>
<tr><td></td><td></td><td>trosolwg eang o'r holl economi er mwyn bwydo i weledigaeth a pholisïau economaidd y cynllun datblygu ar niferoedd agreg a safleoedd strategol ar gyfer ddefnyddiau dosbarth B.<br>• Dylai'r astudiaeth ystyried sefyllfa awdurdodau cynllunio lleol unigol yn y rhanbarth ac yn genedlaethol a dylai hefyd gynnwys data lefel uchel ar ddefnyddiau nad ydynt yn ddosbarth B sy'n disgyn o fewn categorïau cyflogaeth eraill er mwyn sicrhau y cyflwynir darlun o'r holl economi.<br>• Ar raddfa awdurdod lleol, dylid defnyddio'r astudiaeth i fwydo i ddatblygu polisïau manylach a datblygu penderfyniadau rheolaeth.<br>• Dylai'r sail tystiolaeth gynnwys Adolygiad Tir Cyflogaeth a ellir ei baratoi hefyd ar y cyd ag awdurdodau cynllunio eraill.</td></tr>
<tr><td></td><td>2.</td><td><u>Papurau Pwnc</u><br>• Mae PCC yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r cynllun datblygu gynnwys 'asesiad eang o newid a ragwelir i gyflogaeth yn ôl sector eang a defnydd tir'.</td></tr>
<tr><td></td><td>3.</td><td><u>Polisïau</u><br>• Er mwyn ymgorffori hyblygrwydd i ymateb i newid annisgwyl neu er mwyn ymdrin â datblygiad nad yw wedi'i ddynodi'n benodol, mae PCC yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynlluniau datblygu gynnwys polisïau yn seiliedig ar feini prawf sy'n amlinellu sut fyddai awdurdod yn ymateb i gynigion annisgwyl.<br>• Mae'r gofyn am bolisïau o'r fath yn bwysig er mwyn caniatáu hyblygrwydd ac felly mae'n agwedd arwyddocaol y dylai CDLl fynd i'r afael â hi.</td></tr>
<tr><td></td><td>4.</td><td><u>Dynodiadau Safle</u><br>• Dylai targedau tir cyflogaeth CDLl anelu i sicrhau bod cynllunio yn bodloni'r galw am dir, fel nad yw twf economaidd yn cael ei ddal yn ôl gan ddiffyg tir.<br>• Fodd bynnag, nid oed angen bodloni galw yn ardal yr awdurdod lleol ble mae'n codi.</td></tr>
<tr><td>Papurau Presennol ac Arfaethedig</td><td colspan="2">• <u>Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) CDLl ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) – Adroddiad Sgopio Arfarniad Cynaliadwyedd</u><br>(t.23-25 – Yr Economi)<br>• (<u>http://www.anglesey.gov.uk/Journals/2011/07/21/Scoping-Report.pdf</u>)</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>Tabl 4.2.15</td><td colspan="2">Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid - Fframwaith Adfywio Newydd (2013)</td></tr>
<tr><td>Cyhoeddwr</td><td colspan="2">Llywodraeth Cymru</td></tr>
<tr><td>Pwrpas</td><td colspan="2">Mae'r fframwaith yn cyflwyno cynigion ar gyfer newid sy'n adlewyrchu cyfyngiadau'r gyllideb ar draws y sector cyhoeddus a thu hwnt.</td></tr>
<tr><td>Materion Allweddol</td><td>1.</td><td><u>Sylfaen dystiolaeth</u><br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn mapio adnoddau ac</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | | ymyriadau presennol i helpu pob partner i ddeall y sefyllfa bresennol.<br>Mae angen dull gweithredu ar sail ardal i ddeall y cyfleoedd a'r anghenion. |
| | 2. | <u>Papurau pwnc</u><br><br>Tai<br><br>Gwelir tai yng nghyd-destun adfywio a arweinir gan dai, gan ddarparu elfen bwysig mewn llawer o gynlluniau adfywio.<br>Mae cael mynediad i dai fforddiadwy gweddus beth bynnag yw'r ddaliadaeth yn un o amcanion allweddol Llywodraeth Cymru.<br><br>Ardaloedd Adnewyddu Tai<br><br>Gall Ardaloedd Adnewyddu Tai gyflwyno effeithiau adfywio sylweddol, ac mae angen iddynt fod yn rhan o gynlluniau ehangach, yn arbennig yng nghanol trefi.<br><br>Seilwaith gwyrdd<br><br>Mae ein seilwaith gwyrdd yn rhoi cyfle i gefnogi'r economi werdd trwy roi cefnogaeth i adeiladu cartrefi cynaliadwy sy'n defnyddio technegau adeiladu gwyrdd.<br><br>Treftadaeth<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cryn bwyslais ar effaith adfywiol buddsoddiad treftadaeth, a rôl yr amgylchedd hanesyddol mewn cyflwyno manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pendant i gymunedau Cymru. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br><br>Adfywio a arweinir gan dai<br><br>Mae cynyddu cyflenwad ac ansawdd tai yn cyfrannu at les cymunedau ac unigolion ac yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at adfywio ardaloedd, yn arbennig drwy gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru.<br><br>Ardaloedd Menter<br><br>Ardaloedd Menter yw ardaloedd lle cynigir cymhellion penodol i ddenu busnesau a diwydiant newydd i'r prif leoliad dynodedig dan sylw. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>Ardaloedd Adfywio.<br>Ardaloedd Menter.<br>Ardaloedd Adnewyddu Tai. |
| Papurau Presennol ac | • Dim papur pwnc ar hyn o bryd. | |

| | |
|---|---|
| Arfaethedig | |

| Tabl 4.2.16 | Partneriaeth Ar Gyfer Twf: Strategaeth Twristiaeth 2013-2020 (2013) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | Llywodraeth Cymru | |
| Pwrpas | Mae'r strategaeth hon yn darparu'r sail i Lywodraeth Cymru, y diwydiant twristiaeth a sefydliadau eraill ganolbwyntio ar y blaenoriaethau a fydd yn darparu sector mwy ffyniannus a chystadleuol. | |
| Materion Allweddol | 1. | <u>Sylfaen dystiolaeth</u><br><br>Mae'r Is-gyfrif Twristiaeth Cymru (TSA) yn amcangyfrif cyfanswm gwariant twristiaeth yn 2011 o £4.5 biliwn, sy'n cynrychioli Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) Twristiaeth o £1.8 biliwn - tua 4.4% o gyfanswm GYC uniongyrchol i economi Cymru.<br>• Pan ychwanegir effeithiau anuniongyrchol, awgryma ymchwil sy'n dod i'r amlwg fod GYC Twristiaeth yn cynyddu i £2.5bn, sy'n cynrychioli 6% o'r economi gyfan. |
| | 2. | <u>Papurau pwnc</u><br><br>Mae pwyslais ar adeiladu lle:<br>• datblygu cyrchfannau y mae pobl eisiau ymweld â hwy a'u hargymell; darparu cyfleoedd i gymunedau lleol gyflwyno profiadau cofiadwy; hyrwyddo gwell cysylltiadau trafnidiaeth awyr, môr, ffyrdd a rheilffyrdd. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br><br>Fel egwyddor gyffredinol, bydd yn bwysig cefnogi a chodi ymwybyddiaeth o ffyrdd newydd ac arloesol o wella cynaliadwyedd y diwydiant.<br>• Mae twristiaeth gynaliadwy yn golygu dewis datblygu'r math o dwristiaeth sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf i ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd Cymru |
| | 4. | <u>Dyraniadau safle</u><br>• Safleoedd hamdden a/neu dwristiaeth posibl |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papur pwnc ar hyn o bryd. | |

| Tabl 4.2.17 | Strategaeth Twristiaeth Arfordirol (2008) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | Llywodraeth Cynulliad Cymru | |
| Pwrpas | Mae'r ddogfen hon yn nodi strategaeth gyffredin ar gyfer datblygu potensial twristiaeth yr arfordir mewn modd cynaliadwy tra'n ymateb i anghenion marchnadoedd twf. | |
| Materion Allweddol | 1. | Sylfaen dystiolaeth<br><br>Yn 2006, roedd gwariant sy'n gysylltiedig ag ymweliad dros nos i'r arfordir yn dod i tua £648 miliwn, bron i 40% o |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyfanswm gwariant twristiaeth yng Nghymru.<br>Mae'n denu tua 4 miliwn o deithiau aros (16.9 miliwn o nosweithiau) bob blwyddyn, ynghyd â thua 25 miliwn o deithiau diwrnod gan dwristiaid.<br>• Mae ymweliadau â'r arfordir yn cyfrif am 41% o'r holl deithiau dros nos yng Nghymru - cyfran llawer uwch nag yn Lloegr a'r Alban, lle nad yw ymweliadau i lan y môr ond yn cyfrif am 20% a 13% o deithiau. |
| | 2. | Papurau pwnc<br><br>• Os yw cyrchfannau i barhau i ddenu twristiaid sy'n aros mewn cystadleuaeth â chyrchfannau eraill, yna mae'n hanfodol bod y llety a ddarperir yn bodloni neu'n rhagori ar eu disgwyliadau. |
| | 3. | Polisïau<br>Byddai ystod ehangach o lety â gwasanaeth yn caniatáu mwy o ddewis i'r ymwelydd ac yn apelio at y farchnad gwyliau byr sy'n tyfu.<br>• Yn yr un modd, byddai llety o ansawdd uchel, ym mhob sector, yn denu ymwelwyr sydd â phŵer prynu uwch. |
| | 4. | Dyraniadau safle<br>• Safleoedd hamdden neu lety posibl. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papur pwnc ar hyn o bryd. | |

## ATODIAD 3 – THEMÂU AMGYLCHEDDOL

| Tabl 5.2.1 | Polisi Cynllunio Cymru – Pennod 5: Gwarchod a Gwella'r Dreftadaeth Naturiol a'r Arfordir (2016) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Mae Pennod 5 yn hyrwyddo gwarchod a gwella'r dreftadaeth naturiol yng Nghymru drwy'r gyfundrefn gynllunio.<br>• Diwygiwyd yn Argraffiad 8 i gynnwys cyfeiriad ar ddatblygiad Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru. |
| rion Allweddol | 1. <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Mae'r effeithiau sy'n gysylltiedig â datblygu yn gallu bod yn eang eu cwmpas a gall fod a wnelont â defnydd tir amhriodol yn ogystal â chymeriad naturiol a hanesyddol y morlin.<br>• Mae pwysau o'r tir yn cynnwys datblygiadau mawr ar yr arfordir, gwaith ar borthladdoedd a harbyrau, cyfleusterau hamdden a chwaraeon, cynhyrchu ynni gwynt neu amddiffynfeydd arfordirol.<br>• Mae pwysau o'r môr yn cynnwys gwaredu gwastraff, pysgota ar y môr, hwylio at ddibenion hamdden, chwaraeon dŵr ac ynni o'r tonnau.<br>• Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC) yn cael ei ddatblygu i facsimeiddio'r cyfleoedd o ddatblygiad cynaliadwy o'n moroedd. |
| | 2. <u>Papurau Pwnc</u><br>• Wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried cynlluniau a pholisïau eraill sydd â goblygiadau i ardaloedd arfordirol. |
| | 3. <u>Polisïau</u><br>• Dylid ystyried yr *'United Kingdom Biodiversity Action Plan'* wrth ddatblygu polisïau Cynllun Datblygu Lleol.<br>• Rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol osod y fframwaith polisi lleoliadol ar gyfer gwarchod a gwella'r dreftadaeth naturiol yng nghyd-destun strategaeth integredig ar gyfer datblygu cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, yn unol ag egwyddorion cynaliadwyedd.<br>• Rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol sefydlu fframwaith polisi lleoliadol ar gyfer gwarchod a gwella'r dreftadaeth naturiol.<br>• Dylid datblygu polisïau penodol ar gyfer ardaloedd arfordirol. |
| | 4. <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Dim ond ar gyfer datblygu y mae angen iddo fod ar yr arfordir y dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gynnig lleoliadau arfordirol. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • <u>CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd</u> (td.29- 30 – Tirwedd) (http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf) |

| Tabl 5.2.2 | Polisi Cynllunio Cymru: Pennod 6 – Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol (2016) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru | |
| Diben | • Mae Pennod 6 yn pwysleisio'r rôl bwysig sydd gan gynllunio lleol yn gwarchod a gwella'r amgylcheddol hanesyddol gan sicrhau hefyd y darperir ar gyfer anghenion y presennol mewn ffordd sensitif.<br>• Ni wnaed unrhyw newidiadau i Bennod 6 yn Argraffiad 8. | |
| Materion Allweddol | 1. | Sylfaen Tystiolaeth<br>• Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn llunio ac yn darparu archif gynhwysfawr a chronfa ddata o henebion ac adeiladau hanesyddol yng Nghymru (y *'Cofnod Henebion Cenedlaethol'*) at ddefnydd unigolion a chyrff sy'n ymwneud â deall, gwarchod a rheoli'r amgylchedd adeiledig. |
| | 2. | Papurau Pwnc<br>• Llunio cynigion i warchod a gwella ardaloedd cadwraeth.<br>• Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol sefydlu meini prawf cyson y dylid adolygu ardaloedd cadwraeth presennol a/neu newydd a'u terfynau yn eu herbyn. |
| | 3. | Polisïau<br>• Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol adlewyrchu polisïau cenedlaethol i'r amgylchedd hanesyddol a dylent hefyd gynnwys polisïau sy'n ymdrin yn benodol â'r dalgylch lleol. |
| | 4. | Dyraniadau Safle<br>• Dylai effaith cynigion datblygu neu ddyraniadau ar ardaloedd a strwythurau gwarchodedig fod yn ystyriaeth o bwys. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar rôl yr amgylchedd hanesyddol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. | |

| Tabl 5.2.3 | Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru (2013) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Cadw a Llywodraeth Cymru | |
| Diben Cyffredinol | • Mae'r strategaeth yn ymdrin mewn ffordd ffres a chyfoes â rôl a photensial yr amgylchedd hanesyddol i wireddu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol amlwg i gymunedau Cymru. | |
| Materion Allweddol | 1. | Sylfaen Tystiolaeth<br>• Mae 30,000 o adeiladau rhestredig, 4,000 o henebion rhestredig a 3 Safle Treftadaeth Byd.<br>• Mae sector yr amgylchedd hanesyddol yn cynnal dros 30,000 o swyddi ac yn cyfrannu tua £1.8 biliwn mewn cynnyrch ac £840 miliwn i Werth Ychwanegol Crynswth Cymru.<br>• Codwyd 35% o'r adeiladau yng Nghymru cyn 1919.<br>• Ymysg yr adnoddau gwybodaeth craidd mai'r Cofnod Henebion Cenedlaethol a'r Cofnodion Amgylchedd |

| | | |
|---|---|---|
| | | Hanesyddol rhanbarthol. |
| | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Mae twristiaeth yn gyfrannwr o bwys at economi Cymru, ond mae nifer o ffactorau allanol yn gallu effeithio arno, yn arbennig y tywydd.<br>• Mae'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth sy'n rhedeg tan 2014 yn darparu £19 miliwn o fuddsoddiad ar safleoedd treftadaeth ac mewn trefi ar draws yr ardal Arian Cydgyfeirio.<br>• Mae angen bellach gwneud yn fawr o effaith eiconau treftadaeth Cymru, yn cynnwys ei Safleoedd Treftadaeth Byd, a'u gwneud yn fwy amlwg. |
| | 3. | <u>Polisïau</u>.<br>• Rhaid cynnal cydbwysedd rhwng cydnabod y realiti economaidd a wynebir gan berchenogion a rheolwyr y mae angen iddynt sicrhau dyfodol cynaliadwy i asedau hanesyddol, ac ar yr un pryd sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â difrod ac esgeulustod. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Mae twristiaeth yn gyfrannwr o bwys at economi Cymru, ond mae nifer o ffactorau allanol yn gallu effeithio arno; mae twristiaeth treftadaeth yn arbennig o ddibynnol ar y tywydd.<br>• Profiadau o ansawdd uchel ar safleoedd treftadaeth eiconig – dyraniadau ar gyfer seilwaith cysylltiol (caffis, canolfannau treftadaeth, parcio, ac ati). |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar rôl yr amgylchedd hanesyddol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. | |

| Tabl 5.2.4 | Polisi Cynllunio Cymru – Pennod 13: Cyfyngu ar Risgiau Amgylcheddol a Llygredd a'u Rheoli (2016) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru | |
| Diben | • Mae Pennod 13 yn tanlinellu'r ffaith fod rheoli amgylcheddol a chynllunio yn annibynnol ar ei gilydd, ond fod y naill yn ategu'r llall.<br>• Ni wnaed unrhyw newidiadau i Bennod 13 yn Argraffiad 8. | |
| Materion Allweddol | 1. | <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd rôl allweddol yn helpu i ddeall achosion ac effeithiau llifogydd mewn dalgylch afon. |
| | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Dylai awdurdodau cynllunio lleol nodi o dan ba amgylchiadau y gallai datblygu olygu na fyddai modd rheoli risg yn effeithiol yn y dyfodol. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol sefydlu polisïau cynllunio defnydd tir sy'n cyfrannu tuag at leihau risgiau amgylcheddol a llygredd a'u rheoli.<br>• Dylai polisïau o'r fath arwain at bolisïau yn ymwneud â pherygl llifogydd a newid hinsawdd, tir halogedig a thir ansad, ansawdd aer a dŵr, llygredd sŵn a golau. |

| | |
|---|---|
| | 4. <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Adfer tir wedi'i lygru a safleoedd diffaith.<br>• Dylai Asiantaeth yr Amgylchedd a chyrff eraill sydd â buddiant roi cyngor i awdurdodau cynllunio lleol ynglŷn â materion perygl llifogydd ar safleoedd penodol. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar risgiau amgylcheddol a dileu llygredd. |

| Tabl 5.2.5 | Polisi Cynllunio Cymru - Pennod 14: Mwynau (2016) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | Llywodraeth Cymru |
| Diben | Pennod newydd sy'n cwmpasu polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu mwynau. |
| Materion Allweddol | 1. Sylfaen dystiolaeth<br><br>Yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru yn enwedig, mae banciau tir agregau yn helaeth, ond mae cyfran sylweddol o'r cronfeydd wrth gefn hyn wedi eu cynnwys mewn safleoedd a fu'n anweithredol dros gyfnod hir, na chânt o bosibl fyth eu gweithio eto.<br>• Mae'n bwysig bod dyfodol y safleoedd hyn yn cael ei benderfynu yn derfynol er mwyn rhoi sicrwydd i'r gymuned leol a sicrhau adfer hen weithfeydd ar y cyfle cyntaf. |
| | 2. Papurau pwnc<br><br>Dylai pob awdurdod cynllunio mwynau sicrhau ei fod yn gwneud cyfraniad priodol i ddiwallu anghenion lleol, rhanbarthol a'r DU am fwynau sy'n adlewyrchu natur a maint yr adnoddau yn yr ardal, yn amodol ar ystyriaethau amgylcheddol a chynllunio perthnasol perthnasol.<br>• Ar gyfer agregau, dylid gwneud hyn o dan nawdd Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd a De Cymru, sydd â rôl o ddarparu trosolwg rhanbarthol o gyflenwad a galw a thrwy'r fframwaith a ddarperir gan y Datganiadau Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau ym mhob ardal Gweithgor Agregau. |
| | 3. Polisïau<br><br>Dylai cynlluniau datblygu nodi'r strategaeth gyffredinol ar gyfer gwaith mwynau a datblygiadau cysylltiedig, gan ystyried polisïau Llywodraeth Cymru.<br>Dylent ddarparu canllaw clir ynglŷn â lle mae cloddio am fwynau yn debygol o fod yn dderbyniol a chynnwys polisïau sy'n diogelu nodweddion amgylcheddol sensitif a darparu diogelwch i'r amgylchedd ac adnoddau.<br>Dylai polisïau a chynigion gysylltu ag ardaloedd o dir y gellir eu hadnabod oni bai bod rheswm da pam nad yw hyn yn bosibl a dylai gynnwys adnoddau mwynau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, neu efallai y bydd angen eu defnyddio yn y dyfodol rhagweladwy. |

<table>
<tr><td></td><td></td><td>Mae banc tir yn stoc o ganiatâd cynllunio sydd fel arfer yn ymwneud ag echdynnu mwynau nad ydynt yn ynni, ac sy’n darparu ar gyfer parhad cynhyrchu er gwaethaf amrywiadau mewn galw.<ul><li>Dylai awdurdodau gynnwys polisïau yn eu cynlluniau datblygu ar gyfer gwaith cynnal a chadw drwy gydol cyfnod y cynllun banciau tir ar gyfer mwynau nad ydynt yn ynni y mae galw amdanynt ar hyn o bryd.</li></ul></td></tr>
<tr><td></td><td>4.</td><td>Dyraniadau safle<br><br>Safleoedd penodol<br><br>Safleoedd penodol lle mae adnoddau mwynau o arwyddocâd masnachol yn bodoli, a lle mae unrhyw gais cynllunio sy'n dod ymlaen ar gyfer y safleoedd hynny yn debygol o fod yn dderbyniol yn nhermau cynllunio.<br><br>Ardaloedd a ffefrir<br><br>Ardaloedd Ffefrir sef ardaloedd o adnoddau hysbys gyda rhywfaint o botensial a lle’n rhesymol y gellid rhagweld caniatâd cynllunio masnachol.<br><br>Ardaloedd Chwilio<br><br>Ardaloedd Chwilio lle mae'n debygol y bydd rhai safleoedd yn briodol ar gyfer cloddio am fwynau, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau economaidd ac/neu amgylcheddol.<br>Bydd Ardaloedd Chwilio yn diffinio'r meysydd cyffredinol y credir eu bod yn cynnwys adnoddau mwynol o arwyddocâd masnachol, ond y mae eu maint yn ansicr.<br><br>Ardaloedd eraill<br><br>Ni ddylid rhoi caniatâd cynllunio yn yr ardaloedd tu allan i'r rhai a nodwyd yn y cynllun ac eithrio lle mae angen y mwynau i wneud yn dda diffyg profedig mewn cyflenwad, a lle mae'r cynnig yn ei brofi amlwg yn dderbyniol yn amgylcheddol ac na fydd yn cael unrhyw effaith niweidiol ar amwynder trigolion cyfagos neu gymunedau.<br><br>Diogelu<ul><li>Dylai ardaloedd i’w diogelu gael eu nodi ar fap cynigion i a dylai polisïau ddiogelu adnoddau mwynau posibl rhag mathau eraill o ddatblygiad parhaol a fyddai naill ai’n sterileiddio neu’n llesteirio echdynnu, neu a allai lesteirio echdynnu yn y dyfodol wrth i dechnoleg newid.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Papurau Presennol ac Arfaethedig</td><td colspan="2">Papur Pwnc 11 - Mwynau<ul><li>http://www.anglesey.gov.uk/Journals/2015/02/17/e/f/k/Topic-Paper-11-Minerals-February-2015.pdf</li></ul></td></tr>
</table>

| Tabl 5.2.6 | Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn darparu cyngor ar sut y dylai'r gyfundrefn gynllunio helpu i warchod a chyfoethogi bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol. |
| Materion Allweddol | 1. <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Ymysg y ddeddfwriaeth sy'n neilltuol o berthnasol i warchod a chyfoethogi safleoedd bywyd gwyllt dynodedig mae:<br>• Y Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad (1949);<br>• Y Ddeddf Cefn Gwlad (1968);<br>• Y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981);<br>• Deddf Diogelu'r Amgylchedd (1990);<br>• Y Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) (1994) (y Rheoliadau Cynefinoedd) (fel y'u diwygiwyd);<br>• Y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000). |
| | 2. <u>Papurau Pwnc</u><br>• Dylid ystyried defnyddio astudiaethau capasiti amgylcheddol.<br>• Dylid tynnu sylw at waith monitro rhywogaethau a chynefinoedd.<br>• Dylai awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio systemau monitro priodol i asesu effeithiolrwydd Cynlluniau Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Ategol. |
| | 3. <u>Polisïau</u><br>• Cynnwys polisïau strategol a manwl yn ymwneud â rhywogaethau a chynefinoedd. |
| | 4. <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Dylid gweithredu amcanion y Strategaeth Gymunedol berthnasol a Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol wrth ddyrannu safleoedd. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • <u>CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd</u><br>(td.12-14 – Bioamrywiaeth)<br>(<u>http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf</u>) |

| Tabl 5.2.7 | Nodyn Cyngor Technegol 10: Gorchmynion Cadw Coed (1997) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Mae'n darparu canllawiau ar warchod coed a choetiroedd drwy defnyddio *'Gorchmynion Cadw Coed'*, eu cwmpas a'r defnydd o amodau. |
| Materion Allweddol | 1. <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Prif effaith Gorchymyn Cadw Coed yw gwahardd |

| | | |
|---|---|---|
| | | cwympo, dadwreiddio, topio, tocio, difrodi'n fwriadol neu ddinistrio'n fwriadol goeden neu goed heb ganiatâd yr awdurdod cynllunio lleol.<br>• NI ellir rhoi Gorchymyn Cadw Coed ar lwyni, prysglwyni na gwrychoedd.<br>• Dim ond gyda chaniatâd yr awdurdod priodol y ceir defnyddio Gorchymyn Cadw Coed i warchod coed ar dir y Goron<br>• Nid yw Gorchymyn Cadw Coed yn rhwymo'r Goron. |
| | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Dylai awdurdodau adolygu'u Gorchmynion Cadw Coed yn rheolaidd i nodi'r rhai y mae modd eu hamrywio neu'i dirymu. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Dylai polisïau Cynllun Datblygu Lleol gynnwys, lle mae hynny'n briodol, fesurau i warchod coed a darparu ar gyfer plannu coed a thirweddu. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Mae effaith cynigion cynllunio ar goed sydd wedi'u gwarchod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • | <u>CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd</u><br>(td.29- 30 – Tirwedd)<br>(http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf) |

| Tabl 5.2.8 | Nodyn Cyngor Technegol 14: Cynllunio'r Arfordir (1998) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • | Llywodraeth Cymru |
| Diben | • | Mae'n darparu canllawiau ar faterion cynllunio ar hyd y glannau ac asesiadau o'r amodau ffisegol a biolegol ar yr arfordir. |
| Materion Allweddol | 1. | <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Darn o dir a môr cyfagos yr ystyrir eu bod yn gyd-ddibynnol yw parth yr arfordir.<br>• At ddibenion cynllunio defnydd tir, y marc distyll cymedrig yw terfyn parth yr arfordir ar ochr y môr fel rheol. |
| | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Mater i bob awdurdod cynllunio lleol yw ystyried a diffinio'r parth arfordirol mwyaf priodol yn ei ardal. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Dylai polisïau mewn Cynlluniau Datblygu Lleol i ddatblygu marinas a chyfleusterau eraill gael eu seilio ar asesiad o gapasiti'r amgylchedd lleol.<br>• Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol sicrhau cyd-drefnu rhwng cynllunio defnydd tir a strategaethau amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Dylai polisïau Cynlluniau Datblygu Lleol annog ailddefnyddio dociau segur fel rhan o adfywio ardal. |

| | |
|---|---|
| **Papurau Presennol ac Arfaethedig** | • **CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd**<br>**(td.29- 30 – Tirwedd)**<br>**(http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf)** |

| **Tabl 5.2.9** | **Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (2004)** |
|---|---|
| **Cyhoeddwr** | • **Llywodraeth Cymru** |
| **Diben** | • **Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn cynghori y dylid bod yn ofalus o safbwynt datblygu mewn ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd drwy sefydlu fframwaith o ragofalon a fydd yn gosod canllaw i benderfyniadau.** |
| **Materion Allweddol** | **1. Sylfaen Tystiolaeth**<br>• **Mae mapiau cyngor datblygu yn dangos cyfyngiadau ar sail llifogydd, a chaiff y rhain eu priodoli i wahanol barthau cynllunio:**<br>• **Parth A – ystyrir nad oes fawr o risg neu ddim risg o lifogydd afonol neu lifogydd llanw/arfordirol.**<br>• **Parth B – ardaloedd y gwyddys eu bod wedi cael llifogydd yn y gorffennol, fel y dengys dyddodion.**<br>• **Parth C – yn cyfateb i neu'n fwy na 0.1%, afonol, llanw neu arfordirol.**<br>• **Parth C1 – ardaloedd wedi'u datblygu o orlifdir sydd â seilwaith sylweddol.**<br>• **Parth C2 – dim ond datblygu sy'n llai agored i niwed y dylid ei ystyried.** |
| | **2. Papurau Pwnc**<br>• **Cyfeirio datblygu oddi wrth ardaloedd llifogydd risg uchel.** |
| | **3. Polisïau**<br>• **Gwasanaethau Brys: Angen iddynt fod yn weithredol a hygyrch bob amser.**<br>• **Datblygiadau Hynod o Agored i Niwed: Datblygiadau yw'r rhain lle mai cyfyngedig yw gallu'r deiliaid i benderfynu a ydynt am dderbyn y risg i fywyd ac eiddo sy'n gysylltiedig â llifogydd.**<br>• **Datblygiadau Llai Agored i Niwed: Datblygiadau yw'r rhain lle mae gallu'r deiliaid i benderfynu a ydynt am dderbyn y cyfryw risg yn fwy nag yn y categori hynod o agored i niwed.**<br>• **Dylid cyfeirio datblygu newydd o Barth C a thuag at dir addas ym Mharth A, neu fel arall Barth B.**<br>• **Ni ddylid caniatáu datblygiadau hynod o agored i niwed a gwasanaethau brys ym Mharth C.**<br>• **Dim ond os bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu fod modd eu cyfiawnhau yn y lleoliad hwnnw y dylid caniatáu pob math arall o ddatblygu newydd ym Mharthau C1 ac C2.** |
| | **4. Dyraniadau Safle** |

| | |
|---|---|
| | • Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gynnwys polisïau ar gyfer safleoedd penodol a chynigion ar ddatblygu a pherygl o lifogydd. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar ddatblygu a pherygl o lifogydd. |

| Tabl 5.2.10 | Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff (2001) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn darparu cyngor ynglŷn â sut y dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu tuag at reoli gwastraff yn gynaliadwy. |
| Materion Allweddol | 1. <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Mae gwastraff yn fater tyngedfennol bwysig mewn cymdeithas sy'n ymdrechu i fod yn gynaliadwy.<br>• Mae gwastraff yn derm eang ei gwmpas sy'n cynnwys y rhan fwyaf o ddefnyddiau nad yw pobl eu heisiau ac yn ôl y diffiniad yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 mae'n cynnwys:<br>• unrhyw sylwedd sy'n cynnwys defnydd sgrap neu elifion neu wastraff dros ben yn deillio o unrhyw broses;<br>• unrhyw sylwedd neu ddefnydd y mae angen ei waredu am ei fod wedi torri, wedi treulio, wedi cael ei halogi neu wedi'i ddifetha fel arall. |
| | 2. <u>Papurau Pwnc</u><br>• Lleihau – Mae angen i gymdeithas gynhyrchu llai o wastraff.<br>• Ailddefnyddio – Dylai defnyddiau a chynnyrch sydd wedi cyflawni eu prif ddefnydd, ond y mae modd eu trin yn syml fel y gellir ailadrodd y swyddogaeth honno'n ddiogel gael eu trin felly (e.e. poteli llefrith).<br>• Adfer – Mae adfer yn opsiwn amgylcheddol amhrisiadwy, gall leihau'r galw am agregau cynradd neu ynni o danwydd ffosil. Gellir adfer defnyddiau crai drwy ailgylchu neu gompostio defnyddiau a dylid darparu pob cyfle posibl i adfer cymaint â phosibl o ddefnyddiau er mwyn cyrraedd targedau heriol yr UE. Adfer Ynni – Ynni wedi'i storio mewn adnoddau gwastraff yw'r opsiwn nesaf yn yr hierarchaeth gwastraff. Lle nad yw'n bosibl adfer defnyddiau, gellir defnyddio'r adnodd gwastraff i adfer ynni. Gwaredu – Dylai effaith lleihau gwastraff, ailddefnyddio ac adfer arwain at leihad yn swmp y gwastraff sydd ar ôl i'w waredu. |
| | 3. <u>Polisïau</u><br>• Dylai'r gyfundrefn gynllunio:<br>• ddarparu fframwaith sy'n golygu bod modd darparu ar gyfer cyfleusterau rheoli adnoddau gwastraff;<br>• helpu i ddiwallu anghenion busnes ac annog cystadleurwydd; |

| | |
|---|---|
| | • annog rheoli gwastraff mewn modd sensitif;<br>• ystyried yr angen i warchod ardaloedd dynodedig;<br>• ystyried yr angen i warchod mwynderau cymunedau;<br>• lleihau effeithiau amgylcheddol andwyol rheoli gwastraff;<br>• ystyried pa gyfleusterau newydd y gallai fod eu hangen;<br>• sicrhau bod cyfleoedd i ymgorffori cyfleusterau ailddefnyddio/ailgylchu mewn datblygiadau newydd yn cael eu hystyried yn briodol. |
| | 4. <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Bydd y rhwydwaith rheoli gwastraff yn cynnwys cyfleusterau sy'n amrywio'n fawr yn ôl maint, nodweddion gweithredol ac effeithiau amgylcheddol posibl.<br>• Mae'r rhain yn cynnwys cyfleusterau ailddefnyddio; cyfleusterau casglu gwastraff; cyfleusterau didoli gwastraff ac ailgylchu ac adfer; cyfleusterau compostio; gorsafoedd trosglwyddo gwastraff; cyfleusterau troi gwastraff yn ynni; llosgyddion; a gweithrediadau tirlenwi neu dirgodi. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • <u>CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd</u> (td.30- 32 – Priddoedd, Mwynau a Gwastraff) (http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf) |

| Tabl 5.2.11 | Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer Cymru (2010) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Diben | Mae'r strategaeth a chynlluniau cyflenwi yn cadarnhau'r meysydd lle bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithredu i leihau allyriadau a galluogi ymaddasu effeithiol yng Nghymru. |
| Materion Allweddol | 1. Sylfaen dystiolaeth<br><br>Lefelau'r môr yn codi<br><br>Disgwylir i lefelau'r môr godi o 20-60cm erbyn diwedd y ganrif, wrth i'r cefnforoedd ehangu oherwydd tymheredd yn codi a thoddi capiau a rhewlifoedd rhew.<br><br>Llifogydd<br><br>• Mae llifogydd yn debygol o fod o arwyddocâd mewn llawer o wledydd - yn enwedig gorlifoedd sydyn sy'n deillio o ddigwyddiadau gwlybaniaeth mwy dwys. |
| | 2. Papurau pwnc<br>Bydd ymdrin â newid yn yr hinsawdd angen dull gofodol gwahaniaethol sy'n hyblyg ac yn adlewyrchu'r cyfleoedd a'r heriau mewn gwahanol rannau o Gymru.<br>• Bydd Rhanbarthau Carbon Isel yn rhoi ffocws ar gyfer |

| | | |
|---|---|---|
| | | gweithredu ar newid yn yr hinsawdd ledled Cymru ym mhob un o ardaloedd y Cynllun Gofodol a byddwn yn sicrhau bod lleihau allyriadau ac ymaddasu yn ffocws allweddol yn y strategaeth gyffredinol i bob ardal. |
| | 3. | Polisïau<br><br>• Byddwn yn sicrhau bod ein polisïau hinsawdd yn adnabod ac yn ymdrin ag effaith ar yr amgylchedd naturiol. |
| | 4. | Dyraniadau safle<br>• Ardaloedd lle mae ein hadnoddau naturiol, patrwm rheoli tir neu strwythur economaidd yn ein galluogi i wneud cyfraniad sylweddol at leihau allyriadau ac addasiad, er enghraifft cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gan gynnwys ynni morol ac ynni gwynt; a rheoli tir, amaethyddiaeth a rheoli carbon pridd. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | Dim papur pwnc ar hyn o bryd. | |

| Tabl 5.2.12 | Tuag at Ddyfodol Diwastraff (2010) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | Llywodraeth Cynulliad Cymru | |
| Diben | Mae Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adeiladu ar y llwyddiannau a gafwyd trwy Yn Gall gyda Gwastraff - Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru (2002). | |
| Materion Allweddol | 1. | Sylfaen dystiolaeth<br><br>Yn achos gwastraff trefol, mae'r hyn a gyflawnwyd yn cynnwys:<br><br>• Lleihad mewn gwastraff o un flwyddyn i'r llall ers 2004/05 a chynnydd sylweddol ym maint y gwastraff trefol sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio. |
| | 2. | Papurau pwnc<br><br>Y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff a'r Hierarchaeth Wastraff:<br><br>Atal<br>Paratoi i ailddefnyddio<br>Ailgylchu<br>Adferiad arall – e.e. ad-ennill ynni, a<br>• Gwaredu |
| | 3. | Polisïau<br><br>Egwyddorion allweddol:<br><br>Diogelu iechyd pobl a'r amgylchedd<br>Defnyddio'r hierarchaeth wastraff |

| | | |
|---|---|---|
| | | Y Llygrwr sy'n Talu<br>Cyfrifoldeb cynhyrchydd estynedig<br>Egwyddor agosrwydd<br>• Egwyddor ragofalus |
| | 4. | Dyraniadau safle<br>• Mae TAN 21 yn darparu y dylai awdurdodau cynllunio lleol, ymhlith pethau eraill, nodi yn eu dogfennau cynllun datblygu safleoedd ac ardaloedd addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd neu well at ddiben anghenion rheoli gwastraff eu hardaloedd. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • <u>CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd</u> (td.30- 32 – Priddoedd, Mwynau a Gwastraff) (http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf) | |

| Tabl 5.2.13 | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru - Drafft Cychwynnol (2015) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | Llywodraeth Cymru | |
| Pwrpas | • Diben y cynllun yw arwain datblygu cynaliadwy'r ardal forol drwy reoli adnoddau naturiol morol yn gynaliadwy.<br>• Mae'n ymdrin â dyfroedd glannau (hyd at 12 milltir forol) a dyfroedd môr mawr (y tu hwnt i 12 milltir forol) Cymru mewn un ddogfen.<br>• O ran y tir, mae'r cynllun hwn yn cwmpasu hyd at benllanw. | |
| Materion Allweddol | 1. | <u>Sail Tystiolaeth</u><br>• Mae gan Cymru tua 32,000 km2 o fôr, yn ogystal â 21,000 km2 o dir wedi'i amgylchynu gan 2,120 km o arfordir.<br>• Mae ardal forol Cymru yn fwy na'i hardal tir ac mae'n cynnwys adnoddau amrywiol a gwerthfawr sy'n cynnig cyfleoedd economaidd a chymdeithasol sylweddol ac sy'n cefnogi ein llesiant yn ogystal â llesiant cenedlaethau'r dyfodol. |
| | 2. | <u>Papurau Testun</u><br>• Mae'r angen i reoli'r rhyngwyneb tir-môr yn codi o'r gofynion cynyddol ar yr ardal forol.<br>• Gall penderfyniadau ar y tir ac yn yr ardal forol gael effaith ar draws pellter sylweddol, tra bod gan y rhan fwyaf o weithgareddau yn yr amgylchedd morol gydran neu oblygiadau ar y tir hefyd.<br>• Rhaid i gynllunio morol fynd i'r afael â'r cydberthnasau cymhleth hyn.<br>• Yn ôl y Gyfarwyddeb ar gyfer Cynllunio Gofodol Morol, rhaid i'r broses cynllunio morol ystyried rhyngweithiadau tir-môr er mwyn hyrwyddo cydlyniad â phrosesau eraill a hyrwyddo defnydd cynaliadwy o ofod morwrol.<br>• Mae'r cynllun hwn yn mynd law yn llaw â systemau cynllunio eraill, ac yn rhyngweithio â hwy, yn cynnwys system cynllunio defnydd tir daearol ynghyd â phrosesau cynllunio a rheoli eraill sy'n ymwneud â'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | **arfordir a'r moroedd.** |
| | **3.** | **<u>Polisïau</u>**<br>• **Mae gan awdurdodau cynllunio lleol rôl allweddol yn y system cynllunio morol a rhaid iddynt fod wedi'u cynnwys drwy gydol yr amser er mwyn integreiddio rheolaeth o'r môr a'r tir ar yr arfordir.** |
| | **4.** | **<u>Dynodiadau Safle</u>**<br>• **Dylid annog cyfleoedd datblygu economaidd arfordirol priodol ble bo hynny'n bosib.** |
| **Papurau Presennol ac Arfaethedig** | • **Dim papur pwnc ar hyn o bryd.** | |

## ATODIAD 4 – THEMÂU CYMDEITHASOL

| Tabl 6.2.1 | Polisi Cynllunio Cymru – Pennod 9: Tai (2016) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Mae Pennod 9 yn nodi rôl awdurdodau cynllunio lleol mewn datblygiadau preswyl. |
| Materion Allweddol | 1. Sylfaen Tystiolaeth<br>• *'Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol'* sy'n darparu'r sylfaen tystiolaeth yn gefn i bolisïau ar ddarparu tai fforddiadwy.<br>• Diwygiwyd yn Argraffiad 8 i bwysleisio'n fwy penodol, pan fo awdurdodau cynllunio lleol yn asesu eu gofynion tai a chynllunio'r ddarpariaeth o dai newydd, y dylid ystyried tystiolaeth leol a materion allweddol eraill fel yr hyn y mae'r cynllun yn ceisio'i gyflawni, ochr yn ochr ag Amcanestyniadau Aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru. Hefyd ceir canllawiau pellach ar asesu elfennau amrywiol yr Amcanestyniadau ac ystyried p'un a ydynt yn briodol ar gyfer eu hardal. |
| | 2. Papurau Pwnc<br>• Sicrhau bod digon o dir ar gael i ddarparu 5 mlynedd o gyflenwad o dir.<br>• Dylai ystod o dystiolaeth, yn cynnwys amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru o aelwydydd a chanlyniadau'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, fod yn sail i fwrw cyfrif o'r gofyniad tai (yn dai ar gyfer y farchnad a thai fforddiadwy) yn ardal pob awdurdod cynllunio lleol. |
| | 3. Polisïau<br>• Mae angen cymuned am dai fforddiadwy yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.<br>• Dylai polisïau Cynllun Datblygu Lleol adlewyrchu canfyddiadau'r dystiolaeth a gasglwyd. |
| | 4. Dyraniadau Safle<br>• Dylid nodi lleoliad safleoedd posibl ar gyfer datblygu tai yn y Cynllun Datblygu Lleol. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Papur Pwnc – Poblogaeth a Thai (http://www.anglesey.gov.uk/Journals/2012/07/25/Topic-Paper---Population-and-Housing.pdf)<br>• CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd (td.26-28 – Tai) (http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf)<br>• Papur Pwnc Poblogaeth a Thai<br>Papur sylfaen tystiolaeth ar faterion tai yn ardaloedd y cynllun.<br>• Astudiaeth Capasiti Trefol<br>Mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi gwneud gwaith maes i ganfod pa safleoedd a allai fod ar gael lle byddai'n |

| | |
|---|---|
| | bosibl cynnig cyfleoedd datblygu. |

| Tabl 6.2.2 | Nodyn Cyngor Technegol 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (2015) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Diben yr astudiaethau hyn yw monitro'r ddarpariaeth o dai ar gyfer y farchnad a thai fforddiadwy. |
| Materion Allweddol | 1. <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Mae Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn darparu rhan bwysig o'r sylfaen tystiolaeth wrth baratoi cynllun.<br>• Maent yn darparu gwybodaeth am gyfraddau codi tai blaenorol a'r cyflenwad cyfredol o dir ar gyfer tai fel mewnbynnau i strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol a'r prosesau datblygu polisi.<br>• Fel rhan o'r broses Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol gynnal cofnodion cywir am y tai a gwblhawyd sy'n nodi'r nifer o unedau tai ar gyfer y farchnad a'r unedau fforddiadwy a godwyd bob blwyddyn. |
| | 2. <u>Papurau Pwnc</u><br>• Dylai awdurdodau cynllunio lleol integreiddio'r Cynllun Datblygu Lleol a Chyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai. |
| | 3. <u>Polisïau</u><br>• Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol sicrhau bod digon o dir ar gael mewn gwirionedd i ddarparu 5 mlynedd o gyflenwad tir ar gyfer tai. |
| | 4. <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Gall safleoedd islaw'r trothwy 5 neu 10 uned, h.y. safleoedd bach, wneud cyfraniad sylweddol tuag at y ddarpariaeth tai. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • <u>Cyd-astudiaeth Flynyddol Argaeledd Tir ar gyfer Tai</u><br>Ymgymerir â'r rhain yn flynyddol ac maent yn monitro'r holl dir sydd un ai wedi'i ddyrannu yn y cynllun datblygu mabwysiedig neu sydd â chaniatâd cynllunio cyfredol i dai. |

| Tabl 6.2.3 | Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Mae'n darparu arweiniad ar fonitro'r ddarpariaeth o dai ar gyfer y farchnad a thai fforddiadwy. |
| Materion Allweddol | 1. <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Monitro'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn erbyn y targed (drwy Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol) a, lle mae rhaid, gweithredu i sicrhau y cyrhaeddir y targed. |
| | 2. <u>Papurau Pwnc</u><br>• Rhaid i awdurdodau tai a chynllunio weithio gyda'i gilydd i greu'r fframwaith polisi o ran darparu tai |

| | | |
|---|---|---|
| | | ffforddiadwy. |
| | 3. | **Polisïau**<br>• Dylai'r rheini sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio ddangos a chyfiawnhau sut y maent wedi penderfynu ar amrywiaeth benodol o dai, gan dalu sylw i bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol.<br>• Rhaid bod â pholisi ar safleoedd eithriedig gwledig er mwyn helpu i ddarparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig.<br>• Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol nodi yn eu Cynllun Datblygu Lleol eu diffiniad o 'angen lleol' am dai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig. |
| | 4. | **Dyraniadau Safle**<br>• Dylai'r tai fforddiadwy a ddarperir ar safleoedd o'r fath ddiwallu anghenion pobl leol am byth a dylent gyfrif at nifer cyffredinol y tai a ddarperir. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | | • **Asesiad o Hyfywedd Tai Fforddiadwy**<br>Rhaid i gynghorau sicrhau bod unrhyw dargedau neu drothwyon tai fforddiadwy a bennir yn hyfyw i wneud yn siŵr nad yw tai fforddiadwy yn cael effaith niweidiol ar ddarparu cartrefi. Mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi comisiynu astudiaeth. |

| Tabl 6.2.4 | | Nodyn Cyngor Technegol 20 Drafft: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2013) |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | | • Darparu canllawiau ar gynnal yr iaith Gymraeg wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol a phenderfynu ar geisiadau cynllunio. |
| Materion Allweddol | 1. | **Sylfaen Tystiolaeth**<br>• Dylai fod gan awdurdodau cynllunio lleol lawer o ddata am y Gymraeg.<br>• Dylai awdurdodau cynllunio lleol sefydlu a oes ganddynt gymunedau lle mae'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd y gymdeithas. |
| | 2. | **Papurau Pwnc**<br>• Lle mae'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd y gymdeithas mewn ardal, dylai hynny gael ei adlewyrchu yn y weledigaeth ofodol a'r amcanion.<br>• Dylid hefyd datblygu Arfarniad o Gynaliadwyedd y Gymraeg ac amcanion o dan Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.<br>• Rhaid ystyried Strategaethau Cymunedol ac unrhyw gynlluniau eraill fel sy'n ofynnol yn ôl Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.<br>• Dylai'r Gymraeg ddylanwadu ar opsiynau strategol a pholisi lle mae'n rhan arwyddocaol o fywyd cymdeithasol ardal. |
| | 3. | **Polisïau**<br>• Mae'n hanfodol fod y system cynllunio defnydd tir yn ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg.<br>• Ni ddylai polisïau cynllunio reoli deiliadaeth tai ar sail |

| | | |
|---|---|---|
| | | iaith. |
| | 4. | Dyraniadau Safle<br>• Gall ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg ddylanwadu ar y lefel o dwf a'r dosbarthiad gofodol mewn ardal.<br>• Dylid ystyried buddiannau'r Gymraeg wrth bennu sut mae datblygiadau tai i gael eu gwasgaru a'u datblygu dros gyfnod o amser. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd – Adroddiad Cwmpasu (td.21-22 – Treftadaeth Ddiwylliannol) (http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf)<br>• CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2016): Papur Pwnc ar y Gymraeg a Diwylliant yn cynnwys y Fethodoleg Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (http://www.anglesey.gov.uk/Journals/2012/07/10/Language-Impact-Assessment-Methodology-full.pdf) | |

| Tabl 6.2.5 | Cartrefi Gwell i Bobl Cymru – Strategaeth Dai Genedlaethol Cymru (2001) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru | |
| Diben | • Mae'r strategaeth yn dwyn ynghyd fwriadau gwahanol strategaethau ar ddiwallu anghenion tai, digartrefedd, a gwasanaethau cymorth yn gysylltiedig â thai. | |
| Materion Allweddol | 1. | Sylfaen Tystiolaeth<br>• Mae'r galw am dai yn dal yn fwy na'r cyflenwad, ac mae angen diwallu'r galw drwy godi tai newydd ac ailddechrau defnyddio tai sy'n wag. |
| | 2. | Papurau Pwnc<br>• Darparu rhagor o dai o'r math cywir a chynnig mwy o ddewis.<br>• Gwella cartrefi a chymunedau, yn cynnwys effeithlonrwydd ynni cartrefi newydd a chartrefi presennol. |
| | 3. | Polisïau<br>• Gwella ansawdd a safon yr holl dai presennol a lleoedd byw cysylltiol, yn cynnwys effeithlonrwydd ynni.<br>• Rhoi mwy o ddewis i bobl drwy ehangu'r dewis o gartrefi a threfniadau tenantiaeth fel eu bod yn gweddu i incwm ac amgylchiadau pobl. |
| | 4. | Dyraniadau Safle<br>• Bydd y camau a nodir yn y ddogfen hon yn cynyddu'r nifer o dai fforddiadwy sydd ar gael i'w prynu neu'u rhentu, yn y lleoliad iawn ac yn benodol mewn ardaloedd gwledig. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2016): Papur Pwnc ar Boblogaeth a Thai (http://www.anglesey.gov.uk/Journals/2012/07/25/Topic-Paper---Population-and-Housing.pdf)<br>• CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol | |

| | |
|---|---|
| | Strategol – Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd (td.26-28 – Tai) (http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf)<br>• Cyd-astudiaeth Flynyddol Argaeledd Tir ar gyfer Tai<br>Ymgymerir â'r rhain yn flynyddol ac maent yn monitro'r holl dir sydd un ai wedi'i ddyrannu yn y cynllun datblygu mabwysiedig neu sydd â chaniatâd cynllunio cyfredol i dai.<br>• Astudiaeth Capasiti Trefol<br>Mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi gwneud gwaith maes i ganfod pa safleoedd a allai fod ar gael lle byddai'n bosibl cynnig cyfleoedd datblygu. |

| Tabl 6.2.6 | Dringo'n Uwch – Strategaeth ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol (2005) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru | |
| Diben | • Diben y strategaeth hon yw gwneud yn fawr o'r cyfraniad y gall chwaraeon a gweithgarwch corfforol ei wneud i les yng Nghymru. | |
| Materion Allweddol | 1. | Sylfaen Tystiolaeth<br>• Mae'r cyfraddau gordewdra mewn oedolion a phlant fel ei gilydd yn cynyddu'n arw a hynny'n golygu costau uwch i'r gwasanaeth iechyd. |
| | 2. | Papurau Pwnc<br>• Mae angen i Gymru fod yn fwy egnïol yn gorfforol i fod yn genedl iachach.<br>• Mae ar Gymru angen dinasyddion iach er mwyn sicrhau ffyniant tymor hir. |
| | 3. | Polisïau<br>• Gwneud yn fawr o effaith economaidd chwaraeon a gweithgarwch corfforol.<br>• Defnyddio chwaraeon a gweithgarwch corfforol i ddatblygu a gwella cymunedau byw.<br>• Gwireddu'r synergedd rhwng chwaraeon a'r amgylchedd naturiol. |
| | 4. | Dyraniadau Safle<br>• Bydd angen buddsoddi'n arloesol yng nghyfleusterau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol a'u had-drefnu i ddiwallu anghenion chwaraeon a gweithgarwch corfforol sy'n esblygu. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar alluogi chwaraeon a gweithgareddau corfforol a darparu tir yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. | |

| Tabl 6.2.7 | Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben Cyffredinol | • Datganiad bras o egwyddorion yw'r polisi hwn; nid yw'n pennu'n fanwl sut y dylai darpariaeth chwarae gael ei rhoi ar |

| | | |
|---|---|---|
| | waith. | |
| **Materion Allweddol** | 1. | <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Mae'r datganiad wedi'i seilio ar yr egwyddor fod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a gadarnhawyd gan Lywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 1991, yn cydnabod pwysigrwydd chwarae i blentyn. |
| | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i annog creu darpariaeth chwarae o ansawdd uchel, sy'n 'gwneud iawn', a honno'n briodol, yn lleol, yn symbylol ac yn heriol, i holl blant Cymru. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Dylai'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel o lywodraeth gynnwys ystyried effaith y penderfyniadau hynny ar y cyfleoedd chwarae i blant. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Mae chwarae mor dyngedfennol bwysig i blant er mwyn iddynt ddatblygu'u sgiliau corfforol, cymdeithasol, meddyliol, emosiynol a chreadigol, fel y dylai cymdeithas geisio pob cyfle i'w gefnogi a chreu amgylchedd sy'n ei feithrin. |
| **Papurau Presennol ac Arfaethedig** | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar alluogi cyfleoedd chwaraeon a darparu tir yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. | |

| **Tabl 6.2.8** | **Teithio at Ddyfodol Gwell – Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflawni yn ymwneud â Sipsiwn a Theithwyr (2012)** | |
|---|---|---|
| **Cyhoeddwr** | • Llywodraeth Cymru | |
| **Diben** | • Nod y cynllun yw gwireddu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r gymuned sipsiwn a theithwyr. | |
| **Materion Allweddol** | 1. | <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Nid oes data dibynadwy ar gael am y nifer o Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru.<br>• Mae nifer o resymau am hyn:<br>  • nid yw'r Cyfrif Carafanau Chwe Misol ond yn cyfrif carafanau, nid yr unigolion sy'n byw ynddynt;<br>  • nid yw Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn llety sefydlog bob amser yn nodi eu hunain fel Sipsiwn neu Deithwyr gan eu bod yn ofni gwahaniaethu yn eu herbyn;<br>  • mae lefelau llythrennedd isel yn golygu nad yw nifer fawr o'r gymuned yn gallu cymryd rhan yn y cyfrifiad. |
| | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar safleoedd sydd heb gael caniatâd. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Sicrhau bod gan Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru ddarpariaeth llety briodol.<br>• Lleihau'r nifer o wersylloedd sydd heb ganiatâd a lleihau'r tensiynau rhwng Sipsiwn a Theithwyr a |

| | | |
|---|---|---|
| | | chymunedau sefydlog oherwydd gwersylloedd heb ganiatâd. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Bydd darparu safleoedd priodol i Sipsiwn a Theithwyr yn cael effaith lesol ar allu'r gymuned i fanteisio ar wasanaethau hanfodol eraill. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar safleoedd sipsiwn a theithwyr. | |

| Tabl 6.2.9 | Adroddiad Gweinidogion Cymru: Cydraddoldeb i Bobl Anabl (2009) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru | |
| Diben | • Mae'r adroddiad yn amlinellu gofynion Rheoliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 a'u goblygiadau i wasanaethau cyhoeddus. | |
| Materion Allweddol | 1. | <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Economaidd Weithgar 42% o bobl anabl (2007)<br>• Economaidd Anweithgar 58% o bobl anabl (2007) |
| | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn gyrru diwylliant o newid cadarnhaol yn y sector cyhoeddus gan ddileu'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl anabl ac eraill.<br>• Cymryd camau i ystyried anableddau pobl anabl. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Efallai y bydd angen gwerthuso safleoedd o ran eu hygyrchedd i bobl anabl. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar hygyrchedd. | |

| Tabl 6.2.10 | Yr Amcanion Cydraddoldeb a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2012-2016) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru | |
| Diben | • Mae'r Cynllun Cydraddoldeb yn adlewyrchu strategaethau sy'n bodoli'n barod a strategaethau sy'n cael eu datblygu, gan ddod â phopeth ynghyd i sicrhau gwell canlyniadau i bobl Cymru. | |
| Materion Allweddol | 1. | <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Cydnabyddir yn eang fod bylchau mawr yn y dystiolaeth ynglŷn â nodweddion a meysydd neilltuol o fywyd sy'n cael eu gwarchod. |
| | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Grwpiau ffocws gyda grwpiau nad yw eu llais yn cael ei glywed yn aml ar draws Cymru. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Mynd i'r afael â rhwystrau a helpu pobl anabl fel y |

| | | |
|---|---|---|
| | | gallant fyw'n annibynnol ac arfer dewis a rheolaeth yn eu bywydau bob dydd. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Gwella'r ffordd y caiff y stoc dai ei chynllunio a'i rheoli gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol er mwyn diwallu anghenion pobl am dai wedi'u haddasu yn well. |
| **Papurau Presennol ac Arfaethedig** | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar grwpiau anodd eu cyrraedd. | |

| **Tabl 6.2.11** | **Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru (2008-2013)** | |
|---|---|---|
| **Cyhoeddwr** | • Llywodraeth Cymru | |
| **Diben** | • Diben y strategaeth yw herio gwahaniaethu a stereoteipiau negyddol o heneiddio a dathlu bywyd hirach fel cyfle. | |
| **Materion Allweddol** | 1. | <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Bydd Llywodraeth Cymru'n helpu i ledaenu canfyddiadau ymchwil drwy ddarparu'r wybodaeth sydd gan ei Hadran Ymchwil Polisi Cymdeithasol ar ymchwil a pholisi ynglŷn â heneiddio. |
| | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Bydd pob awdurdod lleol yn ystyried Cylchlythyr Iechyd Cymru (07) 067 wrth lunio Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Bydd gan awdurdodau lleol ddyletswydd i gynhyrchu Strategaeth Gymunedol drosfwaol ynghyd â thair strategaeth arall a fydd yn bwydo iddi – y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc a Chynllun Datblygu Lleol. |
| | 4. | <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Mae'n bwysig fod cynllunio'n hwyluso ymdeimlad o gymuned a bod pobl hŷn yn gallu dod o hyd i'w ffordd o gwmpas yn eu hamgylchedd lleol. |
| **Papurau Presennol ac Arfaethedig** | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar lety i bobl hŷn. | |

| **Tabl 6.2.12** | **Iaith Fyw: Iaith Byw – Strategaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg (2012-2017)** | |
|---|---|---|
| **Cyhoeddwr** | • Llywodraeth Cymru | |
| **Diben** | • Deddf Llywodraeth Cymru 2006: Dyma strategaeth Gweinidogion Cymru ar hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. | |
| **Materion Allweddol** | 1. | <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Pasiwyd Mesur y Gymraeg (Cymru) yn 2011.<br>• Cylch gwaith Comisiynydd y Gymraeg yw bod yn eiriolwr cadarn a gweithgar dros yr iaith a gweithio gyda sefydliadau i gynyddu'r nifer o wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg, gan ddarparu rhagor o |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd. |
| | 2. | Papurau Pwnc<br>• Dros y pum mlynedd nesaf rydym am weld:<br>• cynnydd yn y nifer o bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith;<br>• rhagor o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. |
| | 3. | Polisïau<br>• Cynyddu a gwella'r gwasanaethau yn y Gymraeg i ddinasyddion.<br>• Cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith. |
| | 4. | Dyraniadau Safle<br>• Yn ogystal â darparu gwasanaethau i ddinasyddion, mae gan awdurdodau lleol y potensial i fod yn chwaraewyr allweddol yn y broses o gynllunio ieithyddol yng Nghymru. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd – Adroddiad Cwmpasu (td.21-22 – Treftadaeth Ddiwylliannol) (http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf)<br>• CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2016): Papur Pwnc ar y Gymraeg a Diwylliant yn cynnwys y Fethodoleg Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (http://www.anglesey.gov.uk/Journals/2012/07/10/Language-Impact-Assessment-Methodology-full.pdf) | |

| Tabl 6.2.13 | Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru | |
| Diben Cyffredinol | • Mae'r ddogfen hon yn nodi Strategaeth a Rhaglen Weithredu Llywodraeth Cymru i addysg cyfrwng Cymraeg. | |
| | 1. | Sylfaen Tystiolaeth<br>• Erbyn 2009, roedd dros 400 o gymwysterau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg gan 19 o gyrff dyfarnu. |
| | 2. | Papurau Pwnc<br>• Mae'r Strategaeth hon yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a Diben Cenedlaethol Ysgolion. |
| | 3. | Polisïau<br>• Gwella'r ffordd y caiff darpariaeth cyfrwng Cymraeg ei chynllunio yn y cyfnod cyn-statudol a statudol, ar sail ymateb rhagweithiol i alw o du rhieni sydd wedi'i seilio ar wybodaeth.<br>• Gwella'r ffordd y caiff darpariaeth cyfrwng Cymraeg ei chynllunio yn y cyfnodau addysg a hyfforddiant ôl-14, i ddangos dilyniant ieithyddol a pharhau i ddatblygu sgiliau.<br>• Sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn datblygu'u sgiliau yn y Gymraeg i'w llawn botensial ac annog dilyniant ieithyddol da o un cyfnod addysg a hyfforddiant i'r nesaf. |
| | 4. | Dyraniadau Safle |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Mae tystiolaeth o arolygon rhieni mewn nifer o awdurdodau lleol lle mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn opsiwn yn awgrymu nad yw'r ddarpariaeth yn llwyr ateb gofynion rhieni ym mhob ardal ar hyn o bryd. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Arfarniad Cynaliadwyedd – Adroddiad Cwmpasu (td.21-22 – Treftadaeth Ddiwylliannol) (http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1098/Adroddiad_Cwmpasu.pdf)<br>• CDLIC Ynys Môn a Gwynedd (2011-2016): Papur Pwnc ar y Gymraeg a Diwylliant yn cynnwys y Fethodoleg Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (http://www.anglesey.gov.uk/Journals/2012/07/10/Language-Impact-Assessment-Methodology-full.pdf) | |

| Tabl 6.2.14 | Gweithio Gyda'n Gilydd dros Gymru: Fframwaith Strategol i'r Gweithlu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru (2012) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru | |
| Diben | • Mae'r ddogfen hon yn darparu fframwaith strategol i'r gweithlu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. | |
| Materion Allweddol | 1. | Sylfaen Tystiolaeth<br>• Mae cyflogaeth yn y gwasanaethau cyhoeddus i gyfrif am bron i chwarter yr holl gyflogaeth yng Nghymru. |
| | 2. | Papurau Pwnc<br>• Mae amrywiaeth gyfoethog ac ystod eang o fentrau cymdeithasol yng Nghymru, yn amrywio o fentrau cymunedol unigol i sefydliadau tai cydweithredol sy'n eiddo i'r gweithwyr a mentrau mawr fel Dŵr Cymru. |
| | 3. | Polisïau<br>• Sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth. |
| | 4. | Dyraniadau Safle<br>• Lleoli adeiladau Gwasanaethau Cyhoeddus fel ei bod yn hawdd i bawb eu cyrraedd. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar gynllunio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. | |

| Tabl 6.2.15 | Cynllun Iechyd Gwledig (2009) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru | |
| Diben | • Canolbwyntio ar iechyd pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig i'w galluogi i fyw bywydau hapus a bodlon a hynny mor annibynnol â phosibl. | |
| Materion Allweddol | 1. | Sylfaen Tystiolaeth.<br>• Mae llawer o amddifadedd mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru o safbwynt mynediad daearyddol at wasanaethau oherwydd amseroedd gyrru, trafnidiaeth gyhoeddus a cherdded. |
| | 2. | Papurau Pwnc<br>• Mynediad, Integreiddio a Chydlyniant Cymunedol ac |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ymgysylltu. |
| | 3. | Polisïau<br>• Gwella mynediad at wasanaethau o bob math o ran trafnidiaeth, amser apwyntiadau a rhestrau aros.<br>• Gwella mynediad at Dechnoleg Gwybodaeth. |
| | 4. | Dyraniadau Safle<br>• Clinig Lles i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw.<br>• Cyfleusterau gofal canolradd yn darparu seibiant, cyfleoedd adsefydlu a chymorth arall i'r henoed eiddil mewn ardaloedd. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar gynllunio ar gyfer cyfleusterau iechyd. | |

| Tabl 6.2.16 | Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (2012-2016) | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru | |
| Diben | • Mae'r cynllun hwn yn nodi'r cydbwysedd rhwng yr angen i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi, a'r angen i fynd i'r afael â'r materion a fydd yn achosi i bobl fod mewn tlodi yn y dyfodol. | |
| Materion Allweddol | 1. | Sylfaen Tystiolaeth<br>• Mae tlodi'n dechrau effeithio ar blant o oedran ifanc; erbyn 5 oed canfuwyd bod plant o'r grwpiau mwyaf breintiedig yn economaidd fwy na blwyddyn ar y blaen mewn profion geirfa o'u cymharu â'r rhai o gefndiroedd difreintiedig. |
| | 2. | Papurau Pwnc<br>• Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni allweddol gynhyrchu Strategaeth Cyfranogiad Lleol, fel bod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd i leisio'u barn a chael rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. |
| | 3. | Polisïau<br>• Atal tlodi, yn enwedig drwy fuddsoddi er mwyn rhoi'r dechrau gorau posibl i blant. |
| | 4. | Dyraniadau Safle<br>• Bydd Llywodraeth Cymru'n dechrau gweithredu'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn eu hardaloedd. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar ddileu tlodi. | |

| Tabl 6.2.17 | Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Yr Hanfodion (2015) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | Llywodraeth Cymru |
| Diben | Paratowyd y ddogfen hon gan Adran Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru i helpu'r sawl sy'n darllen y Ddeddf, ond nid yw'n rhan o'r Ddeddf nac yn ganllawiau statudol mewn perthynas â'r Ddeddf. |

| | | |
|---|---|---|
| **Materion Allweddol** | **1.** | **Sylfaen dystiolaeth**<br>**Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.**<br>**Bydd yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau, a mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig.**<br>**Bydd hyn yn ein helpu i greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol.**<br>• **I wneud yn siŵr ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn sefydlu saith amcan lles.** |
| | **2.** | **Papurau pwnc**<br><br>**Rhaid i bob corff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf weithio i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid iddynt bennu a chyhoeddi amcanion lles.**<br>**Bydd yr amcanion hyn yn dangos sut y bydd pob corff cyhoeddus yn gweithio i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer Cymru a nodir yn yr amcanion lles. Yna mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gymryd camau i sicrhau eu bod yn cwrdd â'r amcanion a osodwyd ganddynt.** |
| | **3.** | **Polisïau**<br><br>**Nodau Lles**<br><br>**Cymru ffyniannus**<br>**Cymru gydnerth**<br>**Cymru iachach**<br>**Cymru fwy cyfartal**<br>**Cymru o gymunedau cydlynol**<br>**Cymru o ddiwylliant bywiog a Iaith Gymraeg ffyniannus**<br>• **Cymru'n gyfrifol yn fyd-eang** |
| | **4.** | **Dyraniadau safle**<br>• **Efallai y bydd angen ystyried safleoedd er mwyn helpu i gyflawni'r nodau lles a nodir yn y Ddeddf.** |
| **Papurau Presennol ac Arfaethedig** | • **Dim papur pwnc ar hyn o bryd.** | |

ATODIAD 5 – THEMÂU CYFFREDINOL

| Tabl 7.2.1 | Polisi Cynllunio Cymru – Pennod 3: Gwneud Penderfyniadau Cynllunio a'u Gorfodi (2016) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Mae Pennod 3 yn darparu trosolwg o ddiben a gweithdrefnau'r gyfundrefn gynllunio.<br>• Diweddarwyd yn ffeithiol i gynnwys cyfeiriad at Gyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Olew a Nwy anghonfensiynol) (Cymru) 2015. |
| Materion Allweddol | 1. Sylfaen Tystiolaeth<br>• Mae'r ystyriaethau perthnasol yn cynnwys nifer, maint, patrwm, dyluniad a golwg adeiladau.<br>• Mae ystyriaethau perthnasol o'r fath yn cynnwys nifer, maint, patrwm, dyluniad a golwg adeiladau, y mynedfeydd iddynt, materion tirweddu, y gwasanaethau sydd ar gael a'r effaith ar y gymdogaeth a'r amgylchedd.<br>• Gallai effeithiau datblygiad ar, er enghraifft, iechyd, diogelwch y cyhoedd a throseddau hefyd fod yn ystyriaethau perthnasol ac felly hefyd, mewn egwyddor, bryderon y cyhoedd mewn perthynas ag effeithiau o'r fath. |
| | 2. Papurau Pwnc<br>• Fel arfer mae'n well i awdurdodau cynllunio sy'n adnabod eu hardal, ei hanghenion a'r ffactorau sensitif ynddi benderfynu ar gynigion datblygu yn lleol.<br>• Mae'r gyfundrefn gynllunio wedi'i bwriadu i helpu i warchod mwynderau ac amgylchedd aneddiadau, gan hyrwyddo datblygu cynaliadwy yr un pryd.<br>• Mae'n ofynnol mewn proses effeithiol i reoli datblygu fod awdurdodau cynllunio lleol yn barod i gymryd camau gorfodi o dan amgylchiadau priodol. |
| | 3. Polisïau<br>• Os bydd datblygiad sy'n gwyro oddi wrth y polisïau perthnasol mewn CDLl, neu ddatblygiad sy'n groes i gyngor corff y mae rheidrwydd statudol i ymgynghori ag ef neu sy'n groes i gyngor ysgrifenedig ei swyddogion, yn cael ei gymeradwyo gan awdurdod cynllunio lleol, dylai'r rhesymau dros roi caniatâd gael eu cofnodi yng nghofnodion y Pwyllgor. |
| | 4. Dyraniadau Safle<br>• Oni nodir fel arall, mae caniatâd cynllunio ynghlwm wrth y tir ac anaml y mae'n ddymunol darparu ar gyfer unrhyw drefniant arall. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar weithdrefnau gorfodaeth gynllunio a sut y dylid tynnu sylw at y mater hwn yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. |

| Tabl 7.2.2 | Polisi Cynllunio Cymru – Pennod 12: Seilwaith a Gwasanaethau (2016) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Mae Pennod 12 yn delio â seilwaith a gwasanaethau, megis cyflenwad dŵr a rheoli dŵr gwastraff.<br>• Diwygiwyd yn Argraffiad 8 i gynnwys cyfeiriad at offer micro-genhedlaeth annomestig ar raddfa fach. |
| Materion Allweddol | 1. <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Dylid ystyried capasiti'r seilwaith presennol, a'r angen am gyfleusterau ychwanegol. |
| | 2. <u>Papurau Pwnc</u><br>• Dylid ystyried capasiti'r seilwaith presennol, a'r angen am gyfleusterau ychwanegol. |
| | 3. <u>Polisïau</u><br>• Datblygu agwedd strategol a hirdymor tuag at ddarparu seilwaith.<br>• Ymgynghori â chwmnïau cyfleustodau a darparwyr seilwaith eraill, yn ogystal ag Asiantaeth yr Amgylchedd, mewn da bryd.<br>• Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu agwedd strategol a hirdymor tuag at ddarparu seilwaith wrth baratoi cynlluniau datblygu. |
| | 4. <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Datblygu agwedd strategol a hirdymor tuag at ddarparu seilwaith.<br>• Mae'n bosibl y bydd angen datblygu graddol, trwy ymgynghori â'r cwmnïau cyfleustodau perthnasol, er mwyn rhoi amser i sicrhau y gellir rheoli'r ddarpariaeth o gyfleustodau mewn modd sy'n gyson â'r polisïau cyffredinol ar ddatblygu cynaliadwy. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar y capasiti seilwaith cyfredol a'r gofynion i'r dyfodol yng Ngwynedd a Môn. |

| Tabl 7.2.3 | Nodyn Cyngor Technegol 7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored (1996) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Mae'r gyfundrefn reoli sydd wedi'i phennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i reoli unrhyw hysbysebion awyr agored bron er budd mwynderau a diogelwch y cyhoedd. |
| Materion Allweddol | 1. <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Caiff rhai mathau o hysbysebion eu heithrio o reolaeth fanwl, mae categorïau penodedig eraill o hysbysebion yn gymwys i gael caniatâd tybiedig, cyhyd â'u bod yn cydymffurfio â'r amodau a'r cyfyngiadau penodedig i bob categori. |
| | 2. <u>Papurau Pwnc</u><br>• Gall awdurdodau cynllunio lleol gynhyrchu canllawiau dylunio ar gyfer hysbysebion awyr agored a blaenau siopau, yn enwedig mewn ardaloedd cadwraeth neu lle mae adeiladau cynhenid yn chwarae rhan bwysig yn ymddangosiad cymdogaeth.<br>• Mae angen i ganllawiau o'r fath gydnabod pwysigrwydd hysbysebion i'r economi genedlaethol ac ni ddylent fygu dyluniadau gwreiddiol na thechnegau arddangos newydd. |
| | 3. <u>Polisïau</u><br>• Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol roi arweiniad clir i ddarpar hysbysebwyr pa un a yw eu cynigion yn debygol o fod yn dderbyniol, a dylent fod yn sylfaen i benderfynu'n rhesymol a chyson ar geisiadau am hysbysebion. |
| | 4. <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Bydd polisïau'r cynllun datblygu i reoli hysbysebion awyr agored mewn ardaloedd neu rannau o ardaloedd lle byddai arddangos hysbysebion sydd wedi'u dylunio'n wael yn arbennig o niweidiol, yn ffactor perthnasol wrth ystyried cais am hysbyseb. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar faterion canllawiau dylunio. |

| Tabl 7.2.4 | Nodyn Cyngor Technegol 9: Gorfodi Rheolaeth Gynllunio (1997) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Darparu canllawiau ar faterion gorfodi cyffredinol a sut y cânt eu rhoi ar waith. |
| Materion Allweddol | 1. <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Er nad yw'n dramgwydd troseddol ymgymryd â |

| | | |
|---|---|---|
| | | datblygiad heb gael y caniatâd cynllunio gofynnol yn gyntaf, dylid annog pobl i beidio â gweithredu felly. |
| | 2. | <u>Papurau Pwnc</u><br>• Mae'r cyfrifoldeb am benderfynu a ddylid rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygiad arfaethedig yn gorffwys yn y lle cyntaf gyda'r awdurdod cynllunio lleol, fel y mae'r penderfyniad pa un y dylid caniatáu i ddatblygiad heb ganiatâd barhau ynteu a ddylid gorfodi yn ei erbyn. |
| | 3. | <u>Polisïau</u><br>• Lle mae'r awdurdod cynllunio lleol o'r farn fod datblygiad diawdurdod annerbyniol wedi cael ei greu, ac nad oes gobaith realistig o'i adleoli i safle mwy addas – un ai am nad oes safle o'r fath ar gael neu am fod y perchennog neu'r meddiannydd yn gwrthod adleoli – dylid hysbysu perchennog neu feddiannydd y tir nad yw'r awdurdod cynllunio lleol yn barod i ganiatáu i'r gweithrediad neu'r gweithgaredd barhau ar ei lefel bresennol neu ddim o gwbl, os mai dyna'r sefyllfa.<br>• Lle mae awdurdod cynllunio lleol o'r farn fod datblygiad diawdurdod yn achosi niwed annerbyniol i fwynderau cyhoeddus, ac nad yw'n debygol y caiff y mater ei ddatrys drwy drafodaeth neu'n wirfoddol, dylai gymryd camau gorfodi cadarn i gywiro'r torri amodau ar fyrder, neu i atal niwed difrifol pellach i fwynderau cyhoeddus. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar weithdrefnau gorfodaeth gynllunio a sut y dylid tynnu sylw at y mater yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. |

| Tabl 7.2.5 | Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn (1997) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Mae'n darparu canllawiau ar:<br>• sut mae modd defnyddio'r gyfundrefn gynllunio i leihau effeithiau andwyol sŵn;<br>• sut y dylai Cynlluniau Datblygu Lleol ymdrin â chynhyrchu sŵn;<br>• sut mae mabwysiadu agwedd gorfforaethol a sicrhau cydweithredu rhwng yr adrannau cynllunio ac iechyd yr amgylchedd;<br>• sut y dylid nodi polisïau sŵn sy'n ymdrin ag ardal benodol. |
| Materion Allweddol | 1. <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Mae Categorïau Datguddiad Sŵn (NECs) wedi'u creu i helpu awdurdodau cynllunio lleol wrth ystyried ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau preswyl yn agos at ffynonellau sŵn sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth.<br>• Gallai'r mesurau a gyflwynir i reoli sŵn gynnwys peirianneg, cynllun datblygiadau a mesurau |

| | |
|---|---|
| | gweinyddol. |
| | 2. **Papurau Pwnc**<br>• Gall nodweddion a lefelau sŵn amrywio'n sylweddol yn ôl eu ffynhonnell a'r math o weithgaredd dan sylw.<br>• Yn achos datblygu diwydiannol, dylid cymryd cymeriad y sŵn i ystyriaeth yn ogystal â'i lefel. |
| | 3. **Polisïau**<br>• Lle mae polisïau sŵn yn berthnasol i ardal cynllun drwyddi draw, dylent gael eu cyflwyno yn yr un ffordd â pholisïau cyffredinol eraill. |
| | 4. **Dyraniadau Safle**<br>• Gall polisïau sŵn penodol fod yn ddefnyddiol o dan rai amgylchiadau – mewn achosion felly, dylai'r terfynau perthnasol gael eu dangos ar y map cynigion. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar nodweddion sŵn ac ar liniaru sŵn. |

| Tabl 7.2.6 | Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (2009) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Mae'r ddogfen hon yn darparu arweiniad i ategu'r polisi sydd wedi'i nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru ac mae'n rhoi cyngor ynglŷn â rôl y gyfundrefn gynllunio yn darparu ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden a mannau agored anffurfiol. |
| Materion Allweddol | 1. **Sylfaen Tystiolaeth**<br>• Mae *'Cymru'n Un – Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru'* yn nodi strategaeth drosfwaol Llywodraeth Cymru o ran gweithredu i gyflwyno newid.<br>• Mae Cymru'n Un yn darparu ar gyfer creu llwybr arfordirol Cymru gyfan, mae'n annog chwaraeon, gweithgarwch corfforol a mwynhad o'r amgylchedd naturiol. |
| | 2. **Papurau Pwnc**<br>• Mae'n ofynnol yn ôl Polisi Cynllunio Cymru i awdurdodau cynllunio lleol ddarparu fframwaith ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden mewn lleoliadau priodol, y dylent fod yn sensitif i anghenion defnyddwyr, yn ddeniadol, wedi'u dylunio a'u cynnal yn dda, a'u bod yn ddiogel a hygyrch i bawb. |
| | 3. **Polisïau**<br>• Dylai'r Asesiad Mannau Agored a pholisiau'r Cynllun Datblygu Lleol ddarparu'r sylfaen i'r Strategaeth Mannau Agored.<br>• Mae hefyd yn argymell y dylai 1.6 ha o dir ar gyfer yr holl chwaraeon awyr agored fod ar gael fesul 1,000 o boblogaeth. |

| | |
|---|---|
| | • Dylai'r Cynllun Datblygu Lleol nodi'r weledigaeth strategol i'r awdurdod o ran darparu, gwarchod a gwella'r cyfleusterau ar gyfer chwaraeon, gweithgarwch corfforol, mannau agored a hamdden.<br>• Dylai'r safonau ar gyfer mannau agored a darpariaeth hamdden newydd fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn sy'n tarddu o'r Asesiad Mannau Agored, os yw ar gael. |
| | 4. <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol ystyried graddfa a dosbarthiad cyfleusterau a gweithgareddau wrth ddyrannu safleoedd ar gyfer mannau agored a defnydd hamdden. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar ddarparu mannau agored yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. |

| Tabl 7.2.7 | Nodyn Cyngor Technegol 19: Telathrebu (2002) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Mae'n darparu canllawiau ar ofynion Deddf Telathrebu 1984 a'u goblygiadau i'r gyfundrefn gynllunio. |
| Materion Allweddol | 1. <u>Sylfaen Tystiolaeth</u><br>• Adroddiad Stewart (2000) gan y Grŵp Annibynnol ar Ffonau Symudol.<br>• Cronfa ddata ar sail map 'Sitefinder' a gynhyrchwyd gan yr Asiantaeth Radiogyfathrebu, sy'n dangos safleoedd trosglwyddyddion gorsafoedd cellog gweithredol. |
| | 2. <u>Papurau Pwnc</u><br>• Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol ystyried:<br>• ffordd Llywodraeth Cymru o ymdrin â thelathrebu;<br>• gofynion Deddf Telathrebu 1984;<br>• yr angen i leihau effaith datblygu i'r eithaf;<br>• y cyfyngiadau a orfodir arnynt gan y rhwydweithiau cyfredol a'r dechnoleg;<br>• gofynion telathrebu.<br>• Mae ystyriaethau amgylcheddol o'r pwys mwyaf wrth ystyried ceisiadau am fastiau telathrebu.<br>• Mae materion iechyd a diogelwch hefyd yn ystyriaeth bwysig. |
| | 3. <u>Polisïau</u><br>• Lleoliad ac ymddangosiad allanol y cyfarpar. |
| | 4. <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Gall Cynlluniau Datblygu Lleol ddyrannu safleoedd penodol ar gyfer datblygiadau telathrebu mawr megis mastiau tal er mwyn annog rhannu safleoedd. |
| Papurau Presennol ac Arfaethedig | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar reoli'r cydbwysedd rhwng galluogi datblygiadau telathrebu a pharchu cyfyngiadau amgylcheddol o safbwynt tirweddau naturiol a |

| | |
|---|---|
| | bioamrywiaeth. |

| Tabl 7.2.8 | Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau (2004) |
|---|---|
| Cyhoeddwr | • Llywodraeth Cymru |
| Diben | • Mae'r Nodyn Cyngor Technegol Mwynau hwn yn darparu cyngor manwl ynglŷn â'r mecanweithiau er mwyn i awdurdodau cynllunio mwynau a'r diwydiant agregau wireddu'r polisi echdynnu mwynau.<br>• Prif amcan y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yw sicrhau bod cyflenwadau'n cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy i wneud yn siŵr fod cydbwysedd yn cael ei gadw rhwng ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. |
| Materion Allweddol | 1. Sylfaen Tystiolaeth<br>• Sefydlwyd Gweithgorau Agregau Rhanbarthol yn yr 1970au fel grwpiau technegol i fonitro ac asesu'r cyflenwad o agregau.<br>• Mae dau grŵp yng Nghymru, un i'r Gogledd ac un i'r De.<br>• Mae cynhyrchu agregau cynradd yng Nghymru a Lloegr wedi gostwng o uchafbwynt o 250 miliwn tunnell yn 1989 i 193 miliwn tunnell yn 2001.<br>• Yng Nghymru gostyngodd cyfanswm y gwerthiant o 26 i ychydig llai nag 20 miliwn tunnell yn 2001 neu 10% o holl gynnyrch Cymru a Lloegr.<br>• Creigiau mâl yw'r agreg cynradd a gynhyrchir yn bennaf yng Nghymru (86%); o hyn, calchfaen yw 73%; tywodfaen yr 15%; a chraig igneaidd yw 12%.<br>• Mae llawer mwy o echdynnu tywod a graean o'r tir yn digwydd yn y Gogledd nag yn y De, lle daw'r rhan fwyaf o'r defnydd hwn o'r môr.<br>• Agregau yw'r prif elfennau sy'n cael eu defnyddio wrth adeiladu. |
| | 2. Papurau Pwnc<br>• At ddibenion y nodyn hwn, caiff agregau eu rhoi mewn tri chategori:<br>  • agregau cynradd – swmp ddefnyddiau sy'n digwydd yn naturiol, fel creigiau, tywod a graean;<br>  • gwastraff mwynau – defnyddiau a geir fel sgil gynnyrch wrth echdynnu mwynau, y mae modd eu defnyddio, fel mân ronynnau creigiau mâl a gwastraff llechi;<br>  • agregau eilaidd/wedi'u hailgylchu – defnyddiau a ddefnyddiwyd o'r blaen y mae modd eu defnyddio yn lle agregau cynradd, fel defnyddiau o waith adeiladu. |
| | 3. Polisïau<br>• Yr amcan trosfwaol wrth gynllunio darpariaeth agregau yw sicrhau bod y cyflenwad yn cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy fel bod y cydbwysedd gorau'n cael ei gynnal rhwng ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, gan |

| | |
|---|---|
| | wneud yn siŵr yr un pryd fod effeithiau amgylcheddol ac amwynder unrhyw echdynnu angenrheidiol yn cael eu cadw i lefel sy'n osgoi newid y gellir ei ddangos i fuddiannau o bwys cydnabyddedig.<br>• Efallai na fydd y gofyniad derbyniol hwn yn bosibl ym mhob achos, a lle mai dyna'r sefyllfa, ni ddylid echdynnu, neu lle mae echdynnu'n digwydd ar hyn o bryd, dylai awdurdodau cynllunio lleol a'r diwydiant agregau ystyried arferion neu leoliadau gwaith amgen ar gyfer y dyfodol i sicrhau safon sy'n cael ei hystyried yn briodol ar gyfer yr 21ain ganrif.<br>• Rhaid i'r dasg hon gael ei chyflawni gan awdurdodau cynllunio mwynau o fewn fframwaith polisi cynllunio a chyngor technegol Llywodraeth Cymru.<br>• Dylid gwneud cymaint o ddefnydd â phosibl o ddefnyddiau eilaidd a defnyddiau wedi'u hailgylchu, a gwastraff mwynau, lle mae hynny'n bosibl. |
| | 4. <u>Dyraniadau Safle</u><br>• Gall amodau cynllunio fynnu bod rhaglenni gwaith / dyluniad a chynllun safleoedd – ffynonellau allyriadau llwch yn cael eu lleoli oddi wrth ddatblygiadau sensitif. |
| **Papurau Presennol ac Arfaethedig** | • Dim papurau pwnc ar hyn o bryd.<br>• Papur pwnc posibl ar ddiogelu adnoddau agregau yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. |